# Datganiadau Ariannol a Llywodraethu Llawn 2008/09

BBC




F01 / **TROSOLWG ARIANNOL/**
F07 / **UCHAFBWYNTIAU ARIANNOL/**
F09 / **ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL/**
F10 / **DATGANIADAU ARIANNOL A NODIADAU LLAWN/**
F75 / **LLYWODRAETHU/**

# TROSOLWG ARIANNOL/



''MAE TALWYR FFI'R DRWYDDED YN DISGWYL CAEL GWERTH RHAGOROL AM ARIAN YM MHOB UN O'N GWASANAETHAU AC MAE'N BRIODOL EU BOD YN DISGWYL HYNNY. ER MWYN LLWYDDO I GYFLAWNI MWY AM LAI RYDYM YN PARHAU I SYMLEIDDIO AC ARLOESI YM MHOB AGWEDD AR EIN BUSNES.''

ZARIN PATEL, PRIF SWYDDOG ARIANNOL

**Siart 1/ Casglu/osgoi talu ffi'r drwydded %**




Mae'r BBC yn cynnig amrywiaeth unigryw ac arbennig o wasanaethau; fe'i hariennir hefyd mewn ffordd unigryw. Mae gennym weithrediadau masnachol, gan gynnwys BBC Worldwide, ond daw'r rhan fwyaf o'n cyllid o ffi'r drwydded, y telir amdani gan aelwydydd ledled y DU. Cawn gyllid hefyd gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad i gefnogi'r World Service.

Rhydd ein cyllid freintiau eithriadol i ni ac mae cyfrifoldeb arnom i wario'r arian hwn yn dda. Mae'r rhan gyntaf o'r arolwg ariannol hwn yn canolbwyntio ar sut y gwnawn hyn, yn enwedig yng ngoleuni'r dirywiad economaidd presennol.

## EIN LLINELL SYLFAEN YW RHOI GWERTH – I BOB UN O'N RHANDDEILIAID

Un o ganlyniadau eraill ein statws unigryw yw nad oes gennym 'linell sylfaen' yn yr un modd â sefydliadau sy'n gwneud elw, ond rydym yn dangos gwarged neu ddiffyg bob blwyddyn.

Dengys ein cyfrifon grŵp warged cyn llog a threth eleni o £178.1miliwn (2008: diffyg (£4.7miliwn)), sy'n deillio'n bennaf o ganlyniad i'r ffordd y cawsom ein hariannu. Mae gennym setliadau uwch yn y blynyddoedd cynnar a fydd yn helpu i ariannu ein hymrwymiadau Siarter sylweddol hyd at 2012/13, gan gynnwys datblygu digidol a'r Cynllun Cymorth, symud i Salford a'n strategaeth cyflenwi rhwydwaith.

Yn hytrach na llinell sylfaen, yr hyn sydd gennym yw dealltwriaeth glir iawn o'r gwerth y gallwn ac y dylem fod yn ei greu i'n rhanddeiliaid, ac mae hyn yn trosi'n bum amcan ariannol allweddol:

### Sicrhau'r incwm mwyaf i ni ein hunain drwy gasglu ffi'r drwydded mewn ffordd mor effeithlon ag y gallwn.

Mae dwy agwedd i hyn: datblygu ffyrdd mwy cost-effeithiol o gasglu a thalu ffi'r drwydded, sydd hefyd yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid, a lleihau nifer yr achosion o osgoi talu ffi'r drwydded gymaint â phosibl.

Gwelsom gynnydd o 12% yn nifer y bobl a oedd yn talu drwy gynlluniau arian parod y llynedd, sy'n galluogi pobl i dalu mewn rhandaliadau llai dros gyfnod hwy, ac rydym hefyd wedi darparu mwy o allfeydd lle y gall pobl dalu pan fo'n gyfleus iddynt. Rydym wedi parhau i hyrwyddo taliadau ar-lein, sy'n rhatach i'w prosesu, ac yn fwy hwylus i lawer o'n talwyr ffi'r drwydded. Gwerthwyd mwy o drwyddedau yn y ffordd hon a thrwy'r llinell ffôn hunanwasanaeth yn 2008/09. Mae hunanwasanaeth bellach yn cynrychioli 35% o'r holl drafodion, sef cynnydd o'r 26% yn y flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd nifer y bobl sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol unwaith eto eleni o 66% i 67%. Yn ôl y disgwyl, rydym yn cyrraedd yr uchafswm posibl ar gyfer y cynllun penodol hwn, felly rydym yn canolbwyntio yn awr ar fuddsoddi mewn dulliau talu hyblyg eraill. Lleihaodd cyfanswm ein costau casglu (yn glir o log) unwaith eto eleni, i £119miliwn neu 3.4% o'r incwm.

Cododd achosion o osgoi talu ychydig, o 5.1% i 5.3%, sy'n adlewyrchu'r amodau economaidd presennol, ond gwrthbwyswyd hyn gan ddulliau casglu mwy effeithlon, a pharhaodd cost gyfunol casglu ac osgoi talu yn sefydlog ar 8.7% o incwm ffi'r drwydded. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl wynebu rhagor o heriau yn y 12 mis nesaf wrth i lefelau is o hyder ymhlith defnyddwyr arafu'r twf mewn aelwydydd newydd.

Yn ddiweddar cynhaliodd Ymddiriedolaeth y BBC arolwg annibynnol o'n Casgliad Ffi'r Drwydded, a ymgynghorodd â thalwyr ffi'r drwydded cyn gwneud nifer o argymhellion penodol ar sut y dylid newid ein dull gweithredu. Rydym wedi ystyried y rhain, a byddwn yn edrych yn benodol ar sut rydym yn cyfathrebu â thalwyr ffi'r drwydded, gan symleiddio'r modd y mae pobl yn talu am eu ffi'r drwydded, a ffyrdd o dargedu ein mesurau gorfodi yn fwy effeithiol.

### Gwneud y BBC mor effeithlon â phosibl, a darparu gwerth da am arian


Mae llwyddiant ein rhaglen effeithlonrwydd yn bwysicach nawr nag y bu erioed. O dan ein rhaglen Gwelliant Parhaus newydd, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2008, rydym wedi bod yn gosod targed ymestynnol i gyflawni 3% o arbedion effeithlonrwydd cronnol bob blwyddyn neu 15% o'n sail costau hyd at 2012/13, sef tua £1.9biliwn. Yn ystod y cyfnod hwn rydym hefyd yn bwriadu lleihau nifer y staff 10% (1,800 o swyddi), ar ben y 10% a gyflawnwyd rhwng 2005 a 2008 (1,900 o swyddi).

Amcangyfrifwn y bydd y rhaglen Gwelliant Parhaus yn costio tua £160miliwn i'w gweithredu dros chwe blynedd, ac rydym wedi arbed £237miliwn ers i'r rhaglen ddechrau (£192miliwn yn glir o gostau).

Nid un rhaglen o arbedion yw hon. Rhwng 2000 a 2005 gwnaethom arbed dros £2biliwn drwy effeithlonrwydd a mentrau eraill, ac yna sicrhawyd £347miliwn arall o arbedion blynyddol cylchol, drwy'r rhaglen Gwerth am Arian, a fu'n rhedeg rhwng 2005 a 2008. Targedodd y rhaglenni effeithlonrwydd hyn ein sail costau sefydlog yn bennaf; mae hyn yn golygu bod yr arbedion yn ein rhaglen ddiweddaraf, fel cyfran o'n costau amrywiol, hyd yn oed yn uwch mewn gwirionedd.

Daw'r arbedion hyn o nifer o fentrau, yn cynnwys newid y ffordd rydym yn comisiynu ac yn gwneud rhaglenni yn fewnol, gan ganoli'r gwaith o gynhyrchu newyddion a chyflwyno cynyrchiadau di-dâp digidol o'r dechrau i'r diwedd.

**Siart 2/ Arbedion effeithlonrwydd gros £m**



Siart 3/ **Elw statudol BBC Worldwide cyn llog a threth £m**




Hyd yma, o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed i'r ffordd rydym yn gwneud ein rhaglenni, rydym wedi gallu buddsoddi mwy mewn technoleg, gan wella gallu iPlayer a gwella ein gallu ar alw, i sicrhau bod ein cynnwys Chwaraeon, Newyddion a Radio ar gael pryd bynnag a lle bynnag y mae ein cynulleidfa am ei gael. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn rhaglenni aml-lwyfan a gwasanaethau newydd megis HD – mae hyn eisoes wedi bod yn llwyddiant mawr ar gyfer Gemau Olympaidd 2008, a hefyd ar gyfer rhaglenni nodedig fel *Nature's Great Events*.

Y pwyntiau olaf i'w crybwyll yma yw'r arolygon Gwerth am Arian. Cwblhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ddau arolwg yn 2008/09, un ar gynhyrchu rhaglenni radio, a'r llall ar ein rheolaeth o gontractau strategol. Cydnabu'r cyntaf fod y nod o sicrhau bron £70miliwn o arbedion rhyddhau arian parod cronnol ym maes radio erbyn 2012/13 yn un heriol. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion, a oedd naill ai eisoes ar waith, neu y byddwn yn mynd i'r afael â hwy nawr. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â rhannu arfer da a dealltwriaeth, y tu mewn a'r tu allan i'r BBC. Dadansoddodd yr ail arolwg 17 o gontractau gwahanol gyda gwerth blynyddol cyfun o tua £715miliwn. Cydnabu'r adroddiad fod gan y BBC hanes gwell na'r cyffredin o reoli contractau mawr ac mae'r arbedion rydym wedi eu sicrhau wedi rhagori ar y disgwyliadau gwreiddiol. Unwaith eto, rydym yn mynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad, ac yn canolbwyntio yn benodol ar sut rydym yn rheoli ein cadwyn gyflenwi yn fwy effeithiol.

### BBC mwy effeithlon: symleiddio sgriptiau

Mae datblygu a chynhyrchu dramâu yn fusnes drud, ac rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o gael yr un canlyniad o safon am lai o gost – i wneud *Little Dorrit* am gyn lleied â *Doctors*. Un ffordd o wneud hyn yw drwy ddod â'n timau ariannol a chreadigol ynghyd yn amlach ac mewn ffyrdd newydd, i wella eu dealltwriaeth o flaenoriaethau a chyfyngiadau ei gilydd. Mae rhoi hyfforddiant cyllidebu rhaglenni gwell i olygyddion sgriptiau yn enghraifft dda o hyn yn gweithio'n dda yn ymarferol. Yn yr achos hwn rydym wedi gallu osgoi costau diangen a symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau ar gamau cynnar hollbwysig mewn amserlen gynhyrchu. Mae hyn wedi arwain at sgîl-fanteision i'r tîm cynhyrchu cyfan ac i'r broses.

## Sicrhau'r elw mwyaf ar gyfer rhaglenni y telir amdanynt gan ffi'r drwydded

Yn ei hanfod, dyma beth yw diben prif gangen fasnachol y BBC. Mae BBC Worldwide yn gwerthu'r rhaglenni a wnawn ledled y byd, fel bod talwyr ffi'r drwydded yn cael yr elw mwyaf posibl ar yr arian a dalant.

Rydym bob amser yn chwilio am gyfleoedd newydd i werthu ein hallbwn, fformatau a nwyddau eraill yn y DU a thramor. Yn 2008/09 roedd cyfanswm refeniw BBC Worldwide ychydig dros £1biliwn, yn cynnwys incwm mewnol y grŵp a'i gyfran o incwm y cyd-fentrau, cynnydd o 9.5% ers y flwyddyn flaenorol a'r tro cyntaf i'r refeniw fynd y tu hwnt i'r garreg filltir hon.

Mae hyn yn rhannol oherwydd buddsoddiad newydd eleni, mewn sianelau, ar-lein ac ym maes cynyrchiadau, ac yn rhannol oherwydd twf ein busnes presennol. Ymhlith yr uchafbwyntiau o fusnes ein Brandiau Byd-eang mae *Top Gear*, a *Doctor Who*. Rydym hefyd wedi lansio 18 o sianelau newydd ledled y byd eleni, sy'n gwneud cyfanswm o 44, gan gyfrannu at dwf mewn refeniw Sianelau o 23%.

Cafodd yr is-adran cylchgronau flwyddyn anos, gyda hysbysebu a chylchrediad yn dioddef o'r dirywiad cyffredinol mewn gwariant marchnata sydd bellach yn effeithio ar y farchnad gylchgronau gyfan. Mae Lonely Planet wedi cyflawni ei flwyddyn lawn gyntaf o refeniw, ond mae'r dirywiad economaidd presennol yn effeithio ar hwn hefyd, sy'n arafu'r farchnad deithio a gwyliau; fodd bynnag, mae'n galonogol bod y busnes wedi llwyddo, serch hynny, i gynyddu ei gyfran yn y farchnad yn UDA.

### BBC mwy effeithlon: newyddion aml-gyfrwng

Mae gennym bellach ystafell newyddion aml-gyfrwng sy'n dwyn ynghyd newyddiadurwyr a thimau cynhyrchu o feysydd teledu, radio ac ar-lein. Mae hyn yn arbed arian, yn cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau, ac yn caniatáu i ni wneud y gorau o'r cynnwys a grëir gennym, drwy ei ailddefnyddio a'i ailbecynnu ar gyfer mwy o sianelau a llwyfannau. Mae hefyd wedi rhoi sgiliau newydd i'n timau newyddion ni ein hunain, yn ogystal â'r staff llawrydd sy'n gweithio i ni, a all gymryd yr hyn y maent wedi ei ddysgu a'i ddefnyddio yn y farchnad ehangach.

Roeddem wedi gobeithio adeiladu ar lwyddiant enfawr iPlayer gyda'n cynnig i ddatblygu gwasanaeth fideo ar alw newydd mewn partneriaeth ag ITV a Channel 4. Yn anffodus mae'r Comisiwn Cystadleuaeth wedi dyfarnu y byddai hyn yn ormod o fygythiad i gystadleuwyr eraill yn y farchnad fideo ar alw sy'n datblygu. O ganlyniad rydym wedi gorfod dileu £9miliwn o gostau yr aethpwyd iddynt, ond rydym yn obeithiol o hyd y gallwn ddod o hyd i ffordd arall o gynhyrchu'r un elw i dalwyr ffi'r drwydded yn y tymor hir.

Aeth ein partner yn y gyd-fenter 2entertain, Woolworths Group plc, yn nwylo gweinyddwyr ar ddiwedd 2008, felly bu'n rhaid i ni ddileu costau a dyled anadenilladwy, er bod 2entertain ei hun yn parhau i fasnachu'n dda. Ers hynny rydym wedi bod yn ystyried sut i ddatrys y broblem hon mewn modd sy'n diogelu buddiannau talwyr ffi'r drwydded.

Lleihaodd enillion statudol BBC Worldwide o £118miliwn yn 2007/08 i £86miliwn eleni. Mae hyn yn bennaf oherwydd taliadau mewn perthynas â Woolworths (amcangyfrif o £15miliwn yn cynnwys ein cyfran o rwymedigaeth pensiwn 2entertain), Kangaroo (£9miliwn) a'n strategaeth fuddsoddi barhaus.

Mae'r dirywiad mewn gweithgarwch hysbysebu yn ystod y flwyddyn wedi effeithio ar ein busnes newyddion byd-eang, BBC World News. Er gwaethaf cynnydd mewn refeniw o 12%, mae wedi mynd i golled statudol o £3miliwn eleni.

### BBC mwy effeithlon: cytundebau cynhyrchu tymor hwy

Yn ein busnes ni fydd comisiynau ac amserlenni bob amser yn newid flwyddyn ar ôl blwyddyn, wrth i ddewisiadau a blaenoriaethau cynulleidfaoedd newid. Mae hyn yn golygu bod sicrhau arbedion sylweddol yn y gyllideb hyd yn oed yn fwy heriol, ond mae rhai penderfyniadau hirdymor y gallwn eu gwneud o hyd a all helpu i leihau costau. Er enghraifft, gallwn negodi cytundebau tymor hwy gyda chynhyrchwyr annibynnol ar y fformatau hynny sy'n debygol o barhau i fod yn boblogaidd yn ein barn ni, neu a allai addasu i chwaeth gwahanol gynulleidfaoedd. Mae Masterchef ac Eggheads yn ddwy enghraifft dda o hyn. Mae'r manteision yn ddeublyg – mae'n rhoi mwy o sicrwydd i'r cwmni cynhyrchu annibynnol am eu llif arian parod, tra'n caniatáu i ni gynllunio'n fwy effeithlon, sy'n cael effaith uniongyrchol ar ein cost fesul awr.

Ar ddechrau 2008/09, gwnaethom gyhoeddi ein bod yn gwerthu is-adran Darllediadau Allanol BBC Resources Limited, menter fasnachol arall. Cadwyd gweithrediadau'r Stiwdios ac Ôl-gynhyrchu, a chawsant eu hailstrwythuro yn fusnes newydd o'r enw BBC Studios and Post Production Limited. Bu'n flwyddyn anodd i'r farchnad cyfleusterau darlledu, gyda lleihad cyffredinol mewn trosiant a refeniw, wrth i gynyrchiadau gwtogi ar gostau a chwilio am arbedion. Ar ddiwedd y flwyddyn, gwnaeth y busnes golled statudol cyn llog a threth o £18miliwn, yn bennaf o ganlyniad i'n hailstrwythuro.

Am ragor o wybodaeth gweler ei arolwg gwasanaethau, neu ewch i www.bbcstudiosandpostproduction.com

Er bod canlyniadau statudol y busnesau masnachol unigol yn dangos elw o £86miliwn yn BBC Worldwide, colledion o £19miliwn mewn gweithrediadau Stiwdios ac Ôl-gynhyrchu a £3miliwn yn BBC World News, o'u cyfuno yng nghyfrifon y grŵp, caiff elw'r grŵp cyn llog a threth ei leihau i £31miliwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth o golledion anariannol ar offerynnau ariannol cyfnewid tramor; nid oedd yr addasiadau hyn yn sylweddol yn 2007/08.

Yn gyffredinol, roedd ein gweithrediadau masnachol mewn cyflwr da ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Rydym yn aros am ganlyniad arolwg Prydain Ddigidol, a all fod â goblygiadau tymor hwy i BBC Worldwide. Y flaenoriaeth nawr yw gwneud gwelliannau gwirioneddol mewn rhai meysydd sy'n tanberfformio, ond gan barhau i fod yn ddigon hyblyg i allu symud yn gyflym i fanteisio ar gyfleoedd newydd.

### Lledaenu mantais ffi'r drwydded ar draws y DU gyfan

Mae'r BBC ar gyfer y DU gyfan, o Belfast i Truro, Aberdeen i Brighton, Abertawe i Middlesbrough. Rydym oll yn ymrwymedig i feithrin y talentau creadigol a chynhyrchu gorau, o bob cwr o'r wlad. Un ffordd o wneud hyn yw drwy anelu at sicrhau bod 50% o'n cynyrchiadau Teledu Rhwydwaith wedi eu gwneud y

### Rheoli risg mewn dirwasgiad

Rydym yn cydnabod bod sicrwydd incwm ffi'r drwydded yn diogelu'r BBC rhag y gwaethaf o'r dirywiad economaidd; fodd bynnag nid ydym yn hollol ddiogel rhag effaith y dirwasgiad. Yn wahanol i lawer o'n cystadleuwyr, nid ydym yn dibynnu'n uniongyrchol ar refeniw hysbysebu, ond wynebwn heriau tebyg i'r rhan fwyaf o fusnesau'r DU o ganlyniad i'r ansicrwydd economaidd a'r anwadalrwydd dilynol mewn marchnadoedd ariannol. Mae pwysau ar ein refeniw masnachol a refeniw ffi'r drwydded, yn arbennig wrth i ni deimlo effaith llai o dwf o ran aelwydydd. Mae ein busnesau masnachol wedi dioddef gyda llai o weithgarwch manwerthu a hysbysebu a mwy o gystadleuaeth yn ein busnes Stiwdios; wedi dweud hynny, mae BBC Worldwide wedi gwrthsefyll hyn hyd yma, oherwydd natur amrywiol ei fusnes.

Lle mae mwy o ansicrwydd ynghylch ffrydiau incwm yn y dyfodol, mae'n bwysig ein bod yn gallu fforddio'r hyn a wnawn. Rydym wedi rhoi sawl mesur ar waith eleni o ganlyniad i hyn, gan gynnwys dim bonysau gwasanaeth cyhoeddus dewisol ar gyfer 2008/09, ac na fydd cynnydd mewn cyflogau i uwch reolwyr. Rydym hefyd yn edrych yn ofalus ar yr hyn a dalwn am ein talentau, yng ngoleuni'r amgylchedd economaidd ac arolwg yr Ymddiriedolaeth o dalentau yn 2008.

Hefyd, er ein bod yn parhau i fuddsoddi mewn meysydd megis ar-lein, gydag ymrwymiad i ddod o hyd i o leiaf 25% o'n gwariant ar-lein cymhwysol yn allanol, byddwn yn arafu cyfradd ein buddsoddiad newydd eleni. Mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i gyflwyno cynnwys unigryw am y gwerth gorau posibl am arian, tra'n cadw'n wastad â lefel y buddsoddiad yn y farchnad yn gyffredinol.

Mae gennym risg benodol lle yr effeithir ar sefydlogrwydd ariannol cyflenwr allanol, a lle y dibynnwn ar un cyflenwr penodol am wasanaeth darlledu hollbwysig. Mae cynlluniau wrth gefn ar waith gennym i ddelio ag unrhyw ddirywiad pellach yn yr economi neu fethiant ar ran cyflenwr, tra'n cydnabod bod gennym gyfrifoldeb tuag at ein cyflenwyr yn ogystal â chyfrifoldeb tuag at y diwydiant creadigol ehangach.

Gyda'r argyfwng hwn yn gwaethygu yn yr economi ariannol, rydym wedi gorfod cadw llygad barcud hefyd ar ein terfynau benthyca. Rydym yn canolbwyntio hyd yn oed yn fwy trwyadl ar drosi ein harian parod yn y tymor byr, a rheoli ein trefniadau ariannu tymor hwy. Er bod cyfleusterau benthyca'r BBC o £200miliwn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a £350miliwn ar gyfer busnesau masnachol yn ymddangos yn gymharol fach o gymharu â chyfanswm ein hall-lif arian parod blynyddol, rydym yn gallu ailgyflwyno eitemau sylweddol o wariant gan roi rhybudd cymharol fyr. Mae'r cyfleusterau a roddwyd ar waith gennym yn 2007/08 i sicrhau ein bod wedi ein hariannu'n llawn ar gyfer 2012/13 ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus a busnesau masnachol gyda grŵp dethol o wrthbartïon â statws credyd cryf.

Rydym hefyd yn blaengynllunio i nodi risgiau a thueddiadau, ac i gymryd camau i achub y blaen arnynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â'n cynllun pensiwn, y mae'r anwadalrwydd yn y marchnadoedd ecwiti yn anochel wedi effeithio arno. Lle y bo'n bosibl rydym wedi ceisio amrywio'r risg yn y portffolio, tra'n chwilio am ffyrdd newydd o fuddsoddi. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn nes ymlaen yn yr arolwg.

Yn unol ag arfer cyffredin, rydym wedi adolygu gwerth cario ein hasedau gan gynnwys buddsoddiadau ac ewyllys da. Rydym wedi asesu llifau arian parod yn y dyfodol o gynlluniau busnes, gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio briodol a chredwn fod hyn yn ategu gwerthoedd cario ein hasedau. Yn arbennig ar gyfer Lonely Planet gwnaethom ddefnyddio cynlluniau busnes sy'n gyson â'r strategaeth i drawsnewid Lonely Planet o gyhoeddwr llyfrau teithio yn ddarparwr gwybodaeth am deithio amrywiol. Disgwylir i'r strategaeth hon gynhyrchu twf sylweddol yn arbennig i'r busnes digidol yn dilyn ail-lansiad llwyddiannus gwefan Lonely Planet. Mae'r cyfrifiadau gwerth mewn defnydd hyn yn cefnogi gwerth cario'r busnes.

Mae'n debygol y bydd y dirwasgiad hwn yn fwy pellgyrhaeddol nag y byddem wedi ei ragfynegi flwyddyn yn ôl. Credwn ein bod wedi ymateb yn gyflym ac mewn modd penderfynol i'r problemau a wynebwn ac rydym yn hyderus bod gennym yr adnoddau sydd eu hangen i barhau â'n gweithrediadau yn y dyfodol agos.

Siart 4/ **Gwariant ffi'r drwydded yn y gwledydd/rhanbarthau £m**




tu allan i Lundain erbyn 2016. Mae symud i Salford yn ganolog i'r strategaeth hon. Byddwn hefyd yn dyrannu 12% o'n buddsoddiad mewn Teledu Rhwydwaith i'r Gwledydd erbyn 2012, gan godi i 17% erbyn 2016.

Rydym yn adolygu pa dargedau a ddylai fod ar waith ar gyfer ein hallbwn radio yn y flwyddyn i ddod.

Yn 2008, cynyddodd cyfanswm y gwariant y tu allan i Lundain, a fynegir fel canran o'r gwariant cymwys (fel y'i diffinnir gan Ofcom) o 33% i 35%. Mewn termau absoliwt, gostyngodd cyfanswm y gwariant gan gynnwys ar-lein, o £984miliwn yn 2007/08, i £948miliwn eleni, gan adlewyrchu lefel yr arbedion effeithlonrwydd a wnaed eleni ym maes gwariant yn gyffredinol. Rydym yn disgwyl i'r swm hwn gynyddu wrth i gynyrchiadau symud allan o Lundain yn unol â'n strategaeth cyflenwi rhwydwaith hirdymor.

### Sicrhau bod ffi'r drwydded yn cefnogi'r economi greadigol ehangach.

Mae ymchwil wedi dangos y gall yr economi greadigol fod yn gyfrwng sylweddol ar gyfer twf i'r DU gyfan. Yn ôl y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (NESTA), mae diwydiannau fel teledu, ffilm, cerddoriaeth ac adloniant wedi tyfu ddwywaith mor gyflym â'r economi gyfan dros y blynyddoedd diwethaf, ac maent yn ffynhonnell hollbwysig o arloesedd a syniadau newydd. Mae'r sector hefyd yn cyfrannu £60biliwn y flwyddyn i UK plc.

Mae'r BBC – a dylai fod – yn rhan hollbwysig o hyn. Ym mlwyddyn galendr 2008 gwnaethom gomisiynu 37% o'n cynnwys teledu gan gwmnïau cynhyrchu allanol. Cyfanswm ein buddsoddiad yn y diwydiannau creadigol yn ystod y flwyddyn oedd £1.1biliwn, neu 33% o'n hincwm blynyddol o ffi'r drwydded, sy'n cynnwys taliadau i artistiaid a chyfranwyr. Rydym eisoes yn rhagori ar y targedau a bennwyd ar ein cyfer gan Ofcom ar wariant yn y sector annibynnol, ac rydym yn ailddiffinio'r berthynas rhwng y BBC a gweddill cyfryngau'r DU, ac yn symud y pwyslais oddi ar gystadleuaeth tuag at gydweithredu gwell, drwy ddatblygu partneriaethau newydd a chynaliadwy.

Gallwch weld tystiolaeth o hyn eisoes, p'un a yw yn ein memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd ag ITV i rannu seilwaith newyddion rhanbarthol ac adnoddau i gefnogi darpariaeth y tu hwnt i'r BBC, neu ein cynnig i rannu technoleg ac arbenigedd cynhyrchu digidol a allai helpu cynhyrchwyr annibynnol bach i wneud y newid i ddyfodol digidol llawn. Mae'r olaf yn arbennig o bwysig. Fel y noda NESTA, nodweddir economi greadigol y DU gan lawer o gwmnïau bach, nad oes fawr ddim ohonynt byth yn cyrraedd maint sylweddol, ac na allai'r un ohonynt obeithio cystadlu â'r cystadleuwyr byd-eang mawr. Gall gweithio gyda'r BBC wneud gwahaniaeth mawr yma, ac rydym am i'n harbenigedd a'n gwybodaeth fynd llawer pellach. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y dirwasgiad presennol, pan allwn ddarparu rhaglen fuddsoddi fwy sefydlog na llawer o'n cystadleuwyr masnachol.

## HERIAU HEDDIW AC YFORY

### Trwyddedau gwasanaeth

Rydym yn gweithredu o dan ymbarél cyfundrefn reoleiddio gymharol newydd. Yn y flwyddyn ddiwethaf mae BBC ALBA a BBC HD wedi gwario llai na'r hyn a ragwelwyd, oherwydd gwahaniaethau amseru yn erbyn eu cyllidebau gwreiddiol, ac o ganlyniad torrwyd y ddwy drwydded gwasanaeth yn dechnegol. Mae rhai trwyddedau eraill yn gweithredu'n agos at eu trothwyon, ac maent yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r fframwaith rheoli sy'n arolygu pob un o'n trwyddedau gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol, ac rydym wedi gwella ein dull rhybuddio cynnar fel y gallwn gymryd camau gweithredu cyflym os bydd unrhyw rai mewn perygl o fynd y tu hwnt i'w terfynau.

Cymeradwywyd cyllideb trwydded gwasanaeth newydd yn ystod y flwyddyn ar gyfer BBC Online, a thrwyddedwyd y gwasanaeth BBC ALBA newydd am y tro cyntaf. O 2009/10 byddwn yn gwneud newidiadau i delerau'r drwydded gwasanaeth Plant, pan fydd gwariant yn trosglwyddo i CBBC a CBeebies o BBC One a BBC Two. Gwneir y newidiadau i atgyfnerthu rheolaethau dros benderfyniadau golygyddol.

### Newid i ddigidol

Un o'n cyfrifoldebau o dan Siarter y BBC yw helpu i gyflawni'r newid i ddigidol ledled y DU, a sicrhau bod y rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf yn ymwybodol o'r hyn y mae'n ei olygu, ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Neilltuir arian yn ffi'r drwydded i ganiatáu i'r BBC gyflawni'r rhwymedigaethau hyn.

Erbyn diwedd 2008/09, roedd trosglwyddyddion Whitehaven a Selkirk yn rhanbarth ITV Border wedi newid drosodd, gan gyrraedd 73,000 o aelwydydd, ac roedd 25,000 o unigolion yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol. Helpodd y Cynllun Cymorth hanner miliwn arall o bobl yn rhanbarthau Border a West Country ITV hefyd y llynedd, wrth baratoi ar gyfer newid i ddigidol yn 2009. Mae disgwyl i bedwar arall o blith 14 rhanbarth ITV newid i ddigidol eleni hefyd, sef 5.4 miliwn yn fwy o aelwydydd, neu 20% o boblogaeth y DU. Bydd tua dwy filiwn o bobl hŷn ac anabl yn y rhanbarthau hynny yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol.

Mae £603miliwn o setliad presennol ffi'r drwydded wedi cael ei neilltuo i gwmpasu'r Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol ar gyfer y cyfnod hyd at 2012/13, a gwariwyd £24miliwn y llynedd. Hyd yma, dim ond 1% o'r boblogaeth sydd wedi newid yn llwyr i ddigidol; er bod nifer y bobl sydd wedi manteisio ar y cynllun wedi bod yn is na'r disgwyl hyd yma, mae cynnydd gwirioneddol mewn gweithgarwch o nawr hyd at 2011. Ni fyddwn yn gallu asesu'n llawn faint y bydd yn ei gymryd i newid pawb i ddigidol nes y byddwn wedi cyflwyno'r cynllun ar draws ardal drefol, mwy o faint.

Mae Digital UK yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses newid i ddigidol ac mae ganddo gyllideb wedi ei neilltuo o ffi'r drwydded o £201miliwn hyd at 2012/13. Gweinyddir y corff hwn ar y cyd gan y BBC a darlledwyr eraill, ac yn 2008/09 gwariodd £26miliwn.

### Pensiynau

Mae'r BBC yn gweithredu cynllun buddiannau diffiniedig i bob aelod o staff, gyda chymysgedd o gyflog terfynol a buddiannau cyfartaledd gyrfa.

Siart 5/ **Gwariant yn yr economi greadigol £bn**

| | |
|---|---|
| 06/07 | 1.1 |
| 07/08 | 1.1 |
| 08/09 | 1.1 |

Gweinyddir y cynllun gan grŵp o ymddiriedolwyr sy'n rheoli strategaeth fuddsoddi y cynllun pensiwn, gyda chymorth nifer o gynghorwyr annibynnol.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi edrych am ffyrdd o sicrhau fforddiadwyedd hirdymor y cynllun, megis cyflwyno buddiannau cyfartaledd gyrfa a chynyddu cyfraniadau cyflogeion.

Eleni, rydym hefyd wedi cyflwyno cynllun 'aberthu cyflog', sy'n sicrhau arbedion i gyflogeion ac i'r BBC; fel y gwelwch yn Nodyn 8, mae'n newid y ffordd rydym yn rhoi cyfrif am gyfraniadau pensiwn, gan gynyddu cyfran y cyfraniadau cyflogwyr a ddatgelir. Cyfraddau cyfraniadau gwirioneddol y BBC a chyflogeion ar gyfer 2008/09 oedd 19.35% a 6.0% yn y drefn honno, gan wneud cyfanswm cyfradd cyfraniadau o 25.35%. O fis Ebrill 2009, gofynnwyd i gyflogeion gynyddu eu cyfraniadau i 6.75%, a bydd cynnydd pellach i 7.5% o fis Ebrill 2010.

Dengys prisiad FRS 17 ddiffyg yn y cynllun eleni o £139miliwn o gymharu â gwarged y llynedd o £528miliwn. Bu'n flwyddyn anodd i'r rhai sy'n rheoli cynlluniau pensiwn, gan fod ecwitïau, eiddo tiriog, bondiau corfforaethol ac asedau amgen oll wedi lleihau mewn gwerth. Byddwn yn edrych ar berfformiad ein cynllun yn y tymor byr a'r tymor hir, lle mae'r rhagolygon yn parhau yn ansicr wrth i'r marchnadoedd ecwiti ymdrechu i adfer. Mae'r atebolrwydd yng nghyfrifon eleni yn adlewyrchu cynnwrf y farchnad eleni, er ein bod yn gobeithio gweld arwyddion o adferiad yn y tymor canolig. Ceir manylion llawn am ein costau pensiwn a'n rhwymedigaethau yn Nodyn 8 o'r datganiadau ariannol llawn, sydd ar gael ar-lein yn www.bbc.co.uk/annualreport

Gwnaed y prisiad actiwaraidd ffurfiol diwethaf o'r cynllun ym mis Ebrill 2007 a dangosodd hyn warged o £275miliwn. Dangosodd adroddiad actiwaraidd interim ym mis Ebrill 2008 fod y cynllun wedi symud i ddiffyg o £470miliwn, yn bennaf o ganlyniad i dybiaethau is ynghylch lefel yr adenillion buddsoddi yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl i'r prisiad actiwaraidd ffurfiol nesaf gael ei gynnal ym mis Ebrill 2010.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r cynllun buddiannau diffiniedig ac yn adolygu ein dull o ddarparu pensiynau yn gyson i reoli cost a risg yn effeithiol; fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod yn rhaid iddo barhau yn fforddiadwy i ffi'r drwydded yn yr hirdymor.

## POLISÏAU A SAFONAU ARIANNOL ALLWEDDOL

### Polisïau'r trysorlys

Mae adran y trysorlys yn rheoli ac yn monitro pob un o'n risgiau ariannol, gan sicrhau bod gennym ddigon o arian hylifol i gyflawni ein rhwymedigaethau pan ddônt yn ddyledus, a'n bod yn cydymffurfio â'n terfynau benthyca, yn enwedig y rhai a nodir yn ein Siarter a chyfamodau benthyca allanol. Mae hefyd yn rheoli ein hamlygiad i risg o ran cyfraddau cyfnewid tramor a chyfraddau llog. Rheolir pob un o weithgareddau'r adran gan bolisïau a gweithdrefnau a gymeradwyir gan Bwyllgor Cyllid y BBC, a chânt eu goruchwylio o ddydd i ddydd gan Drysorlys y Grŵp, gydag adroddiadau misol i uwch reolwyr. Mae Nodyn 23 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am hyn.

### Polisïau cyfrifyddu hollbwysig

Y meysydd sy'n galw am arddel y doethineb mwyaf yw'r rhai canlynol:

- mae ein prisiad o'r cynllun pensiwn at ddibenion cyfrifyddu FRS17 yn cynnwys tybiaethau o ran disgwyliad oes, adenillion ar fuddsoddiadau yn y dyfodol, chwyddiant a thwf mewn cyflogau, fel y nodir yn Nodyn 8. Ymgynghorwn ag actiwarïaid y cynllun er mwyn sicrhau eu bod yn disgyn o fewn ystod dderbyniol yn seiliedig ar arfer y farchnad, ond byddai tybiaethau gwahanol yn arwain at newid yn lefel y gwarged neu ddiffyg.
- mae darpariaethau yn cynrychioli ein hamcangyfrif gorau o rwymedigaethau yn y dyfodol, a gall gynnwys tybiaethau i gyfrifo costau dileu swyddi, er enghraifft nifer y bobl a'u lefel cydnabyddiaeth.
- rydym yn gweithredu nifer sylweddol o brydlesau eiddo a thechnoleg. Fel y gwelwch o Nodiadau 23 a 24, mae'r penderfyniad i drin contractau o'r fath fel prydlesau cyllid neu weithredu yn cael effaith fawr ar ein mantolen.
- gan ein bod yn gweithredu ar draws nifer o wledydd gwahanol a sawl math o arian cyfred gwahanol, cawn ein hamlygu i amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid. Mae trosi trafodion arian cyfred tramor, y cyfraddau cyfnewid a ddefnyddir a'r driniaeth o weithrediadau tramor oll yn effeithio ar ein datganiadau ariannol.
- asesir nifer o ddangosyddion wrth benderfynu a ddylid lleihau gwerth ased neu ei ddileu. Mae'r rhain yn cynnwys gwerth gostyngol ar y farchnad neu ddirywiad mewn perfformiad economaidd. Mewn llawer o achosion wrth gynnal arolygon lleihad mewn gwerth, mae angen i ni asesu llifau arian parod gweithrediad yn y dyfodol i benderfynu a all ei werth gael ei leihau, sy'n golygu gwneud nifer o dybiaethau ynghylch perfformiad yn y dyfodol.

### Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Byddwn yn mabwysiadu IFRS o'r flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2010. Mae hyn yn unol â phenderfyniad Trysorlys EM i wneud yr un peth o 2009/10 ymlaen. Yn y cyfamser, mae'r cyfrifon yn parhau i gael eu paratoi o dan yr Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (UK GAAP), er y darperir cysoniad i IFRS er gwybodaeth.

Bydd y brif effaith ar baratoi ein cyfrifon o dan IFRS mewn perthynas â phrydlesau, ewyllys da a buddiannau cyflogeion.



**Zarin Patel**
Prif Swyddog Ariannol
18 Mehefin 2009

# UCHAFBWYNTIAU ARIANNOL/


## MAE INCWM Y BBC YN PARHAU I DYFU, WEDI EI HYBU GAN FFI'R DRWYDDED. PENNIR LEFEL FFI'R DRWYDDED GAN Y LLYWODRAETH, OND EFFEITHIR HEFYD AR Y TWF YN INCWM Y BBC GAN DWF AELWYDYDD A GALLU'R BBC I GASGLU INCWM FFI'R DRWYDDED YN EFFEITHIOL.

### INCWM

Mae incwm y BBC yn parhau i dyfu, wedi ei hybu gan ffi'r drwydded. Pennir lefel ffi'r drwydded gan y Llywodraeth, ond effeithir hefyd ar y twf yn incwm y BBC gan dwf aelwydydd a gallu'r BBC i gasglu incwm ffi'r drwydded yn effeithiol.

Er y gall twf mewn incwm masnachol ymddangos yn gymedrol, nid yw'r ffigur pennawd hwn yn adlewyrchu llwyddiant strategaeth fasnachol y BBC yn llawn dros y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig yr ehangiad drwy gysylltiad BBC Worldwide mewn mentrau â phartïon eraill; nid adlewyrchir uchod gyfran y BBC o'r incwm yn y cyd-fentrau hyn. Cynyddodd yr adenillion arian parod o BBC Worldwide 23% i £153miliwn.


Siart 6/ **Incwm £m**




### GWARIANT GWEITHREDU

Gan fod yn rhaid i'r BBC adennill costau dros gyfnod Siarter, mae cyfanswm y gwariant yn dilyn yr un duedd ag incwm yn fras. Mae Nodyn 2 yn rhoi rhagor o fanylion am wariant, yn arbennig ar wasanaethau cyhoeddus y BBC. Fodd bynnag, eleni mae Rhaglen Gwelliant Parhaus y BBC wedi dechrau cyflawni arbedion effeithlonrwydd sy'n cyfrannu at leihad mewn gwariant ar ddarlledu cyhoeddus o'i gymharu â 2007/08; mae gwariant wedi lleihau 3.4%.

Siart 7/ **Gwariant gweithredu £m**




### COST LLOG

Mae'r llog net sy'n daladwy wedi cynyddu o £4.6miliwn i £17.2miliwn gan adlewyrchu newidiadau mewn benthyciadau, yn arbennig yn y Busnesau Masnachol, i ariannu buddsoddiad. Fodd bynnag, nid yw'r Grŵp wedi gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfraddau llog isel ar hyn o bryd, o ganlyniad i'w strategaeth rheoli arian parod i ddefnyddio cyfnewidiadau cyfradd llog, coleri a chapiau i leihau ei amlygiad i gyfraddau llog amrywiol. Mae cydnabod y cyfnewidiadau, y capiau a'r coleri ar werth teg wedi cynyddu'r draul llog sy'n daladwy am y flwyddyn £5.1miliwn, ond wrth i'r cyfnewidiadau hyn aeddfedu cânt eu disodli gan rai sy'n seiliedig ar amodau presennol y farchnad, a ddylai leihau'r gost cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod.

## TRETH

Nid yw gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC fel arfer yn agored i dreth gorfforaeth, ond mae treth yn daladwy ar enillion cyfalaf ac incwm arall. Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn agored i dreth gorfforaeth ar enillion trethadwy am y flwyddyn. O ganlyniad mae'r gyfradd treth wirioneddol, sef 8.6% eleni (2008: 26.7%), yn wahanol i'r gyfradd Treth Gorfforaeth safonol o 28%. Un ffactor pwysig yn natur gyfnewidiol y gyfradd wirioneddol flwyddyn ar ôl blwyddyn yw'r graddau y mae incwm ffi'r drwydded yn rhagori ar y gwariant gwasanaeth cyhoeddus yn y flwyddyn.

## ARIAN CYFRED TRAMOR

Yn ystod unrhyw flwyddyn mae'r BBC yn llunio nifer o drafodion mewn arian cyfred heblaw sterling, y mae'n rhaid eu cofnodi yn natganiadau ariannol y BBC mewn sterling. Os bydd cyfraddau cyfnewid yn newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod rhwng cytuno ar drafodyn a'r taliad arian parod neu'r derbyniadau'n cael eu rhoi gall hyn gael effaith ar ganlyniadau'r BBC.

Fodd bynnag, mae'r BBC yn gyffredinol yn llunio blaengontractau arian cyfred i reoli, neu ragfantoli, y risg arian cyfred hon, sy'n caniatáu iddo setlo trafodion ar gyfraddau cyfnewid hysbys, gan leihau ansicrwydd sy'n ymwneud â llif arian parod. Fodd bynnag, mae effaith gyfrifyddu o hyd.

Yn ystod y flwyddyn mae cyfraddau cyfnewid tramor wedi bod yn fwy anwadal ac wedi dibrisio/arbrisio yn fwy na'r cyffredin. Felly mae'r newidiadau gwerth teg mewn blaengontractau arian cyfred tramor a luniwyd gan y BBC wedi bod yn fwy sylweddol o lawer eleni nag y buont yn y gorffennol, fel y bu enillion a cholledion ar drafodion a setlwyd. Eleni, cydnabu'r BBC ennill net o £10.3miliwn ar drafodion a setlwyd, colled net o £18.4miliwn ar flaengontractau arian cyfred tramor agored a deilliadau sefydlog arian cyfred tramor, ac ennill o £22.9millіwn ar drosi canlyniadau ac asedau is-gwmnïau tramor.

## ASEDAU NET

Ar 31 Mai 2009, asedau net Grŵp y BBC oedd £990.1miliwn (2008: £1,519.2miliwn), sef gostyngiad o £529.1miliwn yn ystod y flwyddyn. Dylanwadir yn sylweddol ar asedau net cyffredinol y BBC gan brisiad cyfrifyddu Cynllun Pensiwn y BBC (trafodir y cynllun pensiwn yn fanylach yn yr Arolwg Ariannol), sydd eleni yn dangos colled net am y flwyddyn o £666.6miliwn. Fel arall mae'r asedau net sylfaenol yn parhau yn gymharol gyson; fodd bynnag, fel y nodwyd uchod bu cynnydd mewn benthyciadau i ariannu gwariant cyfalaf a buddsoddiadau yn y dyfodol, gan gynnwys ein prosiectau trawsffurfiol yn Llundain a Salford, yn ogystal â buddsoddi mewn technoleg cynhyrchu ddigidol i wella ein cynnwys a'n gwasanaethau.

## LLIFAU ARIAN PAROD

Mae'r BBC yn rheoli arian parod a benthyciadau yn ofalus ac yn aros o fewn ei drothwyon benthyca. Mae'r graddau y mae llifau arian parod a dyled net yn symud gyda'i gilydd yn dibynnu ar gylch y Siarter, a chyda nod y BBC o adennill costau dros gyfnod Siarter gall hyn arwain at fewnlifau arian parod sylweddol mewn rhai blynyddoedd wedi eu gwrthbwyso gan all-lifau a ragwelir yn y dyfodol, er enghraifft mewn perthynas â newid i ddigidol. Eleni roedd mewnlif arian parod net o £43.8miliwn.

## ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR Y GORFFORAETH DDARLLEDU BRYDEINIG (BBC)

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y grŵp ac UK Public Service Broadcasting (y 'datganiadau ariannol') y BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009, sy'n cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cyfunol, y Mantolenni Cyfunol a Mantolenni UK Public Service Broadcasting, y Datganiad Llif Arian Parod Cyfunol, y Datganiad Cyfunol o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig, y Cysoni o ran Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn y BBC a'r nodiadau cysylltiedig fel y nodir yn yr adroddiad hwn. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Yn ychwanegol at ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fe'n penodwyd gan yr Ymddiriedolwyr i archwilio'r wybodaeth yn Adroddiadau Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol (gyda'i gilydd 'yr Adroddiadau Cydnabyddiaeth'), a ddisgrifir fel adroddiadau sydd wedi'u harchwilio, a baratowyd fel petai'r BBC yn gwmni rhestredig ac yn cydymffurfio felly â rhan 3 o Atodlen 7A i Ddeddf Cwmnïau 1985.

Dim ond i Ymddiriedolwyr y BBC, fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny'n unol â'r Siarter Frenhinol ar gyfer parhad y BBC a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2007 ('y Siarter') ac yn unol â'r farn ar wahân mewn perthynas â'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth a'r adroddiadau ar Lywodraethu Corfforaethol ar delerau y cytunwyd arnynt. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu Ymddiriedolwyr y BBC am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu yn eu cylch mewn adroddiad archwiliwr ac, yn unol â'r farn ar wahân mewn perthynas â'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth a'r adroddiadau ar Lywodraethu Corfforaethol, y materion hynny yr ydym wedi cytuno i'w hysbysu amdanynt yn ein hadroddiad, ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r BBC ac Ymddiriedolwyr y BBC fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

### Priod gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol a'r Archwilwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiadau Cydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith sy'n gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) fel y nodir yn eu priod ddatganiadau o gyfrifoldebau.

Ein cyfrifoldeb ni, yn unol â thelerau ein penodiad a'r Siarter, yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon).

Byddwn yn rhoi ein barn i chi ar ba un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 1985, fel petai'r Ddeddf honno wedi ei chymhwyso i'r datganiadau ariannol a'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth hyn. Byddwn hefyd yn dweud wrthych os nad yw'r BBC wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, yn ein barn ni, os na chawsom yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad, neu os na ddatgelwyd gwybodaeth a nodir gan y gyfraith o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill yr Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol.

Yn ogystal â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fe'n penodwyd gan yr Ymddiriedolwyr i adolygu'r datganiad ar Lywodraethu Corfforaethol fel petai'n ofynnol i'r BBC gydymffurfio â Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol mewn perthynas â'r materion hyn. Rydym yn adolygu pa un a yw'r datganiad ar Lywodraethu Corfforaethol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth y BBC â'r naw darpariaeth yng Nghod Cyfunol 2006 a nodir ar gyfer ein harolwg gan Reolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, ac adroddwn os nad yw'n gwneud hynny. Nid yw'n ofynnol i ni ystyried a yw'r datganiadau o reolaeth fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau nac i lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y BBC na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Darllenwn y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, ac ystyriwn a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys Rhagair y Cadeirydd ac arolwg perfformiad yr Ymddiriedolwyr yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, Rhagair y Cyfarwyddwr Cyffredinol, arolwg perfformiad a throsolwg ariannol ac uchafbwyntiau'r Bwrdd Gweithredol, y Datganiad ar Lywodraethu Corfforaethol a'r rhannau nas archwiliwyd o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol. Nid yw ein cyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

### Sail y farn archwilio

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth, ar sail prawf, sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a ph'un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Grŵp ac UK Public Service Broadcasting, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chynhaliwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i ni sicrhau'n rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn rhydd o unrhyw gamddatganiad perthnasol, waeth a achoswyd hynny trwy dwyll neu drwy afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio ein barn gwerthuswyd hefyd ddigonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio.

### Barn

Yn ein barn ni:

- rhydd y datganiadau ariannol ddarlun cywir a theg, yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, o sefyllfa'r Grŵp ac UK Public Service Broadcasting ar 31 Mawrth 2009 ac o warged y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â darpariaethau'r Siarter a Deddf Cwmnïau 1985 fel petai'r Ddeddf honno wedi bod yn gymwys i'r datganiadau ariannol hyn
- mae'r rhannau o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth y cawsom ein penodi i'w harchwilio wedi eu paratoi'n briodol yn unol â rhan 3 o Atodlen 7A i Ddeddf Cwmnïau 1985, fel petai'r gofynion hynny yn gymwys i'r BBC

**KPMG LLP**
**Cyfrifwyr Siartredig**
**Archwiliwr Cofrestredig, Llundain**
18 Mehefin 2009

# DATGANIAD CYFUNOL O INCWM A GWARIANT

## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2009

| | Nodyn | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| **Incwm** (yn cynnwys cyfran o gyd-fentrau) | | **4,906.2** | 4,689.4 |
| Llai: cyfran o gyd-fentrau | 13b | **(300.5)** | (274.6) |
| **Incwm y grŵp** | 1a | **4,605.7** | 4,414.8 |
| Gwariant gweithredu ac eithrio costau eithriadol | | **(4,461.8)** | (4,359.3) |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | 4c | **(29.9)** | (117.7) |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | 2a | **(4,491.7)** | (4,477.0) |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu y grŵp** | | **114.0** | (62.2) |
| Cyfran o warged weithredu partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau cyn eitemau eithriadol | 13b | **56.8** | 60.3 |
| Cyfran o eitemau eithriadol gweithredu cyd-fentrau | 13b | **(7.5)** | – |
| Cyfran o warged weithredu partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | 13b | **49.3** | 60.3 |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu: grŵp a chyfran o bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau** | 3a | **163.3** | (1.9) |
| Colled o werthu a therfynu gweithrediadau | 5 | **(1.1)** | (4.8) |
| Elw o waredu asedau sefydlog | 6 | **15.9** | 2.0 |
| **Gwarged/(diffyg) cyn llog a threthiant** | | **178.1** | (4.7) |
| Llog derbyniadwy ac eitemau tebyg | 7a | **9.1** | 13.7 |
| Llog sy'n daladwy ac eitemau tebyg | 7b | **(26.3)** | (18.3) |
| Incwm cyllid net arall (o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig) | 8bii | **117.3** | 148.8 |
| **Gwarged cyn trethiant a buddiant lleiafrifol** | 1a | **278.2** | 139.5 |
| Trethiant | 9a | **(24.0)** | (37.3) |
| **Gwarged ar ôl trethiant a chyn buddiant lleiafrifol** | | **254.2** | 102.2 |
| Buddiant lleiafrifol | | **(0.5)** | (0.5) |
| Gwarged am y flwyddyn ariannol | 18 | **253.7** | 101.7 |

Mae pob canlyniad yn deillio o weithrediadau parhaus.

Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y canlyniadau fel y'u datgelwyd uchod a'r canlyniadau ar sail cost hanesyddol.

Y warged/(diffyg) am y flwyddyn ariannol yw'r swm a geir drwy ddidynnu pob eitem o wariant a gydnabyddir yn y flwyddyn o'r holl incwm sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn. Ar gyfer grŵp y BBC, fel endid budd cyhoeddus, mae unrhyw warged sy'n codi yn cynrychioli gwahaniaeth amseru sy'n ymwneud â gwariant yn y gorffennol neu yn y dyfodol yn hytrach nag 'elw' y gellir ei ddychwelyd at gyllidwyr endid.

# MANTOLENNI

## AR 31 MAWRTH 2009

| | Nodyn | Grŵp 2009 £m | Grŵp 2008 £m | UK Public Service Broadcasting 2009 £m | UK Public Service Broadcasting 2008 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau anniriaethol | 10 | **95.7** | 87.3 | **–** | – |
| Asedau diriaethol | 11 | **728.0** | 747.9 | **510.1** | 523.4 |
| Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | 12 | **99.7** | 85.1 | **–** | – |
| Buddiannau mewn buddsoddiadau masnach | 13a | **–** | 2.7 | **–** | – |
| Buddsoddi mewn is-gwmnïau | 13dd | **–** | – | **296.4** | 296.0 |
| Buddiannau mewn cyd-fentrau | | | | | |
| – cyfran o asedau gros ac ewyllys da | | **187.0** | 217.4 | **–** | – |
| – cyfran o rwymedigaethau gros | | **(118.2)** | (151.8) | **–** | – |
| | 13b | **68.8** | 65.6 | **–** | – |
| Buddiannau mewn partneriaethau cyswllt | 13b | **11.2** | 3.8 | **–** | – |
| | | **1,003.4** | 992.4 | **806.5** | 819.4 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stociau | 14 | **491.0** | 500.1 | **450.5** | 470.2 |
| Dyledwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 15 | **122.2** | 50.1 | **77.4** | 21.1 |
| Dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 15 | **831.3** | 794.9 | **681.2** | 655.3 |
| **Cyfanswm y dyledwyr** | | **953.5** | 845.0 | **758.6** | 676.4 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 21b | **124.3** | 78.0 | **32.5** | 6.7 |
| | | **1,568.8** | 1,423.1 | **1,241.6** | 1,153.3 |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | 16b | **(952.4)** | (1,064.7) | **(661.8)** | (761.6) |
| **Asedau cyfredol net** | | **616.4** | 358.4 | **579.8** | 391.7 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **1,619.8** | 1,350.8 | **1,386.3** | 1,211.1 |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | 16c | **(314.6)** | (172.6) | **(16.6)** | (21.9) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau** | 17 | **(171.8)** | (182.3) | **(121.5)** | (160.0) |
| **Asedau net ac eithrio (rhwymedigaeth)/ased pensiwn** | | **1,133.4** | 995.9 | **1,248.2** | 1,029.2 |
| Ased pensiwn | 8bi | **–** | 528.4 | **–** | – |
| Rhwymedigaeth pensiwn | 8bi | **(143.3)** | (5.1) | **–** | – |
| **Asedau net** | | **990.1** | 1,519.2 | **1,248.2** | 1,029.2 |
| **Cynrychiolir gan** | | | | | |
| Cronfa weithredu wrth gefn ac eithrio cronfa bensiwn wrth gefn | 18 | **356.5** | 206.3 | **444.9** | 215.3 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | 18 | **(143.3)** | 523.3 | **–** | – |
| Cyfanswm y gronfa weithredu wrth gefn | 18 | **213.2** | 729.6 | **444.9** | 215.3 |
| Cronfa gyfalaf wrth gefn | 18 | **802.5** | 812.3 | **802.5** | 812.3 |
| Cronfa wrth gefn arall | 18 | **(32.3)** | (31.0) | **–** | – |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | 18 | **0.8** | 1.6 | **0.8** | 1.6 |
| Cronfeydd wrth gefn y BBC | | **984.2** | 1,512.5 | **1,248.2** | 1,029.2 |
| Buddiant lleiafrifol | | **5.9** | 6.7 | **–** | – |
| | | **990.1** | 1,519.2 | **1,248.2** | 1,029.2 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd Gweithredol ar 18 Mehefin 2009 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

**Mark Thompson** Cyfarwyddwr Cyffredinol

**Zarin Patel**, Prif Swyddog Ariannol

# DATGANIAD CYFUNOL O GYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG

## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2009

| | Nodyn | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Gwarged y grŵp am y flwyddyn ariannol | | **253.7** | 101.7 |
| Gwahaniaethau cyfnewid wrth drosi buddsoddiad net mewn is-gwmnïau | 18 | **22.9** | (1.0) |
| Cydnabod cyfran o rwymedigaethau cyd-fentrau | 18 | **(19.4)** | – |
| (Colled)/elw actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig | 8b iii | **(784.2)** | 52.3 |
| **Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig sy'n berthnasol i'r flwyddyn** | | **(527.0)** | 153.0 |

# CYSONI SYMUDIADAU YNG NGHRONFEYDD WRTH GEFN Y BBC

## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2009

| | Nodyn | **Grŵp 2009 £m** | Grŵp 2008 £m | **UK Public Service Broadcasting 2009 £m** | UK Public Service Broadcasting 2008 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn ariannol | | **253.7** | 101.7 | **219.0** | (34.4) |
| Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn (net) | | **(780.7)** | 51.3 | **–** | – |
| Cronfa wrth gefn arall | | **–** | (28.8) | **–** | – |
| Addasiad ar gyfer caffael UK.TV | 19a | **(1.3)** | – | **–** | – |
| (Gostyngiad/(cynnydd) mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn | | **(528.3)** | 124.2 | **219.0** | (34.4) |
| Cronfeydd wrth gefn agoriadol y BBC | | **1,512.5** | 1,388.3 | **1,029.2** | 1,063.6 |
| **Cronfeydd wrth gefn terfynol y BBC** | | **984.2** | 1,512.5 | **1,248.2** | 1,029.2 |

# DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL

## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2009

| | Nodyn | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | 20 | **215.2** | 158.7 |
| **Difidendau a dderbyniwyd o gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt** | 13a | **37.0** | 45.7 |
| **Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | **7.7** | 11.3 |
| Llog a dalwyd | | **(15.3)** | (12.3) |
| Llog a dalwyd ar brydlesau cyllid | | **(0.4)** | (0.7) |
| Difidendau a dalwyd i fuddiannau lleiafrifol | | **(0.8)** | – |
| **All-lif arian parod net o adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | **(8.8)** | (1.7) |
| **Trethiant** | | | |
| Trethiant a dalwyd | | **(23.1)** | (23.5) |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | | **(147.5)** | (158.0) |
| Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | 12 | **(100.8)** | (88.2) |
| Hawlio benthyciad i gyd-fenter | | **(0.4)** | (0.7) |
| Enillion o werthu asedau sefydlog diriaethol | | **20.5** | 15.1 |
| **All-lif arian parod net o wariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** | | **(228.2)** | (231.8) |
| **Caffaeliadau a gwarediadau** | | | |
| Prynu is-gwmni | 19 | **(15.1)** | (90.3) |
| Arian parod a gaffaelwyd gydag is-gwmni | 19 | **1.9** | 5.9 |
| Prynu buddiannau mewn cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt | | **(15.8)** | (6.3) |
| Talwyd wrth derfynu gweithrediadau | | **(0.9)** | (16.4) |
| Enillion o werthu gweithrediadau | | **15.1** | – |
| **All-lif arian parod net o gaffaeliadau a gwarediadau** | | **(14.8)** | (107.1) |
| **All-lif arian parod net cyn defnyddio adnoddau hylifol ac ariannu** | 21a | **(22.7)** | (159.7) |
| **Rheoli adnoddau hylifol** | | | |
| Gwerthu adnoddau hylifol | | **526.3** | 28.7 |
| Prynu adnoddau hylifol | | **(526.3)** | (28.7) |
| **Mewnlif arian parod net o reoli adnoddau hylifol** | | **–** | – |
| **Ariannu** | | | |
| Cynnydd mewn benthyciadau | | **218.0** | 178.9 |
| Ad-dalu benthyciadau | | **(144.4)** | (72.1) |
| Elfen gyfalaf o daliadau prydles gyllid | | **(9.7)** | (9.7) |
| Cynnydd mewn nodiadau benthyca | | **2.6** | – |
| Ad-dalu nodiadau benthyca | | **–** | (4.1) |
| **Mewnlif arian parod net o ariannu** | | **66.5** | 93.0 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y flwyddyn** | 21 | **43.8** | (66.7) |

# DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

**Mae'r adran hon yn esbonio prif bolisïau cyfrifyddu'r BBC, a gymhwyswyd yn gyson yn ystod y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn flaenorol ac eithrio lle y nodir fel arall.**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â darpariaethau Siarter y BBC, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi yn unol â'r Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (UK GAAP).

Er nad yw'n orfodol, dewisodd y BBC, hyd at 2005, ddilyn darpariaethau cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol er mwyn sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail sy'n gyson â rhai cwmnïau yn y DU a ddyfynnir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE. Yn dilyn newidiadau yn y gyfraith cwmnïau, pe bai'r BBC wedi parhau i gyflwyno adroddiadau yn y modd hwn, byddai wedi paratoi ei ddatganiadau ariannol cyfunol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd gan yr UE o 1 Ebrill 2005. Fodd bynnag, byddai cyflwyno adroddiadau o dan IFRS yn anghyson â Siarter ac adroddiadau'r Llywodraeth. Yn lle hynny, mae'r datganiadau ariannol yn parhau i gael eu paratoi yn llawn yn unol ag UK GAAP ac elfennau cymwys y Rheolau Rhestru.

## SAIL Y CYFRIFYDDU

Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cyfrifyddu cost hanesyddol, fel y'i diwygiwyd drwy ailbrisio offer, peiriannau, dodrefn a ffitiadau, offerynnau ariannol a deilliadau penodol a'r buddsoddiad yn BBC World Service a BBC Monitoring.

## SAIL Y CYFUNO

Caffaelodd y grŵp is-gwmni yn ystod y flwyddyn sef UK TV Pty Limited (roedd gan y grŵp fuddiant o 20% yn flaenorol), y mabwysiadwyd y dull caffael o gyfrifyddu ar ei gyfer – gweler Nodyn 19. O dan y dull hwn, cynhwysir canlyniadau'r is-gwmnïau a gaffaelwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn yn y datganiad cyfunol o incwm a gwariant o'r dyddiad caffael neu hyd at y dyddiad gwaredu.

Mae cyfrifon y grŵp yn cynnwys canlyniadau'r holl fusnesau a reolir gan y BBC (is-gwmnïau) ynghyd â chyfran y BBC o ganlyniadau busnesau y mae gan y BBC ddylanwad ond nid rheolaeth drostynt (partneriaethau cyswllt) a'r rhai y mae'r BBC yn eu cyd-reoli (cyd-fentrau). Gweler nodyn 29 am ragor o wybodaeth.

Mae **partneriaeth gyswllt** yn ymgymeriad y mae gan y grŵp fuddiant hirdymor ynddo, fel arfer rhwng 20% a 50% o'r hawliau pleidleisio ecwiti, ac y mae'n arfer cryn ddylanwad drosto. Mae **cyd-fenter** yn ymgymeriad y mae gan y grŵp fuddiant hirdymor ynddo ac y mae'n arfer cyd-reolaeth drosto.

## CYFRIF INCWM A GWARIANT UK PUBLIC SERVICE BROADCASTING

Ni chyflwynwyd datganiad o incwm a gwariant ar wahân yn adlewyrchu canlyniadau UK Public Service Broadcasting, sy'n gyson â'r opsiwn sydd ar gael i gwmnïau o dan Adran 230 o Ddeddf Cwmnïau 1985.

## ADRODD AR DRWYDDEDAU GWASANAETH

Defnyddir trwyddedau gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth y BBC er mwyn rheoleiddio gwasanaethau'r BBC a sicrhau bod pob gwasanaeth yn anelu at ddarparu gwerth cyhoeddus a chyfrannu at gyflawni pwrpasau cyhoeddus y BBC. Mae nodyn 28 yn rhoi mwy o fanylion am sut y dyrennir costau i wasanaethau unigol.

## BUDDSODDIADAU YN YMGYMERIADAU'R GRŴP

Cyllidir UK Public Service Broadcasting, BBC World Service a BBC Monitoring yn gyfreithiol ar wahân ac ni chaniateir croes-gymorthdaliadau. Yn unol â hynny, at ddibenion paratoi mantolen UK Public Service Broadcasting, rhaid i'r asedau a'r rhwymedigaethau unigol y gellir eu priodoli i BBC World Service a BBC Monitoring gael eu heithrio, ac ystyrir bod gan UK Public Service Broadcasting fuddsoddiadau yn BBC World Service a BBC Monitoring sy'n gyfwerth ag asedau net yr endidau hyn.

## BUDDSODDIADAU ERAILL

Caiff buddsoddiadau eraill, nad ydynt yn fenthyciadau nac o reidrwydd wedi eu dal nes eu bod yn aeddfedu, eu cofnodi ar y fantolen ar gost llai darpariaeth ar gyfer unrhyw leihad mewn gwerth.

# DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU
PARHAD

## INCWM

Mae incwm, sy'n eithrio treth ar werth, gostyngiadau masnachol a gwerthiannau rhwng cwmnïau'r grŵp, yn cynnwys y dosbarthiadau allweddol canlynol o refeniw, a gydnabyddir fel a ganlyn:

- Trwyddedau teledu
  Daw prif incwm y BBC o drwyddedau teledu. Cydnabyddir incwm ffi'r drwydded yn llawn pan roddir trwydded, yn amodol ar ddidyniadau ar gyfer ad-daliadau a diddymiadau gwirioneddol a disgwyliedig.
- Grantiau gan adrannau'r Llywodraeth
  Cydnabyddir grantiau pan gânt eu derbyn gan yr adran berthnasol o'r Llywodraeth. Mae'r BBC World Service yn cael Cymorth Grant gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad ac mae BBC Monitoring yn cael grant gan Swyddfa'r Cabinet. Bwriedir i'r grantiau hyn dalu'r gwariant amcangyfrifedig yn ystod y flwyddyn ond nid yw derbyniadau am y flwyddyn nas gwariwyd, o fewn terfynau a nodwyd ymlaen llaw, yn agored i gael eu hildio.
- Darparu offer, cyfleusterau a gwasanaethau (gan gynnwys cyfleusterau a gwasanaethau gwneud rhaglenni)
  Ac eithrio contractau hirdymor, cydnabyddir incwm pan ddarperir yr offer, y cyfleusterau a'r gwasanaethau i gwsmeriaid.

  Ar gyfer contractau hirdymor, cydnabyddir swm yr elw a briodolir i'r cam cwblhau pan ellir rhagweld canlyniad y contract gyda chryn sicrwydd. Nodir incwm ar gyfer contractau o'r fath ar y gost sy'n briodol i'w cam cwblhau ynghyd ag elw priodoladwy, llai symiau a gydnabyddir mewn blynyddoedd blaenorol. Gwneir darpariaeth ar gyfer unrhyw golledion yn y dyfodol cyn gynted ag y'u rhagwelir.
- Incwm dosbarthu a hysbysebu, ffioedd trwydded o werthu rhaglenni teledu rhyngwladol a gwerthu nwyddau hysbysebol ac incwm o gyhoeddi
  Cydnabyddir yr incwm hwn wrth ddarparu gwasanaethau, dechrau cyfnod y drwydded neu ddarparu'r nwyddau yn y drefn honno. Lle nad yw hawliau rhaglenni wedi eu cyflwyno erbyn dechrau cyfnod y drwydded, cydnabyddir refeniw wrth gyflwyno'r hawliau.

  Caiff gwerthiannau nwyddau eu datgan ar ôl didynnu gwerth gwerthiannau nwyddau a gaiff eu dychwelyd a nwyddau yr amcangyfrifir y cânt eu dychwelyd.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y ffynonellau incwm amrywiol yn bwysig. Mae'r BBC yn ofalus i beidio â rhoi croes-gymorthdaliadau i weithgareddau masnachol, gweithgareddau UK Public Service Broadcasting na gweithgareddau Cymorth Grant na rhai wedi eu hariannu gan grantiau. Ceir rhagor o wybodaeth am ofynion a pholisïau masnachu teg y BBC yn yr adran Cyfrifoldeb yn Rhan Dau o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2008/09 y BBC.

## TROSI ARIAN CYFRED TRAMOR

Trosir trafodion mewn arian cyfred tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion.

Trosir asedau a rhwymedigaethau ariannol mewn arian cyfred tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar 31 Mawrth. Cynhwysir gwargedion a diffygion sy'n codi o drosi asedau a rhwymedigaethau ar y cyfraddau cyfnewid hyn, ynghyd â gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi yn sgîl masnachu, yn y datganiad o incwm a gwariant.

Trosir cyfrifon elw a cholled a llifau arian parod is-gwmnïau tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfartalog ar gyfer pob mis, sy'n frasamcan da ar gyfer y gyfradd wirioneddol. Cymerir gwahaniaethau cyfnewid, sy'n codi wrth gyfuno pan gaiff asedau net agoriadol is-gwmnïau tramor (yn cynnwys yr ewyllys da sy'n codi wrth gyfuno) ac unrhyw fenthyciadau arian cyfred tramor hirdymor cysylltiedig eu haildrosi, ynghyd â'r gwahaniaethau sy'n codi o aildrosi'r cyfrifon elw a cholled ar y cyfraddau sydd mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn, i'r gronfa weithredu wrth gefn drwy'r datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig.

Gan fod y datganiadau ariannol hyn yn cael eu paratoi mewn sterling, mae'n rhaid trosi trafodion a balansau arian cyfred tramor y BBC, ar gyfraddau cyfnewid priodol, yn sterling.

# DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU
PARHAD

## COSTAU PENSIWN

Mae'r BBC yn gweithredu cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig a chyfraniadau diffiniedig er budd y cyflogeion.

Mae'r symiau a godir fel gwariant ar gyfer y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy gan y BBC ar gyfer y cyfnodau cyfrifyddu mewn perthynas â'r cynlluniau hyn.

Mae'r cynlluniau buddiannau diffiniedig, y mae'r rhan fwyaf o staff yn aelodau ohonynt, yn darparu buddiannau yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol, neu gyflog pensiynadwy cyfartaledd gyrfa. Mae asedau prif gynllun pensiwn y BBC wedi'u dal ar wahân i asedau'r grŵp.

Mesurir asedau'r cynllun pensiwn gan ddefnyddio gwerthoedd cynnig cyfredol y farchnad. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn gan ddefnyddio dull credyd unedau rhagamcanol a chânt eu disgowntio ar y gyfradd adennill gyfredol ar fond corfforaeth ansawdd uchel y mae ei gyfnod a'i arian cyfred yn cyfateb i'r rhwymedigaeth.

Y gwahaniaeth rhwng gwerth asedau'r cynllun pensiwn a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn yw gwarged neu ddiffyg. Cydnabyddir gwarged cynllun pensiwn i'r graddau y mae'n adenilladwy a chydnabyddir diffyg cynllun pensiwn yn llawn. Rhennir y symudiad yng ngwarged/diffyg y cynllun rhwng taliadau gweithredu, eitemau cyllid ac, yn y datganiad o gyfanswm yr enillon a'r colledion cydnabyddedig, enillion a cholledion actiwaraidd. Yn gyffredinol, codir symiau ar y gwariant gweithredu ar sail cost gyfredol gwasanaeth y cyflogeion presennol sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y BBC.

Mae cynllun pensiwn y BBC yn gynllun a weithredir ar draws y grŵp ac ni all UK Public Service Broadcasting r ymgymeriadau bennu eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail resymol a chyson. Felly, fel sy'n ofynnol gan FRS 17, 'Retirement Benefits', mae UK Public Service Broadcasting yn rhoi cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. O ganlyniad, mae'r gwariant a godir ar gyfer UK Public Service Broadcasting yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy yn y flwyddyn.

Pan fyddant yn ymddeol, telir pensiwn i aelodau prif gynllun pensiwn y BBC o gronfa a gedwir ar wahân i'r grŵp. Gwna'r BBC gyfraniadau arian parod i'r gronfa honno cyn ymddeoliad aelodau.

## YMCHWIL A DATBLYGIAD

Cyfalefir costau'r wefan a'r feddalwedd fel asedau sefydlog diriaethol i'r graddau bod disgwyl i'r wefan neu'r feddalwedd gynhyrchu refeniw sydd o leiaf gymaint â chostau'r datblygiad. Dilëir yr holl wariant ymchwil a datblygiad arall wrth iddo gael ei wario.

## ASEDAU SEFYDLOG ANNIRIAETHOL
### Ewyllys da

Caiff ewyllys da a brynir sy'n codi wrth gaffael is-gwmni neu fusnes (gan gynrychioli gormodedd gwerth teg y gydnabyddiaeth bwrcasu ynghyd ag unrhyw gostau caffael cysylltiedig dros y gwerth teg sy'n briodoladwy i'r asedau net gwahanadwy a gaffaelwyd) ei gyfalafu a'i amorteiddio ar sail llinell syth dros ei fywyd economaidd defnyddiol (20 mlynedd fel arfer), yn amodol ar adolygiadau ar gyfer lleihad mewn gwerth. Wrth waredu neu derfynu busnes yn dilyn hynny, cyfrifir y warged neu'r diffyg ar ôl codi swm heb ei amorteiddio unrhyw ewyllys da cysylltiedig. Fel y caniateir gan FRS 10 'Goodwill and Intangible Assets', mae ewyllys da sy'n codi mewn cyfnodau hyd at 1 Ebrill 1998 yn parhau wedi ei wrthbwyso yn erbyn y gronfa weithredu wrth gefn. Wrth ei waredu, caiff ewyllys da a ddilëwyd yn flaenorol yn erbyn cronfeydd wrth gefn ei drosglwyddo i'r datganiad o incwm a gwariant am y flwyddyn.

Mae **ewyllys da** yn codi pan fo'r BBC yn talu mwy am fusnes na swm asedau net y busnes a gaffaelir, gan gynrychioli'r ffaith bod y grŵp yn gosod mwy o werth ar endid y busnes yn ei gyfanrwydd (fel arfer oherwydd synergeddau disgwyliedig neu enillion posibl y busnes hwnnw). Caiff y premiwm hwn ei drin fel ased ynddo'i hun ac fe'i delir ar fantolen y grŵp gyda bywyd economaidd o hyd at 20 mlynedd. Fel gydag unrhyw ased arall, cyfrifir elw neu golled wrth werthu neu waredu (yn yr achos hwn, gwerthu/gwaredu'r busnes) ar ôl dileu'r swm a ddelir o hyd ar fantolen y grŵp.

# DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU
PARHAD

## ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

Caiff gwariant ar asedau sefydlog diriaethol ei gyfalafu ynghyd â chostau llafur uniongyrchol mewnol cynyddrannol yr eir iddynt ar brosiectau cyfalaf. Ar wahân i'r eithriad canlynol, datgenir asedau sefydlog diriaethol ar y fantolen ar gost llai dibrisiant cronedig ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth.

Ailbrisiodd BBC World Service a BBC Monitoring eu hoffer a'u peiriannau a'u dodrefn a'u ffitiadau ar 1 Ebrill 1996 ar sail eu cost adnewyddu gyfredol amcangyfrifedig ar y pryd. Yn unol â rheolau trosiannol FRS 15 'Tangible Fixed Assets', er na fabwysiadodd y BBC bolisi cyffredinol o ailbrisio, cadwyd gwerthoedd llyfr yr asedau hyn (yn seiliedig ar eu symiau wedi eu hailbrisio). Nid yw'r ailbrisiad wedi ei ddiweddaru ers hynny, er bod dibrisiant priodol yn parhau i gael ei godi. Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng gwerth llyfr net yr asedau sefydlog diriaethol hyn a'u gwerth fel y'i pennwyd ar sail cost hanesyddol ac o ganlyniad ni chyflwynir datganiad o wargedion na diffygion cost hanesyddol.

Yn unol â'r safonau cyfrifyddu sy'n gymwys ar y pryd, ailbrisiodd rhannau o'r BBC rai dosbarthiadau o asedau unwaith (yn 1996), ond dewisodd beidio â'u hailbrisio'n barhaus. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y'u defnyddir o fewn y BBC yn hytrach na chael eu cadw ar gyfer eu hailwerthu neu oherwydd y potensial i'w buddsoddi. Felly cynhwysir y rhan fwyaf o asedau ar y swm yr oeddynt wedi'i gostio pan gawsant eu prynu neu eu hadeiladu (yn y naill achos neu'r llall llai dibrisiant dilynol).

Cyfrifir dibrisiant er mwyn dileu cost neu brisiad, llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig, asedau sefydlog ar sail llinell syth drwy gydol eu bywydau defnyddiol disgwyliedig. Mae dibrisiant yn cychwyn o'r dyddiad y dygir ased i wasanaeth. Y bywydau defnyddiol ar gyfer y prif gategorïau o asedau yw:

- Tir ac adeiladau
  Tir rhydd-ddaliad – dim dibrisiant
  Adeiladau rhydd-ddaliad ac adeiladau ar brydles hir – 50 mlynedd
  Tir ac adeiladau ar brydles fer – tymor prydles annarfodedig
- Offer a pheiriannau
  Offer cyfrifiadurol – 3 i 5 mlynedd
  Seilwaith trydanol a mecanyddol – 10 i 25 mlynedd
  Arall – 3 i 10 mlynedd
- Dodrefn a ffitiadau – 3 i 10 mlynedd

## BUDDSODDI MEWN RHAGLENNI I'W GWERTHU YN Y DYFODOL

Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn gwneud buddsoddiadau mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol yn cynnwys rhaglenni a gynhyrchwyd yn fewnol yn y BBC. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cynrychioli'r hawl i incwm yn y dyfodol o werthu, trwyddedu neu ddefnyddio'r rhaglenni hynny mewn ffordd arall, ac fe'u datgenir ar gost, ar ôl dileu costau rhaglenni a ystyrir yn anadenilladwy, llai amorteiddio cronedig. Codir tâl am amorteiddio buddsoddiadau mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol ar y datganiad o incwm a gwariant dros fywyd marchnadwy cyfartalog amcangyfrifedig genre y rhaglen sydd fel arfer rhwng dwy a deng mlynedd. Caiff cost ac amorteiddiad cronedig buddsoddiadau mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol eu lleihau gan raglenni sy'n cael eu dileu'n llwyr.

Codir tâl am gost y rhaglenni sydd ar werth ar y datganiad o incwm a gwariant i gyfateb i amseriad disgwyliedig incwm yn sgîl gwerthiannau yn y dyfodol.

## LLEIHAD MEWN GWERTH ASEDAU SEFYDLOG

Mae'r grŵp yn adolygu symiau cario ei asedau sefydlog pan ddangosir bod yr asedau hynny o bosibl wedi dioddef colled o ran lleihad mewn gwerth.

Os amcangyfrifir bod swm adenilladwy ased (neu uned cynhyrchu arian parod) yn llai na'i swm cario, cydnabyddir y golled ddilynol o ran lleihad mewn gwerth yn y datganiad o incwm a gwariant ar unwaith.

Mae **lleihad mewn gwerth** yn digwydd pan fyddai ased yn cael ei gofnodi fel arall yn y datganiadau ariannol fel swm sy'n fwy na'r swm sy'n adenilladwy o'i ddefnyddio neu ei werthu.

# DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU
PARHAD

## STOCIAU

### Stociau o raglenni a gynhyrchwyd yn fewnol a gwaith sy'n mynd rhagddo

Datgenir stociau o raglenni a gynhyrchwyd yn fewnol a gwaith sy'n mynd rhagddo, gan gynnwys rhaglenni a gomisiynwyd gan gynhyrchwyr annibynnol, ar yr isaf o gost a gwerth gwireddadwy net. Ac eithrio costau ailddarllediadau rhagdaledig rhaglenni annibynnol, caiff y gwerth stoc llawn ei ddileu ar y darllediad cyntaf.

Mae'r gost yn cynnwys yr holl gostau uniongyrchol, gorbenion cynhyrchu a chyfran o orbenion priodoladwy eraill.

Codir costau datblygu rhaglenni ar y datganiad o incwm a gwariant hyd nes y ceir arwydd clir y byddant yn arwain at gomisiynu rhaglen, pan gaiff unrhyw gostau pellach eu cyfalafu fel gwaith sy'n mynd rhagddo.

Mae'r gwerth gwireddadwy net yn seiliedig ar brisiau contract hyd braich a negodwyd rhwng rheolwyr y sianel a'r gwneuthurwyr rhaglenni, yn allanol ac yn fewnol.

### Stociau o raglenni a ffilmiau a gaffaelwyd

Rhaglenni a gaffaelwyd yw'r rhai nas comisiynwyd yn wreiddiol gan y BBC, sef mewnforion tramor fel arfer. Dilëir costau stociau o raglenni a ffilmiau a gaffaelwyd ar eu darllediad cyntaf ac eithrio i'r graddau bod darllediadau ychwanegol wedi eu trefnu, ac os felly cânt eu dileu yn unol â'u proffil darlledu disgwyliedig. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â rhaglenni a gaffaelwyd ar yr adeg talu neu ar gychwyn cyfnod y drwydded, p'un bynnag sydd gyntaf. Datgelir cytundebau ar gyfer prynu rhaglenni yn y dyfodol nad yw eu cyfnod trwydded wedi cychwyn a lle na wnaed unrhyw daliad erbyn dyddiad y fantolen fel ymrwymiadau prynu.

### Stociau eraill

Nodir deunyddiau crai a stociau ffisegol eraill ar yr isaf o'r gost a'r gwerth gwireddadwy net.

## DARPARIAETHAU

Cydnabyddir darpariaeth ar y fantolen pan fo gan y grŵp rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol gyfredol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddiannau economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth. Caiff darpariaethau, heblaw treth ohiriedig, sy'n daladwy dros nifer o flynyddoedd eu disgowntio i'r gwerth presennol net ar ddyddiad y fantolen gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio sy'n briodol i'r ddarpariaeth benodol dan sylw.

## TRETHIANT

Mae'r dreth a godir yn cynrychioli swm y dreth gyfredol sy'n daladwy a threth ohiriedig.

O ran y dreth gyfredol sy'n daladwy:

- Nid yw'r BBC (UK Public Service Broadcasting, BBC World Service a BBC Monitoring) yn agored i dreth gorfforaeth ar unrhyw incwm ffi'r drwydded sydd dros ben na grantiau a dderbynnir gan adrannau'r Llywodraeth. Fodd bynnag, mae'n agored i dreth gorfforaeth ar enillion cyfalaf ac ar ei holl incwm arall. Nid yw gwariant ar asedau cyfalaf yn gymwys ar gyfer lwfansau cyfalaf.
- Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn agored i dreth gorfforaeth yn seiliedig ar elw trethadwy am y flwyddyn.

Mae elw trethadwy yn wahanol i elw net fel y'i cofnodir yn y datganiad o incwm a gwariant am ei fod yn eithrio eitemau o incwm a gwariant sy'n drethadwy neu'n ddidynadwy mewn blynyddoedd eraill ac eitemau nad ydynt byth yn drethadwy nac yn ddidynadwy. Caiff rhwymedigaeth y grŵp am dreth gyfredol ei chyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau treth sydd wedi'u deddfu neu wedi'u deddfu'n sylweddol erbyn dyddiad y fantolen.

Cyfrifir treth ohiriedig o dan y dull rhwymedigaeth. Gwneir darpariaeth lawn, heb ddisgowntio, mewn perthynas â gwahaniaethau amseru rhwng eitemau penodol yn y datganiadau ariannol a'r modd y cânt eu trin at ddibenion trethiant ar ddyddiad y fantolen ac eithrio fel sy'n ofynnol fel arall gan FRS 19 'Deferred tax'. Cydnabyddir asedau treth ohiriedig i'r graddau yr ystyrir eu bod yn fwy tebygol o gael eu hadennill na pheidio.

**Treth ohiriedig** yw treth gorfforaeth nad yw'n daladwy ar adeg benodol ond y disgwylir iddi fod yn daladwy yn y dyfodol.

# DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU
PARHAD

## PRYDLESAU
### Prydlesau gweithredu
Cydnabyddir rhenti prydlesau gweithredu sy'n daladwy ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

### Prydlesau cyllid
Cynhwysir asedau a gaffaelwyd o dan brydlesau cyllid o fewn asedau sefydlog ar gyfanswm y taliadau prydles sy'n ddyledus dros fywyd y brydles wedi'i ddisgowntio ar gyfradd y llog sy'n gynhenid yn y brydles. Cynhwysir yr un swm mewn credydwyr. Dosrennir taliadau rhent rhwng yr elfen gylllid, y codir tâl amdani yn y datganiad o incwm a gwariant, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau credydwr y brydles. Mae'r asedau ar brydles yn destun dibrisiant ar yr un sail ag asedau a berchenogir.

**Prydles weithredu** yw prydles lle nad yw'r prydlesai wedi derbyn y risgiau na'r gwobrau o fod yn berchen ar yr ased, ond yn llogi'r eitem, felly cynhwysir y tâl llogi yng nghostau'r BBC.

**Prydles gyllid** yw prydles sy'n trosglwyddo'r holl risgiau a gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar ased i'r prydlesai yn sylweddol. Yn y bôn, mae'r prydlesai yn berchen ar yr ased ac wedi ei ariannu drwy fenthyca, felly mae'r ased a'r benthyciad wedi eu cynnwys ar wahân ar y fantolen.

## CRONFEYDD WRTH GEFN
Cronfa gyfalaf wrth gefn: Bob blwyddyn, caiff swm sy'n cyfateb i'r costau yr aethpwyd iddynt gan UK Public Service Broadcasting, BBC World Service a BBC Monitoring ar asedau cyfalaf yn ychwanegol at ddibrisiant, wedi'i addasu ar gyfer gwarediadau, ei drosglwyddo i'r/o'r gronfa gyfalaf wrth gefn fel bod swm y gronfa gyfalaf wrth gefn, ar ddyddiad y fantolen, yn cyfateb i werth llyfr net cost hanesyddol asedau sefydlog UK Public Service Broadcasting, BBC World Service a BBC Monitoring.

Cronfa ailbrisio wrth gefn: Mae'r gronfa ailbrisio wrth gefn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr net asedau sefydlog BBC World Service a BBC Monitoring ar gost hanesyddol o gymharu â'u swm wedi ei ailbrisio.

Cronfa weithredu wrth gefn: Y gronfa weithredu wrth gefn yw gwarged gronedig y cyfrif incwm a gwariant hyd yma.

Cronfa bensiwn wrth gefn: Mae'r gronfa bensiwn wrth gefn yn cynrychioli gwarged net neu rwymedigaeth cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig y grŵp.

Cronfa wrth gefn arall: Mae hyn yn cynrychioli gwerth opsiwn gwerthu sy'n arferadwy gan randdeiliaid lleiafrifol ar ôl addasu ar gyfer unrhyw symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor. Caiff newidiadau i werth teg yr opsiwn gwerthu heblaw mewn perthynas â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor, eu cofnodi yn y cyfrif incwm a gwariant o fewn llog. Cynhwysir y rhwymedigaeth gysylltiedig mewn credydwyr eraill.

## ARIAN PAROD AC ADNODDAU HYLIFOL
Mae arian parod, at ddibenion y datganiad llif arian parod, yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon sy'n ad-daladwy ar orchymyn, llai gorddrafftiau sy'n daladwy ar orchymyn. Buddsoddiadau asedau cyfredol yw adnoddau hylifol y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau hysbys o arian parod ar eu gwerthoedd cario neu'n agos atynt. Maent yn cynnwys adneuon y farchnad arian a chronfeydd hylifedd gyda chyfnod rhybudd o fwy nag un diwrnod gwaith.

# **DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU**
PARHAD

## OFFERYNNAU ARIANNOL

Datgelir benthyciadau'r grŵp ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n gymwys.

### Offerynnau ariannol deilliadol

Nid yw'r grŵp yn ymrwymo i gontractau deilliadol hapfasnachol. Fodd bynnag, defnyddir rhai offerynnau ariannol deilliadol gyda'r bwriad o reoli amlygiad y BBC i amrywiadau mewn cyfraddau llog (cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog) a chyfraddau cyfnewid arian cyfred tramor (blaengontractau arian cyfred tramor).

Cydnabyddir offerynnau ariannol deilliadol ar gost i gychwyn a chânt eu hailfesur ar ôl hynny ar werth teg ar ddyddiad y fantolen gyda symudiadau yn cael eu cofnodi yn y datganiad o incwm a gwariant.

Gwerth teg cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog yw'r swm amcangyfrifedig y byddai'r grŵp yn ei dderbyn neu'n ei dalu i derfynu'r cyfnewidiad, y cap neu'r coler ar ddyddiad y fantolen, gan ystyried cyfraddau llog cyfredol y cyfrif a theilyngdod cyfredol gwrthbartïon y cyfnewid, y cap neu'r coler o ran credyd.

Pennir gwerth teg cyfraddau blaengontractau arian cyfred tramor drwy ddefnyddio blaengyfraddau cyfnewid y farchnad ar ddyddiad y fantolen.

### Cyfrifyddu ar sail rhagfantoli

Yn gyffredinol, nid yw'r grŵp yn cymhwyso cyfrifyddu ar sail rhagfantoli ond yn hytrach yn galluogi symudiadau mewn gwerthoedd teg contractau rhagfantoli i lifo i'r datganiad o incwm a gwariant wrth iddynt godi. Fodd bynnag, lle y dynodir offeryn ariannol ac y bo'n effeithiol fel eitem rhagfantoli buddsoddiad net gweithrediad tramor caiff unrhyw wahaniaethau cyfnewid sy'n codi wrth ail-drosi'r offeryn ariannol eu cydnabod yn uniongyrchol yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig. Cydnabyddir unrhyw ran aneffeithiol ar unwaith yn y cyfrif incwm a gwariant.

Mae **offerynnau ariannol** yn cynnwys yr holl drefniadau cytundebol i gyflawni neu dderbyn arian parod. Felly maent yn cynnwys dyledwyr a chredydwyr masnach a benthyciadau yn ogystal ag offerynnau mwy cymhleth megis deilliadau.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

## 1 DADANSODDIAD O INCWM, GWARGED/(DIFFYG) AC ASEDAU NET

### 1a Dadansoddiad o incwm, gwarged/(diffyg) ac asedau net yn ôl gweithgaredd

| | Nodyn | Grŵp UK Public Service Broadcasting £m | BBC World Service a BBC Monitoring £m | Busnesau Masnachol £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **2009** | | | | | |
| Cyfanswm yr incwm | | 3,707.5 | 297.2 | 1,132.9 | **5,137.6** |
| Llai: incwm mewnol y grŵp | | (172.7) | (0.7) | (58.0) | **(231.4)** |
| Cyfanswm yr incwm allanol | | 3,534.8 | 296.5 | 1,074.9 | **4,906.2** |
| Llai: cyfran o gyd-fentrau | | (1.5) | – | (299.0) | **(300.5)** |
| Incwm y grŵp | | **3,533.3** | **296.5** | **775.9** | **4,605.7** |
| Yn cynnwys: | | | | | |
| Incwm o ffi'r drwydded | 1b | 3,493.8 | – | – | **3,493.8** |
| Grantiau'r llywodraeth | | 5.0 | 289.6 | – | **294.6** |
| Masnachol | 1c | – | – | 775.9 | **775.9** |
| Arall | | 34.5 | 6.9 | – | **41.4** |
| Gwarged/(diffyg) cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol | | 147.3 | (0.6) | 31.1 | **177.8** |
| Llog net derbyniadwy/(taladwy) | | 1.2 | 0.9 | (19.3) | **(17.2)** |
| Gwarged cyn trethiant a chostau pensiwn anariannol | | 148.5 | 0.3 | 11.8 | **160.6** |
| Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig | | | | | |
| – incwm gweithredu ychwanegol*^ | 4b | | | | **0.3** |
| – incwm cyllid net arall* | 8bii | | | | **117.3** |
| Gwarged cyn trethiant a buddiant lleiafrifol | | | | | **278.2** |
| Yn cynnwys cyfran y grŵp o (ddiffyg)/gwarged weithredu partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **(6.6)** | **–** | **55.9** | **49.3** |
| Asedau/(rhwymedigaethau) net (ac eithrio rhwymedigaeth pensiwn) | | | | | |
| – Y DU | | 949.8 | 71.5 | (49.5) | **971.8** |
| – Gweddill y byd | | 17.6 | 99.4 | 44.6 | **161.6** |
| | | | | | **1,133.4** |
| Rhwymedigaeth pensiwn net* | 8bi | | | | **(143.3)** |
| Asedau net | | | | | **990.1** |
| Yn cynnwys cyfran y grŵp o asedau net partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **1.9** | **–** | **57.8** | **59.7** |

Mae Nodyn 1 yn darparu dadansoddiad o'r **meysydd busnes gwahanol** o fewn y BBC. Dewiswyd y meysydd busnes ar sail y gwasanaethau a ddarperir a thrwy wahanu gweithgareddau a ariennir gan ffynonellau incwm gwahanol.

Mae Grŵp UK Public Service Broadcasting yn cynnwys Gwasanaethau Cyhoeddus y DU (fel y'u diffinnir yn y Cytundeb) a'r is-gwmnïau hynny a ymgorfforir i weithredu ar ran y gweithrediadau gwasanaeth cyhoeddus hynny yn unig.

Mae BBC World Service a BBC Monitoring yn cynnwys gweithgareddau monitro darlledu a'r cyfryngau.

Mae Busnesau Masnachol yn cynnwys busnesau sy'n cynhyrchu incwm allanol wrth ddefnyddio rhaglenni'r BBC, asedau eraill a'r cyflenwad o sgiliau.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 1 DADANSODDIAD O INCWM, GWARGED/(DIFFYG) AC ASEDAU NET parhad

### 1a Dadansoddiad o incwm, gwarged/(diffyg) ac asedau net yn ôl gweithgaredd parhad

| | Nodyn | Grŵp UK Public Service Broadcasting £m | BBC World Service a BBC Monitoring £m | Busnesau Masnachol £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **2008** | | | | | |
| Cyfanswm yr incwm | | 3,628.2 | 286.2 | 1,089.1 | 5,003.5 |
| Llai: incwm mewnol y grŵp | | (217.9) | (1.3) | (94.9) | (314.1) |
| Cyfanswm yr incwm allanol | | 3,410.3 | 284.9 | 994.2 | 4,689.4 |
| Llai: cyfran o gyd-fentrau | | – | – | (274.6) | (274.6) |
| Incwm y grŵp | | 3,410.3 | 284.9 | 719.6 | 4,414.8 |
| Yn cynnwys: | | | | | |
| Incwm o ffi'r drwydded | 1b | 3,368.8 | – | – | 3,368.8 |
| Grantiau'r llywodraeth | | 4.0 | 279.6 | – | 283.6 |
| Masnachol | 1c | – | – | 719.6 | 719.6 |
| Arall | | 37.5 | 5.3 | – | 42.8 |
| (Diffyg)/gwarged cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol | | (108.0) | 0.5 | 104.7 | (2.8) |
| Llog net derbyniadwy/(taladwy) | | 1.7 | 0.7 | (7.0) | (4.6) |
| (Diffyg)/gwarged cyn trethiant a chostau pensiwn anariannol | | (106.3) | 1.2 | 97.7 | (7.4) |
| Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig | | | | | |
| – costau gweithredu ychwanegol*^ | 4b | | | | (1.9) |
| –incwm cyllid net arall* | 8bii | | | | 148.8 |
| Gwarged cyn trethiant a buddiant lleiafrifol | | | | | 139.5 |
| Yn cynnwys cyfran y grŵp o warged weithredu partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | – | – | 60.3 | 60.3 |
| Asedau net (ac eithrio ased pensiwn) | | | | | |
| – Y DU | | 734.2 | 72.0 | 22.0 | 828.2 |
| – Gweddill y byd | | 5.9 | 98.7 | 63.1 | 167.7 |
| | | | | | 995.9 |
| Ased pensiwn net* | 8bi | | | | 523.3 |
| Asedau net | | | | | 1,519.2 |
| Yn cynnwys cyfran y grŵp o asedau net partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | 2.1 | – | 67.3 | 69.4 |

* Yn unol ag FRS 17 ni rennir yr eitemau hyn rhwng dosbarthiadau busnes gan y'u rheolir yn ganolog ar draws y grŵp ac nid yw'n bosibl eu dyrannu ar sail resymol a chyson.

^ Caiff cyfraniad arian parod gwirioneddol y cyflogwr i'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ei gynnwys yn y warged/(diffyg) cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol pob endid. Y gost weithredu ychwanegol yw'r gost i'r grŵp yn ychwanegol at y cyfraniadau arian parod hyn.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 1b Incwm o ffi'r drwydded

| | Ffi'r drwydded 2009 £ | Trwyddedau mewn grym 2009 Nifer '000 | Cyfanswm incwm 2009 £m | Ffi'r drwydded 2008 £ | Trwyddedau mewn grym 2008 Nifer '000 | Cyfanswm incwm 2008 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lliw | **139.50** | **21,154** | **2,940.5** | 135.50 | 21,081 | 2,840.1 |
| Du a gwyn | **47.00** | **24** | **1.4** | 45.50 | 28 | 1.4 |
| Consesiynol | **7.50** | **186** | **1.4** | 7.50 | 186 | 1.4 |
| Pobl dros 75 oed | **–** | **4,000** | **532.9** | – | 3,953 | 508.4 |
| | | **25,364** | **3,476.2** | | 25,248 | 3,351.3 |
| Premiwm cynllun talu chwarterol | | | **17.6** | | | 17.5 |
| **Cyfanswm yr incwm o ffi'r drwydded** | | | **3,493.8** | | | 3,368.8 |
| Incwm arall* | | | **39.5** | | | 41.5 |
| Cyfanswm yr incwm allanol | | | **3,533.3** | | | 3,410.3 |

* Yn gynwysedig o fewn incwm arall mae £1.7miliwn (2008: £2.3miliwn) wedi ei gyfrannu gan ddarlledwyr eraill tuag at gostau Digital UK Limited (gweler Nodyn 2a).

Yn ystod y flwyddyn dosbarthwyd 3.5 miliwn (2008: 3.5 miliwn) o drwyddedau lliw o dan y cynllun talu chwarterol ar bremiwm o £5 yr un (2008: £5). Mae gan aelwydydd lle mae mwy nag un person dros 75 oed yn byw, fel eu prif breswylfa, yr hawl i drwydded am ddim. Ad-delir y BBC am y trwyddedau hyn sydd am ddim gan yr adran berthnasol o'r Llywodraeth.

## 1c Dadansoddiad o incwm Busnesau Masnachol

O 1 Ebrill 2008 sefydlwyd is-adran newydd, Brandiau Byd-eang, yn BBC Worldwide Limited y rheolir brandiau allweddol ohoni, yn cynnwys Lonely Planet. Mae'r busnes Digwyddiadau Byw, a reolwyd gynt o fewn yr adran Blant, wedi ei drosglwyddo i'r adrannau Cynnwys a Chynhyrchu ac mae'r cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol hefyd wedi eu hailddatgan i adlewyrchu'r newid hwn.

| Yn ôl Gweithgaredd: | Incwm ac eithrio cyd-fentrau 2009 £m | Incwm ac eithrio cyd-fentrau 2008 £m | Incwm cyd-fentrau 2009 £m | Incwm cyd-fentrau 2008 £m |
|---|---|---|---|---|
| Teledu (sianelau, gwerthiannau, cynnwys a chynhyrchu) | **442.4** | 410.3 | **120.1** | 112.0 |
| Cylchgronau a Phlant, Adloniant Cartref | **238.3** | 238.0 | **178.9** | 162.6 |
| Brandiau Byd-eang gan gynnwys Lonely Planet | **43.0** | 23.1 | **–** | – |
| Cyfryngau Digidol | **34.3** | 21.9 | **–** | – |
| Darparu cyfleusterau a gwasanaethau gwneud rhaglenni | **75.9** | 121.2 | **–** | – |
| Llai: incwm mewnol y grŵp | **(58.0)** | (94.9) | **–** | – |
| Cyfanswm yr incwm | **775.9** | 719.6 | **299.0** | 274.6 |

| Yn ôl cwmni: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| BBC Worldwide Limited | **697.1** | 641.6 | **299.0** | 274.6 |
| BBC World News Limited* | **60.9** | 51.6 | **–** | – |
| BBC Studios and Post Production Limited** | **17.9** | 26.4 | **–** | – |
| Cyfanswm yr incwm | **775.9** | 719.6 | **299.0** | 274.6 |

* Newidiodd BBC World Limited ei enw i BBC World News Limited ar 1 Awst 2008.
** Newidiodd BBC Resources Limited ei enw i BBC Studios and Post Production Limited ar 1 Ebrill 2009.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 1ch Dadansoddiad daearyddol o incwm Busnesau Masnachol yn ôl cyrchfan

| | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|
| Y Deyrnas Unedig | **303.9** | 310.4 |
| Yr Americas | **212.2** | 187.2 |
| Gweddill y Byd | **259.8** | 222.0 |
| Cyfanswm yr incwm | **775.9** | 719.6 |

## 1d Gwarged busnesau masnachol cyn llog a threthiant

| | Datganiadau ariannol statudol unigol | Addasiadau grŵp | | **2009** | 2008 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwarged/ (diffyg) cyn addasiadau grŵp, llog a threthiant £m | Cydnabod offerynnau ariannol deilliadol £m | Addasiadau grŵp eraill £m | **Gwarged/ (diffyg) cyn llog a threthiant £m** | Gwarged/ (diffyg) cyn llog a threthiant £m |
| BBC Worldwide Limited | 85.7 | (20.9) | 1.3 | **66.2** | 116.1 |
| BBC World News Limited | (3.2) | (13.2) | – | **(16.4)** | (7.8) |
| BBC Studios and Post Production Limited | (18.3) | – | – | **(18.3)** | (3.2) |
| Cwmnïau dal | (0.6) | – | 0.2 | **(0.4)** | (0.4) |
| Cyfanswm | 63.6 | (34.0) | 1.5 | **31.1** | 104.7 |

Nid yw is-gwmnïau'r grŵp wedi mabwysiadu FRS 26 (IAS 39), Financial Instruments Recognition and Measurement' yn eu datganiadau ariannol eu hunain gan nad ydynt o fewn ei chwmpas. O ganlyniad mae cydnabod offerynnau ariannol deilliadol yn natganiadau ariannol y grŵp yn effeithio ar y warged/(diffyg) cyn llog a threthiant a adroddir ar gyfer y rhan Busnesau Masnachol.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 2 GWARIANT GWEITHREDU

### 2a Dadansoddiad o wariant gweithredu yn ôl gweithgaredd

Ariennir gweithgareddau Grŵp UK Public Service Broadcasting gan ffi'r drwydded. Mae'r Siarter a'r Cytundeb rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn disgrifio gwasanaethau cyhoeddus y DU yn y BBC (gan gynnwys gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein) a hefyd yn gosod rhai rhwymedigaethau ar y BBC mewn perthynas â'r newid i ddigidol; ariennir y ddau weithgaredd gan ffi'r drwydded. Fodd bynnag, mae rhan o incwm ffi'r drwydded wedi ei neilltuo at ddiben newid i ddigidol ac o ganlyniad dangosir cyfanswm gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting isod wedi ei ddyrannu rhwng y categorïau hyn.

| | Nodyn | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Gwariant ar weithgareddau a ariennir gan ffi'r drwydded | | | |
| Gwasanaethau cyhoeddus y DU | 2b | **3,345.6** | 3,487.1 |
| Newid i ddigidol (Digital UK Limited)* | | **26.0** | 21.2 |
| Newid i ddigidol (DSHS Limited)** | 2ch | **24.4** | 5.9 |
| Cyfanswm Grŵp UK Public Service Broadcasting | | **3,396.0** | 3,514.2 |
| BBC World Service a BBC Monitoring*** | | **296.9** | 285.3 |
| Busnesau Masnachol | 2c | **799.1** | 675.6 |
| Incwm gweithredu cynllun pensiwn anariannol**** | | **(0.3)** | 1.9 |
| | | **4,491.7** | 4,477.0 |

* Fel y nodir yn Nodyn 29c mae'r BBC yn rheoli 56% o hawliau pleidleisio'r cwmni Digital UK Limited, ac felly yn cyfuno ei ganlyniadau â rhai'r BBC. O ganlyniad, mae'r costau hyn yn cynrychioli'r gwariant llawn gan Digital UK Limited, a ariennir gan gyfraniadau gan y BBC a darlledwyr eraill. Cyfrannodd y BBC £24.3miliwn (2008: £18.9miliwn) sef 100% o'r gwariant cyfathrebu (sydd wedi ei neilltuo, gweler Nodyn 2ch) a 56% o'r holl gostau eraill yr eir iddynt gan Digital UK Limited. Cyfrannwyd £1.7miliwn (2008: £2.3miliwn) gan ddarlledwyr eraill.

** Cyfrannodd y BBC £23.6miliwn (2008: £5.9miliwn) gyda £0.8miliwn (2008: £dim) yn cael ei gyfrannu gan drydydd partïon.

*** Mae gwariant BBC World Service a BBC Monitoring o £296.9miliwn (2008: £285.3miliwn) yn eithrio £0.4miliwn (2008: £0.5miliwn) o wariant wrth ddarparu gwasanaethau i gwmnïau eraill yng ngrŵp y BBC.

**** Yn unol ag FRS 17 ni rennir y costau gweithredu anariannol rhwng y gweithgareddau busnes gan nad yw'n bosibl gwneud hyn ar sail resymol a chyson.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 2b Gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting

Mae'r tabl isod yn nodi cyfanswm y gwariant ar gyfer pob grŵp o drwyddedau gwasanaeth yn y fframwaith a bennir gan Ymddiriedolaeth y BBC. Ceir manylion am wariant pob gwasanaeth unigol yn Nodyn 28.

**2009**

| Gwasanaethau | Nodyn | Cynnwys £m | Dosbarthu £m | Seilwaith/ cymorth £m | Arall £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Teledu | 28 | 1,856.1 | 123.6 | 356.1 | – | **2,335.8** |
| Radio | 28 | 462.9 | 40.5 | 84.5 | – | **587.9** |
| Ar-lein | 28 | 112.2 | 18.5 | 46.5 | – | **177.2** |
| **Gwariant wedi ei reoleiddio** | | 2,431.2 | 182.6 | 487.1 | – | **3,100.9** |
| Arall* | 28 | 80.0 | 17.2 | 13.7 | 122.8 | **233.7** |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | 28 | – | – | – | 11.0 | **11.0** |
| **Gwariant Gwasanaethau Cyhoeddus y DU** | | 2,511.2 | 199.8 | 500.8 | 133.8 | **3,345.6** |
| Digital UK Limited | 2a | – | – | – | 26.0 | **26.0** |
| Gwariant newid i ddigidol wedi ei neilltuo | 2ch | – | – | – | 24.4 | **24.4** |
| Cyfanswm gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting | | 2,511.2 | 199.8 | 500.8 | 184.2 | **3,396.0** |

* Gwariant arall nad yw wedi ei reoleiddio'n benodol gan y trwyddedau gwasanaeth unigol ac mae'n cynnwys costau ar gyfer casglu ffi'r drwydded, cerddorfeydd a grwpiau perfformio a datblygu busnes.

**Gwasanaeth ar-lein** y BBC oedd bbc.co.uk (gan gynnwys iPlayer).

**2008**

| Gwasanaethau | Nodyn | Cynnwys £m | Dosbarthu £m | Seilwaith/ cymorth £m | Arall £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Teledu | 28 | 1,834.3 | 104.8 | 416.2 | – | 2,355.3 |
| Radio | 28 | 459.9 | 47.2 | 91.3 | – | 598.4 |
| Ar-lein | 28 | 113.9 | 15.4 | 52.7 | – | 182.0 |
| **Gwariant wedi ei reoleiddio** | | 2,408.1 | 167.4 | 560.2 | – | 3,135.7 |
| Arall | 28 | 77.5 | 18.3 | 14.8 | 123.2 | 233.8 |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | 28 | – | – | – | 117.6 | 117.6 |
| **Gwariant Gwasanaethau Cyhoeddus y DU** | | 2,485.6 | 185.7 | 575.0 | 240.8 | 3,487.1 |
| Digital UK Limited | 2a | – | – | – | 21.2 | 21.2 |
| Gwariant Newid i Ddigidol wedi ei neilltuo | 2ch | – | – | – | 5.9 | 5.9 |
| Cyfanswm gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting | | 2,485.6 | 185.7 | 575.0 | 267.9 | 3,514.2 |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 2c Gwariant Busnesau Masnachol

| | Nodyn | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Costau gwerthu | | **373.7** | 351.0 |
| Costau dosbarthu | | **221.0** | 179.1 |
| Costau gweinyddol a chostau eraill | | **96.2** | 40.2 |
| Amorteiddio buddsoddiad mewn rhaglenni | 12 | **87.0** | 101.8 |
| Costau ailstrwythuro | 4c | **21.2** | 3.5 |
| Cyfanswm | | **799.1** | 675.6 |

Mae'r **gwariant** a ddangosir ar gyfer Busnesau Masnachol ond yn ymwneud ag incwm allanol ac mae'n eithrio gwariant sy'n ymwneud â gwerthiannau o fewn y BBC.

## 2ch Gwariant Gwasanaethau Cyhoeddus y DU wedi ei neilltuo

Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi neilltuo'r symiau canlynol o fewn y Siarter newydd a setliad ffi'r drwydded chwe blynedd (2008 i 2013):

| **Newid i ddigidol** | Swm a wariwyd cyn 2008 £m | Swm a wariwyd yn 2008 £m | Swm sydd i'w wario yn 2009 £m | **Cyfanswm cronnol £m** | Cyllid chwe blynedd wedi ei neilltuo £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth i'r henoed a'r anabl* | – | 5.9 | 23.6 | **29.5** | 603.0 |
| Digital UK Limited** | 10.1 | 17.5 | 20.4 | **48.0** | 201.0 |

* Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cytuno â'r BBC y caiff costau amcangyfrifedig y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol (a weithredir gan DSHS Limited) sef £603miliwn ei neilltuo a'i wahanu oddi wrth ffi'r drwydded at ddiben ariannu'r Cynllun dros fywyd setliad ffi'r drwydded o chwe blynedd. Mae'r cytundeb hwn yn nodi, os bydd costau'r prosiect yn fwy na'r terfyn hwn oherwydd mwy o alw na'r disgwyl, na fydd hyn ar draul rhaglenni, gwasanaethau nac adnoddau eraill y BBC.

** Mae'r Cytundeb Fframwaith yn nodi bod y BBC yn ymrwymedig i arwain rhai agweddau ar y rhaglen newid i ddigidol, drwy Digital UK, ac mae setliad ffi'r drwydded yn cynnwys swm wedi ei neilltuo o hyd at £201miliwn o gychwyn Digital UK tan ddiwedd bywyd setliad ffi'r drwydded o 6 blynedd ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu. Dim ond rhan o gyfraniad blynyddol y BBC i Digital UK yw'r swm wedi ei neilltuo (gweler Nodyn 2a).

Ar 31 Mawrth 2009, mae disgwyl i'r BBC gadw o fewn y symiau a neilltuwyd ar ddiwedd y cyfnod o chwe blynedd.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 3 GWARGED/(DIFFYG) GWEITHREDU'R GR ŴP

### 3a Gwarged/(diffyg) gweithredu'r grŵp ac eithrio cydnabyddiaeth yr archwilwyr

Datgenir y warged/(diffyg) gweithredu cyn llog a threthiant ar ôl codi tâl ar/(credydu) yr eitemau canlynol:

| | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|
| Taliadau o dan brydlesau gweithredu | | |
| – tir ac adeiladau | **83.7** | 72.8 |
| – offer a pheiriannau | **13.6** | 13.1 |
| – arall | **16.4** | 12.3 |
| Dibrisio | | |
| – asedau a berchenogir | **122.4** | 107.6 |
| – asedau a brydlesir | **6.3** | 2.8 |
| Lleihad mewn gwerth ar asedau sefydlog diriaethol | **10.9** | – |
| Elw o werthu asedau sefydlog diriaethol* | **(0.5)** | – |
| Colled o waredu asedau sefydlog diriaethol* | **10.4** | – |
| Amorteiddio ewyllys da mewn is-gwmnïau | **5.1** | 2.5 |
| Amorteiddio ewyllys da mewn cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt | **2.3** | 2.0 |
| Lleihad mewn gwerth ewyllys da mewn cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt | **2.0** | – |
| Amorteiddio buddsoddiad mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | **87.0** | 101.8 |
| Lleihad mewn gwerth buddsoddiadau masnach | **2.7** | 1.5 |
| Datblygu rhaglenni | **32.1** | 22.1 |
| Ymchwil a datblygiad | **47.8** | 16.1 |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr masnachu teg (Deloitte LLP) | **0.2** | – |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr masnachu teg (PricewaterhouseCoopers LLP) | **–** | 0.5 |
| Gwahaniaethau cyfnewid net ar drafodion a setlwyd | **(10.3)** | (2.8) |
| Lleihad mewn gwerth dyledwyr masnach | **5.7** | 3.9 |
| Colledion gwerth teg ar ddeilliadau sefydlog | **8.1** | 0.2 |
| Colledion/(enillion) gwerth teg ar flaengontractau arian cyfred tramor agored | **10.3** | (6.2) |

* Mae'r (elw)/colled o waredu asedau sefydlog diriaethol yn cynrychioli addasiadau i ddibrisiant ar waredaidau wrth gyflawni busnes yn arferol. Datgelir elw eithriadol o waredaidau ar wahân yn Nodiadau 5 a 6.

O ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys ailstrwythuro gweithgareddau, amodau'r farchnad ac ymgorffori caffaeliadau newydd, yn ystod y flwyddyn mae'r grŵp wedi adolygu ei asedau, yn enwedig eiddo, offer a buddsoddiadau i sicrhau na chânt eu datgan ar fwy na'u swm adenilladwy. Ar gyfer asedau unigol, roedd hyn yn gyffredinol yn golygu gwneud cymhariaeth â swm adenilladwy amcangyfrifedig, yn seiliedig ar brisiau'r farchnad. Ar gyfer is-adrannau'r busnes, roedd hyn yn cynnwys asesiad o'r llifau arian parod yr oedd disgwyl i'r is-adran eu cynhyrchu. O ganlyniad mae lleihad mewn gwerth wedi ei gydnabod mewn perthynas ag eiddo, offer ac ewyllys da a buddsoddiadau penodol, gwerth £15.6miliwn.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

### 3b Cydnabyddiaeth yr archwilwyr

Mae'r BBC wedi adrodd ar gydnabyddiaeth ei archwilwyr yn unol â Rheoliadau Cwmnïau (Datgelu Cydnabyddiaeth Archwilwyr) 2005.

| | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|
| Ffioedd yn daladwy am archwilio cyfrifon blynyddol y BBC | **0.5** | 0.6 |
| Ffioedd yn daladwy i archwilydd y BBC a'i bartneriaethau cyswllt am wasanaethau eraill | | |
| – Archwilio is-gwmnïau'r BBC yn unol â deddfwriaeth | **0.7** | 0.6 |
| – Gwasanaethau eraill yn ymwneud â threthiant | **0.2** | 0.3 |
| – Gwasanaethau yn ymwneud â thrafodion cyllid corfforaethol | **0.1** | – |
| – Pob gwasanaeth arall | **1.1** | 0.5 |
| | **2.6** | 2.0 |

## 4 CYFLOGEION A CHYDNABYDDIAETH

### 4a Pobl a gyflogir

Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn oedd:

| | Cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn | |
|---|---|---|
| | **2009 Nifer** | **2009 Nifer** |
| Grŵp UK Public Service Broadcasting | **17,078** | 17,677 |
| BBC World Service a BBC Monitoring | **2,379** | 2,219 |
| Busnesau Masnachol | **3,417** | 3,205 |
| Cyfanswm y grŵp | **22,874** | 23,101 |

Gellir priodoli'r lleihad yn nifer y staff yng Ngrŵp UK Public Service Broadcasting yn ystod 2009 yn bennaf i'r rhai a oedd yn gadael y Rhaglen Gwelliant Parhaus.

Gellir priodoli'r cynnydd yn nifer staff Busnesau Masnachol yn ystod 2009 yn bennaf i gaffael UK TV yn BBC Worldwide Limited a chynnwys Lonely Planet am flwyddyn lawn. Gwrthbwysir hyn yn rhannol gan leihad o ran BBC Studios and Post Production Limited yn dilyn gwerthu busnes Darllediadau Allanol.

O fewn y cyfartaleddau uchod, mae 2,806 o gyflogeion rhan amser (2008: 2,845) wedi cael eu cynnwys ar eu ffigur cyfwerth ag amser llawn o 1,584 (2008: 1,595).

Yn ogystal â'r uchod, cyflogodd y grŵp 789 o bobl gyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd (2008: 851) ar sail achlysurol a chyflogwyd 375 o aelodau cyfwerth ag amser llawn o Gerddorfa'r BBC a Chantorion y BBC, ar gontractau rhaglenni (2008: 379).

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 4b Costau staff

| | Nodyn | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Cyflogau* | | **1,005.4** | 1,006.0 |
| Costau nawdd cymdeithasol | | **86.9** | 89.5 |
| Costau pensiwn* | | | |
| – prif gynllun (budd diffiniedig) | 8bii | **158.9** | 173.2 |
| – cynlluniau eraill | 8bii | **2.7** | 1.2 |
| Costau diswyddo | 4c | **40.3** | 111.7 |
| | | **1,294.2** | 1,381.6 |
| Gan gynnwys: | | | |
| Grŵp UK Public Service Broadcasting | | **975.3** | 1,097.8 |
| BBC World Service a BBC Monitoring | | **99.2** | 93.7 |
| Busnesau Masnachol | | **220.0** | 188.2 |
| (Incwm)/cost weithredu ychwanegol y prif gynllun pensiwn (budd diffiniedig)** | 1a | **(0.3)** | 1.9 |
| | | **1,294.2** | 1,381.6 |

* Cyflwynwyd trefniant aberthu cyflog ar 1 Mehefin 2008 ar gyfer aelodau'r cynllun pensiwn Hen Fuddiannau a Buddiannau Newydd. Mae'r cyfraniadau a dalwyd drwy'r trefniant aberthu cyflog wedi cael eu trin fel cyfraniadau cyflogwr, a lleihad cyfatebol mewn cyflog. Cyfanswm y cyflog a aberthwyd yn unol â'r trefniant hwn oedd £38.3miliwn.

** Telir cyfraniadau arian parod gwirioneddol y cyflogwr i'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig gan bob busnes. Y gost weithredu ychwanegol yw'r gost i'r grŵp yn ychwanegol at y cyfraniadau hyn. Nid yw'n bosibl dyrannu hyn i bob busnes ar sail resymol a chyson.

## 4c Costau ailstrwythuro

| | Costau staff 2009 £m | Arall 2009 £m | Cyfanswm 2009 £m | Costau staff 2008 £m | Arall 2008 £m | Cyfanswm 2008 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau ailstrwythuro eithriadol:* | | | | | | |
| – Grŵp UK Public Service Broadcasting | **11.0** | **–** | **11.0** | 99.7 | 17.9 | 117.6 |
| – BBC World Service a BBC Monitoring | **–** | **–** | **–** | 0.1 | – | 0.1 |
| – Busnesau Masnachol | **18.9** | **–** | **18.9** | – | – | – |
| | **29.9** | **–** | **29.9** | 99.8 | 17.9 | 117.7 |
| Costau ailstrwythuro aneithriadol:** | | | | | | |
| – Grŵp UK Public Service Broadcasting | **3.3** | **–** | **3.3** | 2.9 | – | 2.9 |
| – BBC World Service a BBC Monitoring | **4.8** | **–** | **4.8** | 5.5 | – | 5.5 |
| – Busnesau Masnachol | **2.3** | **–** | **2.3** | 3.5 | – | 3.5 |
| | **10.4** | **–** | **10.4** | 11.9 | – | 11.9 |
| | **40.3** | **–** | **40.3** | 111.7 | 17.9 | 129.6 |

* Mae costau ailstrwythuro eithriadol yn ymwneud â'r Rhaglen Gwelliant Parhaus sy'n mynd rhagddi yng Ngrŵp UK Public Service Broadcasting ac arolwg o brosesau er mwyn cyflawni gweithrediadau mwy effeithlon o fewn Busnesau Masnachol. Bydd graddau'r mentrau hyn yn cael effaith sylweddol ar weithrediadau'r grŵp.

** Mae costau ailstrwythuro aneithriadol y tu allan i'r mentrau hyn ac ni ddisgwylir iddynt gael effaith sylweddol ar fusnes cyffredinol y grŵp.

Talwyd £54.2miliwn (2008: £57miliwn) o gostau ailstrwythuro eithriadol yn ystod y flwyddyn.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 4ch Cydnabyddiaeth aelodau o Ymddiriedolaeth y BBC a'r Bwrdd Gweithredol

Datgelir cyfanswm enillion aelodau'r Bwrdd Gweithredol ac Ymddiriedolaeth y BBC yn Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol. Datgelir manylion enillion aelodau Ymddiriedolaeth y BBC yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## 5 ELW/(COLLED) O WERTHU NEU DERFYNU GWEITHREDIADAU

| | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|
| Gwerthu'r is-adran Darllediadau Allanol | **7.7** | (1.3) |
| Terfynu Prosiect Kangaroo | **(9.1)** | – |
| Terfynu BBC jam | **0.3** | (3.5) |
| Colled o werthu neu derfynu gweithrediadau | **(1.1)** | (4.8) |

Ar 1 Ebrill 2008, gwerthodd BBC Studios and Post Production Limited ei fusnes Darllediadau Allanol am £19.3miliwn i SIS Outside Broadcast Limited, rhan o'r Satellite Information Services Group. Mae Darllediadau Allanol yn darparu ystod o unedau cynhyrchu symudol, atebion cyfathrebu a chamerâu arbennig, yn Langley, Berkshire. Mae elw o werthu wedi codi mewn perthynas â gwerthu'r busnes Darllediadau Allanol. Mae pob darpariaeth sy'n ymwneud â'r terfynu wedi ei chydnabod yn y datganiadau ariannol.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008, crëwyd cyd-fenter annibynnol gan BBC Worldwide, ITV a Channel 4 i ddatblygu gwasanaeth ar alw newydd yn y DU a elwir yn y diwydiant yn Prosiect Kangaroo. Ar 4 Chwefror 2009, adroddodd y Comisiwn Cystadleuaeth ei fod yn credu y byddai'r gyd-fenter arfaethedig yn lleihau'r gystadleuaeth yn y diwydiant fideo ar alw sy'n datblygu yn y DU, a rhwystrodd y gyd-fenter rhag parhau. O ganlyniad mae'r grŵp wedi dod â'i fuddsoddiad i ben ac yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 codwyd costau eithriadol o £9.1miliwn ar y cyfrif incwm a gwariant. Mae'r costau eithriadol yn cynnwys dibrisio buddsoddiad y grŵp yn y fenter Kangaroo, costau terfynu yr aethpwyd iddynt hyd at 31 Mawrth 2009, dibrisio gwariant datblygu wedi ei gyfalafu sy'n ymwneud â meddalwedd a darparu ar gyfer rhwymedigaethau'r grŵp sy'n weddill ar ôl y dyddiad hwn.

Ar 20 Mawrth 2007 daeth y Bwrdd Gweithredol â BBC jam i ben, yn dilyn penderfyniad gan Ymddiriedolaeth y BBC, sef gwasanaeth dysgu rhyngweithiol ar-lein y BBC i blant 5 i 16 mlwydd oed. Dilynodd penderfyniad yr Ymddiriedolaeth drafodaethau helaeth â'r Llywodraeth a'r Comisiwn Ewropeaidd ar sut i fynd i'r afael â honiadau gan rai yn y diwydiant bod BBC jam yn gwneud niwed i'w buddiannau. Erys darpariaeth o £0.3miliwn (2008: £1.5miliwn) ar gyfer costau diswyddo a therfynu contractau â chyflenwyr cynnwys ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 6 ELW O WAREDU ASEDAU SEFYDLOG

| | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|
| Gwaredu eiddo | **15.9** | 2.0 |

Mae'r elw o £15.9miliwn yn 2009 yn ymwneud â gwaredu Queen Margaret Drive yn Glasgow.

Mae enillion neu golledion o waredu asedau sefydlog diriaethol wrth gyflawni busnes fel arfer, sy'n cynrychioli addasiad i ddibrisiant, yn cael eu cydnabod o fewn y warged/(diffyg) gweithredu ac fe'u datgelir fel cyfanswm yn Nodyn 3a.

## 7 LLOG

### 7a Llog derbyniadwy ac eitemau tebyg

| | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|
| Llog derbyniadwy | **7.9** | 11.6 |
| Cyfran o log cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt sy'n dderbyniadwy | **1.2** | 2.0 |
| Enillion gwerth teg ar gyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog | **–** | 0.1 |
| Llog derbyniadwy ac eitemau tebyg | **9.1** | 13.7 |

### 7b Llog sy'n daladwy ac eitemau eraill

| | | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Llog sy'n daladwy ar fenthyciadau banc a benthyciadau eraill | | **(15.7)** | (12.4) |
| Cyfran o log cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt sy'n daladwy | | **(2.4)** | (1.6) |
| Llog sy'n daladwy ar brydlesau cyllid | | **(0.4)** | (0.7) |
| Colledion gwerth teg ar gyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog | | **(5.1)** | (3.6) |
| Dad-ddirwyn disgowntiau mewn darpariaethau | 17 | **(2.7)** | – |
| Llog sy'n daladwy ac eitemau tebyg | | **(26.3)** | (18.3) |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 8 PENSIYNAU

### 8a Cynlluniau pensiwn y grŵp

Mae'r grŵp yn gweithredu sawl cynllun pensiwn. Mae Cynllun Pensiwn y BBC, y mae'r rhan fwyaf o gyflogeion yn perthyn iddo, a chynllun bach nas ariennir (sydd ar gau i aelodau newydd) yn gynlluniau buddiannau diffiniedig. Yn ogystal mae Cynllun Pensiwn Personol y Grŵp a sawl cynllun bach yn gynlluniau cyfraniadau diffiniedig.

Mae Nodyn 8b yn nodi'r asedau a'r rhwymedigaethau a'r taliadau ar gyfer pob cynllun. Mae Nodyn 8c yn rhoi manylion pellach am Gynllun Pensiwn y BBC.

### 8b Taliadau pensiwn a balansau o fewn y datganiadau ariannol

**8b i (Rhwymedigaeth)/ased pensiwn a gynhwysir ar y fantolen**

| | **Cynllun Pensiwn y BBC 2009 £m** | **Cynllun nas ariannwyd 2009 £m** | **Cyfanswm 2009 £m** | Cynllun Pensiwn y BBC 2008 £m | Cynllun nas ariannwyd 2008 £m | Cyfanswm 2008 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cynllun | **6,454.0** | **–** | **6,454.0** | 8,042.0 | – | 8,042.0 |
| Gwerth actiwaraidd rhwymedigaethau'r cynllun | **(6,592.6)** | **(4.7)** | **(6,597.3)** | (7,513.6) | (5.1) | (7,518.7) |
| (Rhwymedigaeth)/ased pensiwn net terfynol | **(138.6)** | **(4.7)** | **(143.3)** | 528.4 | (5.1) | 523.3 |

**8b ii (Taliadau)/incwm pensiwn yn y datganiad o incwm a gwariant**

| | Cynlluniau buddiannau diffiniedig | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynllun Pensiwn y BBC £m | Cynllun nas ariannwyd £m | Cynllun cyfraniadau diffiniedig £m | Pob cynllun £m |
| **2009** | | | | |
| **Cost gyfredol gwasanaeth** | **(161.8)** | **–** | **(2.7)** | **(164.5)** |
| **Cost flaenorol gwasanaeth** | **(24.2)** | **–** | **–** | **(24.2)** |
| **Ennill wrth gwtogi** | **10.0** | **–** | **–** | **10.0** |
| **Cyfanswm y tâl gweithredu*** | **(176.0)** | **–** | **(2.7)** | **(178.7)** |
| **Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn** | **626.0** | **–** | **–** | **626.0** |
| **Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn** | **(508.4)** | **(0.3)** | **–** | **(508.7)** |
| **Incwm/(cost) cyllid net** | **117.6** | **(0.3)** | **–** | **117.3** |
| **Cost net yn y datganiad o incwm a gwariant** | **(58.4)** | **(0.3)** | **(2.7)** | **(61.4)** |
| 2008 | | | | |
| Cost gyfredol gwasanaeth | (164.8) | – | (1.2) | (166.0) |
| Cost flaenorol gwasanaeth | (21.5) | – | – | (21.5) |
| Cyfanswm y tâl gweithredu | (186.3) | – | (1.2) | (187.5) |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | 562.7 | – | – | 562.7 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | (413.6) | (0.3) | – | (413.9) |
| Incwm/(cost) cyllid net | 149.1 | (0.3) | – | 148.8 |
| Cost net yn y datganiad o incwm a gwariant | (37.2) | (0.3) | (1.2) | (38.7) |

* O gyfanswm y tâl gweithredu o £176.0miliwn ar gyfer 2008/09 (2008: £186.3miliwn), cydnabuwyd £17.1miliwn fel traul yn 2007/08 (2008: cydnabuwyd £13.1miliwn fel traul yn 2006/07) fel rhan o gostau diswyddo eithriadol yn unol ag FRS 12. Cydnabuwyd y £158.9miliwn a oedd yn weddill (2008: £173.2miliwn) yn y flwyddyn gyfredol.

**Cost gyfredol gwasanaeth** yw'r gost sylfaenol i'r BBC o hawliau pensiwn a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn.

Mae **cost flaenorol gwasanaeth** yn deillio o'r ffaith bod aelodau'r cynllun yn cael yr hawl i fuddiannau ymddeol diffiniedig gwell, sy'n arwain at godi tâl am flynyddoedd o wasanaeth cyn dyfarnu'r gwelliant.

Mae'r **adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn** yn cynnwys amcangyfrifon yn seiliedig ar yr hyn a ragwelir ar gyfer perfformiad ac amodau economaidd yn y dyfodol.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

### 8b iii Symudiad mewn (diffyg)/gwarged yn ystod y flwyddyn

| | **Cynllun Pensiwn y BBC 2009 £m** | **Cynllun nas ariannwyd 2009 £m** | **Cyfanswm 2009 £m** | Cynllun Pensiwn y BBC 2008 £m | Cynllun nas ariannwyd 2008 £m | Cyfanswm 2008 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) yn y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn | **528.4** | **(5.1)** | **523.3** | 329.3 | (5.2) | 324.1 |
| Symudiad yn y flwyddyn: | | | | | | |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | **(161.8)** | **–** | **(161.8)** | (164.8) | – | (164.8) |
| Cyfraniadau (gan y cyflogwr)* | **176.0** | **0.3** | **176.3** | 184.0 | 0.4 | 184.4 |
| Costau blaenorol gwasanaeth | **(24.2)** | **–** | **(24.2)** | (21.5) | – | (21.5) |
| Ennill ar setliadau a chwtogiadau | **10.0** | **–** | **10.0** | – | – | – |
| Incwm/(cost) cyllid net | **117.6** | **(0.3)** | **117.3** | 149.1 | (0.3) | 148.8 |
| (Colled)/ennill actiwaraidd a gydnabuwyd yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a cholledion cydnabyddedig | **(784.6)** | **0.4** | **(784.2)** | 52.3 | – | 52.3 |
| (Diffyg)/gwarged yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | **(138.6)** | **(4.7)** | **(143.3)** | 528.4 | (5.1) | 523.3 |

* Mae'r cyfraniad a ddangosir ar gyfer y cynllun nas ariannwyd yn cynrychioli'r pensiynau a dalwyd i aelodau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw'r **cynlluniau cyfraniadau diffiniedig** yn arwain at asedau/(rhwymedigaethau) pensiwn ar y fantolen gan nad oes unrhyw rwymedigaeth barhaus i'r cyflogwr o'r cynlluniau hyn unwaith y bydd y cyfraniadau sy'n ddyledus am y flwyddyn wedi eu setlo.

Mae'r tybiaethau ar gyfer rhwymedigaethau cynllun pensiwn y cynllun nas ariannwyd yr un fath â'r prif gynllun. Gan nad yw'r cynllun wedi'i ariannu, nid oes unrhyw asedau ac felly ni ddisgwylir adenillion ar asedau.

## 8c Cynllun Pensiwn y BBC

Cynllun Pensiwn y BBC yw prif gynllun pensiwn y grŵp ac mae'n cynnwys y mwyafrif o gyflogeion. Mae'r cynllun hwn yn darparu buddiannau sy'n gysylltiedig â chyflog ar sail buddiannau diffiniedig wedi eu hariannu gan asedau a ddelir mewn cronfeydd ar wahân, a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Mae ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn yn rheoli'r cynllun yn y tymor byr, canolig a hir. Gwnânt benderfyniadau cyllido yn seiliedig ar brisiadau sy'n ystyried yr asedau sy'n ofynnol i gyllido rhwymedigaethau'r cynllun o safbwynt tymor hwy.

Cyflawnir prisiadau'r cynllun gan Watson Wyatt, sy'n actiwarïaid ymgynghorol. Cynhelir prisiadau ffurfiol o leiaf bob tair blynedd.

### 8c i Sefyllfa ariannol y Cynllun

| **Prisiad FRS 17** | **2009 £m** | 2008 £m | 2007 £m | 2006 £m | 2005 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau'r cynllun* | **6,454.0** | 8,042.0 | 8,117.9 | 7,843.4 | 6,341.7 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun | **(6,592.6)** | (7,513.6) | (7,788.6) | (7,675.9) | (6,763.8) |
| (Diffyg)/gwarged | **(138.6)** | 528.4 | 329.3 | 167.5 | (422.1) |
| Canran y mae asedau'r cynllun yn cwmpasu rhwymedigaethau | **98%** | 107% | 104% | 102% | 94% |

Mae **prisiad FRS 17** yn cymryd asedau yn ôl eu gwerth ar y farchnad ac yn disgowntio'r rhwymedigaethau cronnus drwy gyfeirio at gyfradd ddisgowntio bond corfforaeth gradd AA.

* Prisiwyd ecwitïau a ddyfynnwyd o fewn asedau'r cynllun gan ddefnyddio'r pris cynigion cyfredol heblaw am 2005 na chafodd ei ailddatgan ac a brisir gan ddefnyddio'r pris canol farchnad, fel y caniateir o dan y Diwygiad i FRS 17. Effaith yr ailddatgan oedd lleihau asedau'r cynllun £2.7miliwn a £10.4miliwn ar 31 Mawrth 2006 a 2007 yn y drefn honno.

Dangosir symudiadau allweddol yn y flwyddyn yn nodyn 8b iii.

Ni fydd ased na rhwymedigaeth treth ohiriedig yn codi ar gyfer y grŵp gan nad yw'r rhan fwyaf o weithgaredd gwasanaeth cyhoeddus y grŵp yn agored i drethiant.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

### 8c ii Newidiadau yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun

Dengys y tabl isod y symudiad ar rwymedigaethau'r cynllun yn ystod y flwyddyn. Y pethau allweddol sy'n effeithio ar hyn yw'r flwyddyn ychwanegol o fuddiannau pensiwn a enillwyd (a chyfraniadau cyflogeion a wnaed), llog a godwyd ar rwymedigaethau presennol, unrhyw enillion neu golledion sy'n ymwneud â chyfranogwyr yn gadael y cynllun pensiwn, newidiadau mewn tybiaethau a wnaed a buddiannau a dalwyd allan yn ystod y flwyddyn.

| | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|
| Gwerth presennol agoriadol rhwymedigaethau'r cynllun | **7,513.6** | 7,788.6 |
| Cost gyfredol gwasanaeth | **161.8** | 164.8 |
| Cost flaenorol gwasanaeth | **24.2** | 21.5 |
| Enillion ar gwtogiadau | **(10.0)** | – |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **508.4** | 413.6 |
| (Enillion)/colledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau'r cynllun | **(171.3)** | 149.1 |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i rwymedigaethau'r cynllun | **(1,138.1)** | (786.0) |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | **14.2** | 53.1 |
| Buddiannau a dalwyd | **(310.2)** | (291.1) |
| Gwerth presennol terfynol rhwymedigaethau'r cynllun | **6,592.6** | 7,513.6 |

### 8c iii Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun

Dengys y tabl isod y symudiad ar asedau'r cynllun yn ystod y flwyddyn. Y pethau allweddol sy'n effeithio ar hyn yw'r flwyddyn ychwanegol o gyfraniadau a wnaed, newidiadau yng ngwerth asedau'r cynllun pensiwn (yn cynnwys yr elw o fuddsoddiad) a buddiannau a dalwyd yn ystod y flwyddyn.

Cyflwynwyd trefniant aberthu cyflog ar 1 Mehefin 2008 ar gyfer aelodau Hen Fuddiannau a Buddiannau Newydd. Mae'r cyfraniadau a dalwyd drwy'r trefniant aberthu cyflog wedi cael eu trin fel cyfraniadau cyflogwr.

| | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|
| Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun | **8,042.0** | 8,117.9 |
| Cyfradd adennill ddisgwyliedig ar asedau'r cynllun | **626.0** | 562.7 |
| Colledion actiwaraidd ar asedau'r cynllun | **(2,094.0)** | (584.6) |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | **176.0** | 184.0 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | **14.2** | 53.1 |
| Buddiannau a dalwyd | **(310.2)** | (291.1) |
| Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun | **6,454.0** | 8,042.0 |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

### 8c iv Asedau'r cynllun

Rheolir dyraniad yr asedau gan yr Ymddiriedolwyr gan angen i reoli risg yn erbyn y dymuniad am adenillion uchel ac unrhyw anghenion o ran hylifedd. Delir canran uchel o asedau mewn ecwitïau y mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl iddynt gynhyrchu adenillion uwch yn yr hirdymor. Y dyraniad targed, yn seiliedig ar werthoedd y farchnad, ar gyfer ecwitïau yw 50% (ecwitïau'r DU 25% ac ecwitïau dramor 25%), bondiau 30%, eiddo 10% ac eitemau amgen 10%.

| | **2009** | | 2008*** | |
|---|---|---|---|---|
| **Math o ased** | **£m** | **%** | £m | % |
| Ecwitïau | **3,313** | **51** | 4,624 | 58 |
| Bondiau | **1,598** | **25** | 1,693 | 21 |
| Eiddo | **796** | **12** | 1,001 | 12 |
| Eitemau amgen* | **508** | **8** | 455 | 6 |
| Arian parod | **239** | **4** | 269 | 3 |
| Cyfanswm yr asedau | **6,454** | | 8,042 | |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun pensiwn** | **(1,468)** | | (22) | |

* Mae eitemau amgen yn cynnwys ecwiti preifat, dyledion ac arian cyfred.
** Enillion a wireddwyd yw hyn o dderbyn incwm buddsoddi (e.e. difidendau a rhent), trafodion lle y gwerthir asedau a newidiadau gwerth teg nas gwireddwyd.
*** Mae'r SORP Pensiynau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i roi cyfrif am ddyfodolion bellach ar sail gwerth ar y farchnad, yn hytrach na sail amlygiad economaidd. Diwygiwyd y cymariaethau ar gyfer Ecwitïau, Bondiau ac Arian Parod i adlewyrchu'r newid hwn.

### 8c v (Colledion)/enillion pensiwn yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig

| | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|
| Adenillion gwirioneddol llai adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | **(2,094.0)** | (584.6) |
| Enillion/(colledion) profiad sy'n codi ar rwymedigaethau'r cynllun | **171.3** | (149.1) |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | **1,138.1** | 786.0 |
| (Colled)/ennill net a gydnabyddir yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig | **(784.6)** | 52.3 |
| Colled gronnol a gydnabyddir yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig | **(2,525.4)** | (1,740.8) |

Deillia'r **enillion a'r colledion** hyn o berfformiad gwirioneddol sy'n wahanol i'r un a ragwelwyd – er enghraifft, newidiadau mewn amodau economaidd neu broffil demograffig cyflogeion y BBC. Dim ond cynlluniau buddiannau diffiniedig sy'n arwain at enillion a cholledion yn y datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

### 8c vi Hanes enillion a cholledion profiad

| | **2009** | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|
| Addasiadau oherwydd profiad ar asedau'r cynllun | | | | | |
| Swm (£miliwn) | **(2,094.0)** | (584.6) | (121.0) | 1,246.5 | 198.7 |
| Canran o asedau'r cynllun | **32.4%** | 7.3% | 1.5% | 15.9% | 3.1% |
| Addasiadau oherwydd profiad ar rwymedigaethau'r cynllun: | | | | | |
| Swm (£miliwn) | **171.3** | (149.1) | (164.6) | 208.6 | (1.4) |
| Canran o rwymedigaethau'r cynllun | **2.6%** | 2.0% | 2.1% | 2.7% | 0.0% |
| Cyfanswm y (golled)/ennill actiwaraidd a gydnabuwyd yn y datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig: | | | | | |
| Swm (£miliwn) | **(784.6)** | 52.3 | 136.1 | 658.4 | 80.9 |
| Canran o rwymedigaethau'r cynllun | **11.9%** | 0.7% | 1.7% | 8.6% | 1.2% |

### 8c vii Ariannu'r cynllun

O ganlyniad i brisiad actiwaraidd 2007 gan Watson Wyatt, cytunodd y BBC ac ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn y byddai cyfraniadau'r cyflogwr yn cynyddu i 19.35% o 1 Gorffennaf 2008. Cododd cyfraniadau cyflogeion o 6% i 6.75% o 1 Ebrill 2009 a byddant yn codi i 7.5% o 1 Ebrill 2010 a gostyngodd cyfraniadau'r cyflogwr o 19.35% i 18.6% o 1 Ebrill 2009 a byddant yn gostwng i 17.85% o 1 Ebrill 2010.

Cyflwynwyd trefniant aberthu cyflog ar 1 Mehefin 2008 ar gyfer aelodau Hen Fuddiannau a Buddiannau Newydd. Mae'r cyfraniadau a dalwyd drwy'r trefniant aberthu cyflog wedi cael eu trin fel cyfraniadau cyflogwr.

Rydym yn disgwyl i'r prisiad actiwaraidd ffurfiol nesaf gael ei gynnal ar 1 Ebrill 2010.

| | Rhagamcaniadau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfraddau cyfraniadau** | 2011 % | 2010 % | 2009 % | 2008 % | 2007 % |
| Cyflogwr | 17.85 | 18.6 | 18.8/19.35 | 18.8 | 7.5 |
| Cyflogai (Hen Fudd a Budd Newydd) | 7.5 | 6.75 | 6.0 | 6.0 | 5.5/6.0 |
| Cyflogai (Budd Cyfartaledd Gyrfa) | 4.0 | 4.0 | 4.0 | 4.0 | 4.0** |
| Cost sylfaenol y cynllun i'r BBC fel % o gyflogau pensiynadwy* | 17.85 | 18.6 | 18.8/19.35 | 18.8 | 19.3/18.8 |

* Yn eithrio'r gost a delir mewn gwirionedd gan y cyflogai a'r elfen aberthu cyflog.

** Dechreuodd y cynllun Budd Cyfartaledd Gyrfa ar 1 Tachwedd 2006.

Disgwylir i gyfraniadau gwerth £182.5miliwn gael eu talu yn 2010.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

### 8c viii Prif dybiaethau actiwaraidd

Mae cyfrifo asedau a rhwymedigaethau'r cynllun, at ddibenion FRS 17, yn gofyn am wneud nifer o dybiaethau, ariannol a demograffig. Y prif dybiaethau a wnaed gan yr actiwarïaid ar ddyddiad y fantolen oedd:

Cymerir y **gyfradd ddisgowntio** ar gyfer prisiad FRS 17 fel y gyfradd ar gyfer bond corfforaeth gradd AA.

| **Prif dybiaethau ariannol** | **2009 %** | 2008 % | 2007 % |
|---|---|---|---|
| Prisiad FRS 17 | | | |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | **4.4****| 5.6* | 5.0 |
| Cyfradd y cynnydd mewn taliadau pensiwn: | | | |
| Hen Fuddiannau | **3.0** | 3.6 | 3.1 |
| Buddiannau Newydd | **2.7** | 3.4 | 2.9 |
| Buddiannau Cyfartaledd Gyrfa | **2.4** | 2.5 | 2.4 |
| Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant | **2.9** | 3.6 | 3.1 |
| Cyfradd ddisgowntio | **7.2** | 6.9 | 5.4 |

* Dyma'r dybiaeth o 1 Ebrill 2010. Y dybiaeth hyd at 31 Mawrth 2010 yw 4.6% y flwyddyn.
** Dyma'r dybiaeth o 1 Ebrill 2011. Y dybiaeth hyd at 31 Mawrth 2011 yw 3.9% y flwyddyn.

Y tybiaethau o ran disgwyliad oes ar gyfartaledd, ar gyfer aelodau sy'n ymddeol yn 60 oed, fel a ganlyn, yw:

| **Prif dybiaethau demograffig** | **2009 Nifer y blynyddoedd** | 2008 Nifer y blynyddoedd | 2007 Nifer y blynyddoedd |
|---|---|---|---|
| Ymddeol heddiw | | | |
| Gwryw | **26.9** | 26.6 | 23.5 |
| Benyw | **29.6** | 29.1 | 25.7 |
| | | | |
| Ymddeol ymhen 20 mlynedd | | | |
| Gwryw | **28.9** | 28.1 | 24.5 |
| Benyw | **31.7** | 30.7 | 26.8 |

Dewiswyd y tybiaethau o ran hir oes i adlewyrchu nodweddion a phrofiad aelodau'r cynllun. Gwnaed hyn drwy addasu tablau marwolaethau safonol (PMAC07MC+0.5 a PFAC07MC+1) sy'n adlewychu ymchwil ddiweddar i brofiad marwolaethau yn y DU.

Diweddarwyd y tybiaethau demograffig o'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad actiwaraidd y cynllun ar 1 Ebrill 2007 i adlewyrchu'r tybiaethau tebygol a gaiff eu defnyddio ar gyfer prisiad actiwaraidd y cynllun ar 1 Ebrill 2010.

| **Cyfradd adennill hirdymor ddisgwyliedig (y flwyddyn)*** | **2009 %** | 2008 % |
|---|---|---|
| Ecwitïau | **8.6** | 9.3 |
| Bondiau a giltiau | **3.7** | 4.5 |
| Eiddo | **6.2** | 6.9 |
| Eitemau amgen | **8.6** | 9.3 |
| Arian parod | **4.4** | 5.1 |
| Cyfanswm y gyfradd adennill ddisgwyliedig | **6.9** | 7.9 |

* Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

### 8c ix Dadansoddiad o aelodaeth y cynllun a'i broffil aeddfedrwydd

| | **2009 Nifer** | 2008 Nifer | 2007 Nifer |
|---|---|---|---|
| Cyfranwyr | **17,774** | 18,736 | 19,974 |
| Pensiynwyr | **17,970** | 17,569 | 17,372 |
| Dibynyddion | **3,863** | 3,798 | 3,744 |
| Pensiynwyr gohiriedig | **19,137** | 18,286 | 17,723 |

Mae'r cynllun yn mynd yn fwy aeddfed gyda nifer y cyfranwyr yn lleihau ond nifer y pensiynwyr yn cynyddu. Adlewyrchir hyn hefyd yn y gostyngiad mewn llifau arian parod a ddangosir yn Nodyn 8cx.

Mae **aeddfedrwydd** cynllun yn rhoi arwydd o ofynion arian parod y cynllun ac agwedd debygol yr Ymddiriedolwyr at risg o fewn eu polisi buddsoddi. Po aeddfetaf fo cynllun, y mwyaf tebygol ydyw y bydd yr Ymddiriedolwyr yn ffafrio buddsoddiadau â risg fach.

### 8c x Llifau arian parod y Cynllun (hylifedd o ddydd i ddydd)

Yn 2009 aeth mewnlifau arian parod y cynllun pensiwn y tu hwnt i'w all-lifau arian parod, ond i raddau llai nag yn 2008. Cynyddodd cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr o 18.8% i 19.35% o 1 Gorffennaf 2008 ond gwrthbwyswyd hyn gan ostyngiad sylweddol yng nghyfraniadau'r aelodau. Hefyd, bu cynnydd mewn pensiynau a dalwyd a chyfandaliadau ar ymddeoliad sydd wedi cyfuno i leihau'r mewnlif arian parod o gymharu â 2008.

Yn 2008 aeth mewnlifau arian parod y cynllun pensiwn y tu hwnt i'w all-lifau arian parod, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr o 7.5% i 18.8% o 1 Ebrill 2007.

Yn 2007 aeth mewnlifau arian parod y cynllun pensiwn y tu hwnt i'w all-lifau arian parod, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr o 6.0% i 7.5% o 1 Ebrill 2006 a chyfradd cyfraniadau'r cyflogai o 5.5% i 6.0% o 1 Medi 2006. Roedd trosglwyddiad o £16.8miliwn i Gynllun Pensiwn Red Bee Media ar 30 Mehefin 2006 wedi ei wrthbwyso yn erbyn hyn.

| | **2009 £m** | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|---|
| Cyfraniadau (cyflogwr a chyflogai) | **196.3** | 242.9 | 163.6 |
| Incwm o fuddsoddiad | **225.2** | 225.1 | 206.4 |
| Mewnlifau arian parod | **421.5** | 468.0 | 370.0 |
| Taliadau pensiynau a throsglwyddiadau allan | **(313.1)** | (286.5) | (303.6) |
| Treuliau | **(36.9)** | (42.0) | (33.5) |
| Mewnlif arian parod net | **71.5** | 139.5 | 32.9 |

### 8ch Tâl pensiwn UK Public Service Broadcasting

Mae UK Public Service Broadcasting, yn unol â darpariaeth pensiwn y grŵp yn FRS 17, yn rhoi cyfrif am Gynllun Pensiwn y BBC fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae hyn oherwydd nad yw'n bosibl nodi cyfran UK Public Service Broadcasting o asedau na rhwymedigaethau sylfaenol y Cynllun ar sail resymol a chyson.

Mae gwariant UK Public Service Broadcasting o £161.0miliwn (2008: £165.0miliwn) felly'n cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd trefniant aberthu cyflog ar 1 Mehefin 2008 ar gyfer aelodau Hen Fuddiannau a Buddiannau Newydd. Mae'r cyfraniadau a dalwyd drwy'r trefniant aberthu cyflog wedi cael eu trin fel cyfraniadau cyflogwr.

Ni chafodd unrhyw gyfraniadau eu rhagdalu na'u cronni ar 31 Mawrth 2009 (2008: dim). Seilir y cyfraniadau ar yr anghenion cyllido a nodwyd o'r prisiad actiwaraidd ac felly gallant amrywio o'r gost sylfaenol ar ôl ystyried ffactorau megis y warged actiwaraidd.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 9 TRETHIANT

### 9a Dadansoddiad o'r taliadau a godwyd am y flwyddyn

Roedd y tâl a godwyd am y flwyddyn, yn seiliedig ar y gyfradd treth gorfforaeth o 28% (2008 30%), yn cynnwys:

| | Nodyn | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| **Treth gyfredol** | | | |
| Treth gorfforaeth y DU | | **22.5** | 16.8 |
| Didynnu: rhyddhad treth dwbl | | **(11.1)** | (5.3) |
| | | **11.4** | 11.5 |
| Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol | | **3.4** | – |
| | | **14.8** | 11.5 |
| Treth dramor | | **10.1** | 8.4 |
| Cyfran o dreth partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **16.0** | 14.3 |
| Cyfanswm y dreth gyfredol | 9b | **40.9** | 34.2 |
| **Treth ohiriedig** | | | |
| Tarddiad a gwrthdroad y gwahaniaethau amseru | | **(12.0)** | 6.4 |
| Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol | | **(4.9)** | (3.3) |
| Cyfanswm y (credyd)/tâl treth ohiriedig | 9ch | **(16.9)** | 3.1 |
| **Cyfanswm y tâl a godwyd am y flwyddyn** | | **24.0** | 37.3 |

### 9b Ffactorau sy'n effeithio ar y tâl treth a godir

Dim ond ar y gweithgareddau hynny a gyflawnir gyda'r bwriad o wneud elw ac ar rent, breindaliadau a llog derbyniadwy y mae'r grŵp yn agored i drethiant. Felly nid yw'r BBC yn cael rhyddhad ar gyfer ei holl wariant ac felly mae'r dreth a asesir am y flwyddyn yn wahanol i gyfradd safonol treth gorfforaeth y DU. Esbonnir y gwahaniaethau isod:

| | Nodyn | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Gwarged cyn treth | | **278.2** | 139.5 |
| Gwarged cyn treth wedi'i lluosi â chyfradd safonol treth gorfforaeth y DU o 28% (2008: 30%) | | **77.9** | 41.9 |
| **Effeithiau** | | | |
| Incwm allanol trethadwy gwasanaethau cyhoeddus | | **6.6** | 4.5 |
| (Incwm Trwydded Nad yw'n Drethadwy)/Costau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwrthodadwy | | **(37.3)** | 30.7 |
| Elfen anariannol tâl pensiwn grŵp net | | **(32.9)** | (44.1) |
| *Gweithgareddau masnachol* | | | |
| Incwm nad yw'n drethadwy | | **–** | (2.9) |
| Gwariant a wrthodwyd | | **6.9** | 6.7 |
| Trethiant y DU ar ddifidendau tramor mewnol y grŵp | | **–** | 1.0 |
| Dibrisiant sy'n fwy (llai) na lwfansau cyfalaf | | **6.5** | (1.4) |
| Gwahaniaeth treth o ran enillion tramor | | **3.0** | 2.8 |
| Gwahaniaethau amseru eraill | | **5.0** | (5.0) |
| Arall – Partneriaethau cyswllt | | **1.8** | – |
| Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol | | **3.4** | – |
| Tâl treth presennol a godir am y flwyddyn | 9a | **40.9** | 34.2 |

Effaith colled ar dreth o werthu a therfynu (Nodyn 5) gweithrediadau ac elw o waredu asedau sefydlog (Nodyn 6) yw £dim (2008: £dim).

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 9c Ffactorau a all effeithio ar daliadau treth a godir yn y dyfodol

Mae'r grŵp yn rhagweld na fydd y tâl treth a godir yn y dyfodol yn newid yn sylweddol gan fod yr holl incwm o ffi'r drwydded yn ddi-dreth.

## 9ch Dadansoddiad o dreth ohiriedig

Yn unol ag FRS 19 'Deferred Tax', mae'r grŵp yn darparu ar gyfer pob rhwymedigaeth treth ohiriedig yn llawn llai asedau treth ohiriedig sydd ar gael ar 28% (2008: 28%).

| **Symudiad yn yr ased treth ohiriedig yn y flwyddyn** | Nodyn | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Ased net ar ddechrau'r flwyddyn | | **(6.1)** | (9.6) |
| Addasiad cyfnewid | | **(5.6)** | 1.8 |
| (Credyd)/tâl treth ohiriedig | 9a | **(16.9)** | 3.1 |
| Caffaelwyd wrth gaffael buddsoddiad | | **1.3** | (1.4) |
| Colledion treth tramor y flwyddyn gyfredol wedi eu hailddosbarthu fel treth gyfredol | | **(0.7)** | – |
| Ased net ar ddiwedd y flwyddyn | | **(26.6)** | (6.1) |

| **Dadansoddiad o'r (ased)/darpariaeth treth ohiriedig** | Nodyn | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Lwfansau cyfalaf (arafedig)/cyflymedig | | **(5.6)** | 8.8 |
| Gwahaniaethau amseru eraill | | **(2.7)** | (0.1) |
| Darpariaeth treth ohiriedig | 17 | **–** | 8.7 |
| Ased treth ohiriedig | | **(8.3)** | – |
| Gwahaniaethau amseru eraill | | **(18.3)** | (14.8) |
| Ased treth ohiriedig net ar ddiwedd y flwyddyn | 15 | **(26.6)** | (6.1) |

## 10 ASEDAU SEFYDLOG ANNIRIAETHOL

| | Nodyn | **Ewyllys da £m** |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | | **94.5** |
| Ychwanegiadau | 19 | **10.6** |
| Addasiad cyfnewid | | **2.9** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | | **108.0** |
| **Amorteiddio** | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | | **7.2** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | | **5.1** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | | **12.3** |
| **Gwerth llyfr net** | | |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | | **95.7** |
| Ar 31 Mawrth 2008 | | **87.3** |

**Ewyllys da** yw'r gwahaniaeth rhwng y gwerth a dalwyd am fusnes a gwerth teg ei asedau net. Mae'n cynrychioli'r premiwm y mae'r prynwr yn barod i'w dalu am y busnes.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 11 ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

### 11a Grŵp

| | Tir ac adeiladau £m | Offer a pheiriannau £m | Dodrefn a ffitiadau £m | Asedau yn cael eu hadeiladu £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 439.3 | 1,086.7 | 162.5 | 71.2 | **1,759.7** |
| Ychwanegiadau | 9.8 | 64.3 | 9.1 | 64.4 | **147.6** |
| Dygwyd i wasanaeth | 1.1 | 27.1 | 3.0 | (31.2) | **–** |
| Gwarediadau | (9.3) | (110.2) | (9.2) | (2.1) | **(130.8)** |
| Trosglwyddiadau | – | 8.2 | (8.2) | – | **–** |
| Addasiadau cyfnewid | 0.9 | 2.9 | 0.5 | – | **4.3** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | 441.8 | 1,079.0 | 157.7 | 102.3 | **1,780.8** |
| **Dibrisio** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 260.8 | 674.6 | 76.4 | – | **1,011.8** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 12.1 | 100.8 | 15.8 | – | **128.7** |
| Gwarediadau | (3.1) | (96.9) | (5.2) | – | **(105.2)** |
| Trosglwyddiadau | – | 3.2 | (3.2) | – | **–** |
| Lleihad mewn gwerth | 3.7 | 9.8 | 0.8 | – | **14.3** |
| Addasiadau cyfnewid | 0.7 | 2.1 | 0.4 | – | **3.2** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | 274.2 | 693.6 | 85.0 | – | **1,052.8** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | 167.6 | 385.4 | 72.7 | 102.3 | **728.0** |
| Ar 31 Mawrth 2008 | 178.5 | 412.1 | 86.1 | 71.2 | **747.9** |

Datgenir offer a pheiriannau a dodrefn a ffitiadau BBC World Service a BBC Monitoring ar gost adnewyddu gyfredol amcangyfrifedig yr asedau, ar 1 Ebrill 1996, wedi'i haddasu ar gyfer potensial y gwasanaeth sy'n weddill, neu'r gost os cânt eu caffael ar ôl hynny, llai dibrisiant cronedig.

Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol (2008: dim gwahaniaeth sylweddol) rhwng gwerth llyfr net yr asedau sefydlog diriaethol hyn a'u gwerth fel y'i pennwyd ar sail cost hanesyddol. Mae gan yr asedau a ailbrisiwyd yn 1996 fywyd defnyddiol yn weddill o flwyddyn.

Mae'r tâl lleihad mewn gwerth a godir am y flwyddyn yn cynnwys dibrisio asedau yn BBC Studios and Post Production Limited sef £6.4miliwn, £4.9miliwn yn BBC Worldwide Limited y mae £3.4miliwn ohono yn ymwneud â Prosiect Kangaroo (Nodyn 5), a £3.0miliwn yn Public Service Broadcasting ar gyfer lleihau gwerth tir ac adeiladau Woodlands.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 11b UK Public Service Broadcasting

| | Tir ac adeiladau £m | Offer a pheiriannau £m | Dodrefn a ffitiadau £m | Asedau yn cael eu hadeiladu £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 365.8 | 647.5 | 132.1 | 46.4 | **1,191.8** |
| Ychwanegiadau | 1.9 | 24.6 | 4.9 | 49.7 | **81.1** |
| Dygwyd i wasanaeth | 1.0 | 13.7 | 2.0 | (16.7) | **–** |
| Gwarediadau | (7.3) | (46.3) | (8.1) | – | **(61.7)** |
| Trosglwyddiadau | – | 8.2 | (8.2) | – | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | 361.4 | 647.7 | 122.7 | 79.4 | **1,211.2** |
| **Dibrisio** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 213.1 | 393.2 | 62.1 | – | **668.4** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 8.2 | 58.1 | 11.8 | – | **78.1** |
| Gwarediadau | (2.5) | (41.4) | (4.5) | – | **(48.4)** |
| Lleihad mewn gwerth | 3.0 | – | – | – | **3.0** |
| Trosglwyddiadau | – | 3.2 | (3.2) | – | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | 221.8 | 413.1 | 66.2 | – | **701.1** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | 139.6 | 234.6 | 56.5 | 79.4 | **510.1** |
| Ar 31 Mawrth 2008 | 152.7 | 254.3 | 70.0 | 46.4 | 523.4 |

## 11c Tir ac adeiladau ar werth llyfr net

| | **Grŵp 2009 £m** | Grŵp 2008 £m | **UK Public Service Broadcasting 2009 £m** | UK Public Service Broadcasting 2008 £m |
|---|---|---|---|---|
| Tir heb golli gwerth | **17.1** | 16.5 | **16.8** | 16.5 |
| Adeiladau rhydd-ddaliadol | **87.5** | 98.5 | **80.2** | 88.7 |
| Cyfanswm y rhydd-ddaliadau | **104.6** | 115.0 | **97.0** | 105.2 |
| Prydlesau hir | **21.0** | 27.3 | **21.0** | 24.6 |
| Prydlesau byr | **42.0** | 36.2 | **21.6** | 22.9 |
| Cyfanswm | **167.6** | 178.5 | **139.6** | 152.7 |

## 11ch Prydlesau cyllid

Asedau a ddelir o dan brydlesau cyllid, wedi'u cyfalafu a'u cynnwys mewn asedau sefydlog diriaethol:

| | **Grŵp 2009 £m** | Grŵp 2008 £m | **UK Public Service Broadcasting 2009 £m** | UK Public Service Broadcasting 2008 £m |
|---|---|---|---|---|
| Cost | **21.5** | 24.4 | **16.4** | 19.9 |
| Dibrisiant cronedig | **(15.2)** | (15.0) | **(12.2)** | (13.1) |
| **Gwerth llyfr net** | **6.3** | 9.4 | **4.2** | 6.8 |

Mae'r prydlesau cyllid yn ymwneud yn bennaf ag offer TG.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 12 BUDDSODDI MEWN RHAGLENNI I'W GWERTHU YN Y DYFODOL

| | Nodyn | Grŵp £m |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | | **173.9** |
| Addasiad cyfnewid | | **18.5** |
| Ychwanegiadau | | **100.8** |
| Dileu mewn perthynas â rhaglenni wedi eu hamorteiddio'n llwyr | | **(60.2)** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | | **233.0** |
| **Amorteiddio** | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | | **88.8** |
| Addasiad cyfnewid | | **17.7** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | | **87.0** |
| Dileu mewn perthynas â rhaglenni wedi eu hamorteiddio'n llwyr | | **(60.2)** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | | **133.3** |
| **Gwerth llyfr net** | | |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | | **99.7** |
| Ar 31 Mawrth 2008 | | **85.1** |

Mae buddsoddiad gan BBC Worldwide mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol yn ymwneud â rhaglenni a ddarperir gan y BBC a chynhyrchwyr allanol. Mae ychwanegiadau yn cynnwys £84.2miliwn o fuddsoddiad uniongyrchol yn rhaglenni'r BBC (2008: £75.1miliwn).

## 13 BUDDSODDIADAU A BUDDIANNAU ERAILL

Darperir manylion am gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt o bwys ynghyd â phrif is-gwmnïau, yn cynnwys eu gweithgareddau, yn Nodyn 29.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 13a Symudiadau yn ystod y flwyddyn i'r Grŵp

| | Nodyn | Buddiannau mewn cyd-fentrau £m | Buddiannau mewn partneriaethau cyswllt £m | Buddsoddiadau masnach £m | **Cyfanswm y Grŵp £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | | 29.5 | (2.7) | 2.7 | **29.5** |
| Ychwanegiadau | 13ch | 6.8 | 0.4 | – | **7.2** |
| Darpariaeth | | – | – | (2.7) | **(2.7)** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | | 36.3 | (2.3) | – | **34.0** |
| **Ewyllys da** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | | 19.6 | 4.0 | – | **23.6** |
| Ychwanegiadau | 13ch, 19b | 0.1 | 9.9 | – | **10.0** |
| Amorteiddio a lleihad mewn gwerth | | (3.4) | (0.9) | – | **(4.3)** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | | 16.3 | 13.0 | – | **29.3** |
| **Cyfran y cronfeydd ôl-gaffael wrth gefn** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | | 16.5 | 2.5 | – | **19.0** |
| Addasiad cyfnewid | | 2.0 | (0.3) | – | **1.7** |
| Cyfran yr enillion/(colledion) ar ôl trethiant | | 36.3 | (6.3) | – | **30.0** |
| Darpariaeth ar gyfer treth nas gwireddwyd | | (3.5) | (0.5) | – | **(4.0)** |
| Dilead UK.TV o gronfeydd cyn-gaffael wrth gefn | | – | (1.3) | – | **(1.3)** |
| Lleihad mewn gwerth asedau | | (4.2) | – | – | **(4.2)** |
| Addasiad cronfeydd wrth gefn UK Gold Holding Limited | 13d | (19.4) | – | – | **(19.4)** |
| Difidendau a dderbyniwyd | | (33.4) | (3.6) | – | **(37.0)** |
| Addasiad i adlewyrchu ymrwymiad gwirioneddol* | | 1.6 | 10.0 | – | **11.6** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | | (4.1) | 0.5 | – | **(3.6)** |
| **Benthyciadau derbyniadwy o gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | | – | – | – | **–** |
| Ychwanegiadau | | 5.7 | – | – | **5.7** |
| Darpariaeth | | (5.7) | – | – | **(5.7)** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | | – | – | – | **–** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | | 48.5 | 11.2 | – | **59.7** |
| Ar 31 Mawrth 2008 | | 65.6 | 3.8 | 2.7 | **72.1** |
| **Cyflwynir y gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2009 o fewn:** | | | | | |
| Buddiannau mewn cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt | | 68.8 | 11.2 | – | **80.0** |
| Darpariaethau | | (20.3) | – | – | **(20.3)** |
| | | 48.5 | 11.2 | – | **59.7** |

* Yn unol â thelerau'r cytundebau â'r buddsoddwyr eraill mewn rhai o gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt y grŵp, nid oes dyletswydd ar y grŵp i ariannu colledion y mae'r cyd-fentrau a'r partneriaethau cyswllt hynny yn mynd iddynt nac i ad-dalu eu rhwymedigaethau net. O ganlyniad nid yw'r grŵp yn rhannu yng ngholledion yr endidau perthnasol. Roedd cyfran y rhwymedigaethau net nas cydnabuwyd yn cynnwys:
– Cyd-fentrau: £22.8miliwn (2008: £42.2miliwn – wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu sefyllfa statudol derfynol UKGH gweler Nodyn 13d)
– Partneriaethau cyswllt: £191.4miliwn (2008: £107.9miliwn).

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 13b Cyfran y grŵp o asedau a gwarged cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt

| | Cyfran y grŵp o gyd-fentrau | | Cyfran y grŵp o bartneriaethau cyswllt | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2009 £m** | 2008 £m | **2009 £m** | 2008 £m | **2009 £m** | 2008 £m |
| Asedau cyfredol | **165.1** | 178.1 | **39.0** | 46.7 | **204.1** | 224.8 |
| Asedau anghyfredol | **44.3** | 39.3 | **31.8** | 12.9 | **76.1** | 52.2 |
| Cyfanswm yr asedau | **209.4** | 217.4 | **70.8** | 59.6 | **280.2** | 277.0 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | **(96.1)** | (110.0) | **(38.5)** | (41.5) | **(134.6)** | (151.5) |
| Rhwymedigaethau anghyfredol | **(87.6)** | (84.0) | **(212.5)** | (122.2) | **(300.1)** | (206.2) |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau | **(183.7)** | (194.0) | **(251.0)** | (163.7) | **(434.7)** | (357.7) |
| **Addasiad i adlewyrchu rhwymedigaeth wirioneddol** | **22.8** | 42.2 | **191.4** | 107.9 | **214.2** | 150.1 |
| **Cyfanswm y gwerth llyfr net** | **48.5** | 65.6 | **11.2** | 3.8 | **59.7** | 69.4 |
| **Cyflwynir y gwerth llyfr net o fewn:** | | | | | | |
| Buddiannau mewn cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt | **68.8** | 65.6 | **11.2** | 3.8 | **80.0** | 69.4 |
| Darpariaethau | **(20.3)** | – | **–** | – | **(20.3)** | – |
| | **48.5** | 65.6 | **11.2** | 3.8 | **59.7** | 69.4 |
| **Incwm** | **300.5** | 274.6 | **57.8** | 48.8 | **358.3** | 323.4 |
| **Gwarged weithredu am y flwyddyn** | **44.5** | 58.8 | **4.8** | 1.5 | **49.3** | 60.3 |

Diweddarwyd y cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol i adlewyrchu sefyllfa statudol derfynol UKGH (gweler nodyn 13d).

Mae rhai o gyflogeion 2entertain yn rhan o Gynllun Pensiwn Grŵp Woolworths a reolir gan y Woolworths Group Pension Trust Limited. Yn dilyn gweinyddu Woolworths Group plc, crisialodd rhwymedigaeth yn 2entertain o ran y cynllun pensiwn hwn. Mae cyfran y grŵp o ganlyniadau cyd-fentrau yn cynnwys tâl o £7.5miliwn a godwyd mewn perthynas â'r rhwymedigaeth pensiwn hon, sef 60% o'r draul eithriadol weithredu a gofnodwyd gan 2entertain. Rhoddwyd cyfrif hefyd o ran ecwiti ar gyfer cyfran y grŵp o'r credyd treth cyfatebol, gan arwain at effaith net o £5.5miliwn ar ganlyniadau'r grŵp ar ôl trethiant.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 13c Datgelu o ran cyfran y grŵp o gyd-fentrau sylweddol

Yn unol ag FRS 9 'Associates and Joint Ventures' mae 2entertain Limited yn bodloni'r meini prawf ar gyfer datgeliadau ychwanegol:

| | 2entertain Limited | |
|---|---|---|
| Cyfran y grŵp o: | **2009 £m** | 2008 £m |
| **Trosiant** | **155.6** | 146.8 |
| Gwarged cyn trethiant | **25.6** | 44.0 |
| Trethiant | **(7.7)** | (12.1) |
| Gwarged ar ôl trethiant | **17.9** | 31.9 |
| Amorteiddio ewyllys da | **(1.5)** | (1.5) |
| **Cyfran o warged cyd-fentrau ar ôl trethiant** | **16.4** | 30.4 |
| Asedau sefydlog | **9.5** | 8.8 |
| Asedau cyfredol | **69.6** | 74.2 |
| Asedau gros | **79.1** | 83.0 |
| Rhwymedigaethau llai na blwyddyn | **(59.7)** | (72.5) |
| Rhwymedigaethau mwy na blwyddyn | **–** | – |
| Rhwymedigaethau gros | **(59.7)** | (72.5) |
| Ewyllys da | **12.6** | 14.1 |
| **Gwerth llyfr net** | **32.0** | 24.6 |

Mae cyfran y grŵp o ganlyniadau 2entertain Limited yn cynnwys tâl o £7.5miliwn a godir a chredyd treth cyfatebol, gan arwain at dâl net o £5.5miliwn a godir mewn perthynas â rhwymedigaeth pensiwn yn dilyn gweinyddu Woolworths Group plc.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 13ch Ychwanegiadau i gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt

Mae'r ychwanegiadau mewn cyd-fentrau yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r buddsoddiad mewn UK VoD LLP a'r Park Publishing Partnership.

Mae'r ychwanegiadau mewn partneriaethau cyswllt yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chaffael cyfranddaliadau lleiafrifol yn Clerkenwell Films Limited, Hardy Pictures Limited, Plain Vanilla Productions LLP, Big Talk Productions Limited, Baby Cow Productions Limited, Sprout Pictures (TV) Limited a Temple Street Productions Inc. Yn ystod y flwyddyn, caffaelodd y grŵp yr 80% sy'n weddill o'r cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd o UK TV Pty Limited ('UK.TV'). Roedd gan y grŵp fuddiant o 20% yn flaenorol yn UK.TV (nodyn 19a).

## 13d UK Gold Holdings Limited (UKGH)

Mae'r grŵp o dan arweiniad UK Gold Holdings Limited (UKGH) wedi bod yn fwyfwy proffidiol ers ei ffurfio yn 1997 ond mae ganddo rwymedigaethau net a ddeilliodd o ewyllys da caffael a ddilëwyd yn erbyn cronfeydd wrth gefn yn 1997. Mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw'r grŵp wedi cydnabod cyfran o'r rhwymedigaethau net hyn ond yn hytrach mae wedi cofnodi difidendau a dderbyniwyd, gan nad oes gan y grŵp unrhyw ddyletswydd i ariannu colledion y mae'r endid wedi mynd iddynt nac i ad-dalu ei rwymedigaethau net. Mae'r difidendau hyn wedi eu brasamcanu yn unol â chyfran y grŵp o'r elw gweithredu. Yn y flwyddyn gyfredol, mae'r grŵp wedi dechrau cyfrifyddu ecwiti gan nad ystyrir mwyach bod difidendau a dderbyniwyd yn y flwyddyn gyfredol yn adlewyrchiad teg o gyfran y grŵp o elw gweithredu. Mae hyn am fod dosbarthiadau UKGH yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 yn sylweddol is na'i elw gweithredu. Mae cyfran y grŵp o rwymedigaethau net a gydnabuwyd (nad ydynt yn cynrychioli colledion gweithredu) ar 1 Ebrill 2008 wedi ei chofnodi yn y Datganiad Cyfunol o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig, gan arwain at addasiad cronfeydd wrth gefn o £19.4miliwn. Mae cyfran elw gweithredu o £15.0miliwn wedi ei chydnabod yn y cyfrif elw a cholled (2008: difidendau o £6.2miliwn wedi eu credydu i'r elw gweithredu).

## 13dd Symudiadau yn ystod y flwyddyn ar gyfer UK Public Service Broadcasting

| | Buddiant yn asedau net BBC World Service a BBC Monitoring £m | Buddiannau mewn is-gwmnïau £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2008 | 170.7 | 125.3 | **296.0** |
| Gwarged am y flwyddyn | 0.4 | – | **0.4** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | 171.1 | 125.3 | **296.4** |

## 14 STOCIAU

| | **Grŵp 2009 £m** | Grŵp 2008 £m | **UK Public Service Broadcasting 2009 £m** | UK Public Service Broadcasting 2008 £m |
|---|---|---|---|---|
| Deunyddiau crai | **2.9** | 2.0 | **0.1** | 0.2 |
| Gwaith yn mynd rhagddo | | | | |
| – rhaglenni a gynhyrchwyd yn fewnol | **269.8** | 281.5 | **269.8** | 281.5 |
| – llyfrau, llyfrau sain a DVDs | **6.1** | 5.9 | **–** | – |
| Nwyddau gorffenedig | | | | |
| – rhaglenni a ffilmiau a gaffaelwyd | **127.4** | 118.7 | **106.5** | 108.7 |
| – rhaglenni a gynhyrchwyd yn fewnol | **74.1** | 79.8 | **74.1** | 79.8 |
| – llyfrau, llyfrau sain a DVDs | **10.7** | 12.2 | **–** | – |
| Cyfanswm | **491.0** | 500.1 | **450.5** | 470.2 |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 15 DYLEDWYR

| | Nodyn | Grŵp 2009 £m | Grŵp 2008 £m | UK Public Service Broadcasting 2009 £m | UK Public Service Broadcasting 2008 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Derbyniadwy o fewn blwyddyn** | | | | | |
| Dyledwyr masnach | | **143.8** | 138.7 | **17.2** | 17.2 |
| Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon – dyledwyr ffi'r drwydded | | **384.6** | 368.4 | **384.6** | 368.4 |
| Symiau sy'n ddyledus gan is-gwmnïau | | **–** | – | **91.1** | 71.7 |
| Symiau sy'n ddyledus gan bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **41.4** | 33.1 | **0.7** | 0.2 |
| TAW adenilladwy | | **30.8** | 26.2 | **28.9** | 23.6 |
| Ased treth ohiriedig | 9ch | **4.0** | 3.0 | **–** | – |
| Dyledwyr eraill | | **19.7** | 13.1 | **7.6** | 10.2 |
| Rhagdaliadau | | **196.1** | 209.8 | **151.1** | 164.0 |
| Asedau ariannol deilliadol | 23c | **10.9** | 2.6 | **–** | – |
| Cyfanswm y dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | **831.3** | 794.9 | **681.2** | 655.3 |
| **Derbyniadwy ar ôl mwy na blwyddyn** | | | | | |
| Ased treth ohiriedig | 9ch | **22.6** | 11.8 | – | – |
| Dyledwyr eraill | | **6.6** | 6.2 | **0.2** | 0.2 |
| Symiau sy'n ddyledus i gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt | | **2.8** | – | – | – |
| Rhagdaliadau | | **78.0** | 29.5 | **77.2** | 20.9 |
| | | **110.0** | 47.5 | **77.4** | 21.1 |
| Asedau ariannol deilliadol | 23c | **12.2** | 2.6 | **–** | – |
| Cyfanswm y dyledwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | **122.2** | 50.1 | **77.4** | 21.1 |
| **Cyfanswm** | | **953.5** | 845.0 | **758.6** | 676.4 |

**Dyledwyr ffi'r drwydded** yw symiau sy'n ddyledus o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er bod incwm ffi'r drwydded yn cynrychioli gwerth trwyddedau a roddwyd (a gydnabyddir pan roddir trwydded i dalwr ffi'r drwydded), mae'r arian parod mewn perthynas â'r trwyddedau hyn yn cael ei dalu i'r BBC gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn hytrach na chael ei dderbyn yn uniongyrchol gan dalwr ffi'r drwydded. O ganlyniad mae'r dyledwr ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli'r trwyddedau a roddwyd na thalwyd arian parod yn llawn ar eu cyfer eto i'r BBC.

## 16 CREDYDWYR

### 16a Polisi talu'n brydlon

Polisi'r BBC yw cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Talu Gwell mewn perthynas â thalu cyflenwyr, ar yr amod bod y cyflenwr yn cydymffurfio â thelerau ac amodau perthnasol eu contractau. Mae'r BBC yn monitro cydymffurfiaeth yn erbyn telerau'r cod hwn. Gwneir taliadau ar gyfer caffaeliadau rhaglenni yn unol â thelerau cytundebol. Nifer dyddiau credydwyr y grŵp a oedd yn ddyledus mewn perthynas â chredydwyr masnach ar 31 Mawrth 2009 oedd 32 diwrnod (2008: 39 diwrnod).

Mae credydwyr gweddilliol a chostau cysylltiedig wedi cael eu heithrio at ddibenion y cyfrifiad hwn, gan eu bod yn ymwneud â thaliadau i artistiaid a chyfranwyr heblaw credydwyr masnach.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 16b Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | Nodyn | **Grŵp 2009 £m** | Grŵp 2008 £m | **UK Public Service Broadcasting 2009 £m** | UK Public Service Broadcasting 2008 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyciadau banc a benthyciadau eraill** | | | | | |
| Benthyciadau banc a gorddrafftiau | 21, 23 | **2.5** | 58.6 | **–** | – |
| Nodiadau benthyca nas gwarantwyd | 21, 23 | **3.3** | 0.7 | **–** | – |
| | | **5.8** | 59.3 | **–** | – |
| **Credydwyr masnach** | | | | | |
| Credydwyr rhaglenni | | **60.7** | 68.4 | **60.7** | 68.0 |
| Caffaeliadau rhaglenni | | **49.8** | 47.3 | **49.7** | 47.1 |
| Cyflogau | | **59.6** | 68.9 | **30.8** | 42.3 |
| Taliadau hawlfraint gweddilliol | | **38.5** | 35.1 | **–** | – |
| Credydwyr masnach eraill | | **170.8** | 211.3 | **104.6** | 135.7 |
| | | **379.4** | 431.0 | **245.8** | 293.1 |
| **Credydwyr eraill** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus i is-gwmnïau | | **–** | – | **34.9** | 37.2 |
| Symiau sy'n ddyledus i gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt | | **7.1** | – | **–** | – |
| Treth gorfforaeth | | **15.4** | 12.7 | **3.1** | 4.3 |
| Trethiant arall a nawdd cymdeithasol | | **27.4** | 28.1 | **24.9** | 25.8 |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid | 23b | **4.7** | 5.8 | **2.9** | 4.3 |
| Arall * | | **46.2** | 46.4 | **6.9** | 12.1 |
| | | **100.8** | 93.0 | **72.7** | 83.7 |
| **Croniadau ac incwm gohiriedig** | | | | | |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | | **372.4** | 405.6 | **271.8** | 311.3 |
| Adneuon stampiau cynilo trwydded a rhandaliadau debyd uniongyrchol | | **71.5** | 73.5 | **71.5** | 73.5 |
| | | **443.9** | 479.1 | **343.3** | 384.8 |
| Rhwymedigaethau ariannol deilliadol | 23c | **22.5** | 2.3 | **–** | – |
| **Cyfanswm** | | **952.4** | 1,064.7 | **661.8** | 761.6 |

* Mae credydwyr eraill yn cynnwys rhwymedigaeth o £32.3miliwn (2008: £31.0miliwn) mewn perthynas ag opsiwn gwerthu arferadwy gan randdeiliaid lleiafrifol. Mae'r cynnydd yn y rhwymedigaeth ers y dyddiad diwedd y flwyddyn blaenorol o ganlyniad i symudiadau yn y gyfradd gyfnewid, gan fod y rhwymedigaeth mewn doleri Awstralia.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 16c Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | Nodyn | **Grŵp 2009 £m** | Grŵp 2008 £m | **UK Public Service Broadcasting 2009 £m** | UK Public Service Broadcasting 2008 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyciadau banc a benthyciadau eraill** | 21, 23 | **268.0** | 140.1 | **–** | – |
| **Credydwyr eraill** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus i is-gwmnïau | | **–** | – | **7.3** | 9.5 |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid | 23b | **16.9** | 22.3 | **1.3** | 2.7 |
| Arall | | **7.9** | 9.6 | **8.0** | 9.7 |
| | | **24.8** | 31.9 | **16.6** | 21.9 |
| Rhwymedigaethau ariannol deilliadol | 23c | **21.8** | 0.6 | **–** | – |
| **Cyfanswm** | | **314.6** | 172.6 | **16.6** | 21.9 |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 17 DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU

| Grŵp | Nodyn | Ar 1 Ebrill 2008 £m | Tâl a godwyd am y flwyddyn £m | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £m | Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn £m | Dad-ddirwyn disgownt £m | **Ar 31 Mawrth 2009 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffi'r drwydded | | 20.6 | 21.2 | (20.5) | (0.1) | – | **21.2** |
| Ailstrwythuro | | 120.0 | 44.1 | (67.4) | (3.8) | 2.7 | **95.6** |
| Ymgyfreitha ac yswiriant | | 13.8 | 2.9 | (1.7) | (2.4) | – | **12.6** |
| Eiddo | | 16.4 | 4.1 | (0.9) | – | – | **19.6** |
| Dod â BBC jam i ben | 5 | 1.5 | 0.1 | (0.9) | (0.4) | – | **0.3** |
| Cyfran o rwymedigaethau net cyd-fentrau | | – | 20.3 | – | – | – | **20.3** |
| Arall | | 1.3 | 1.4 | (0.2) | (0.3) | – | **2.2** |
| | | 173.6 | 94.1 | (91.6) | (7.0) | 2.7 | **171.8** |
| Treth ohiriedig | 9ch | 8.7 | – | (0.1) | (8.6) | – | – |
| **Cyfanswm** | | 182.3 | 94.1 | (91.7) | (15.6) | 2.7 | **171.8** |

Gwneir darpariaethau ffi'r drwydded ar gyfer y lefel ddisgwyliedig o ad-daliadau (arian sy'n ad-daladwy ar ran y drwydded sydd heb ddarfod lle nad oes angen y drwydded mwyach) a dirymiadau (lle na dderbynnir unrhyw arian mewn perthynas â thrwydded a werthir). Disgwylir i ddarpariaethau ffi'r drwydded gael eu defnyddio neu eu rhyddhau o fewn blwyddyn yn unol â natur flynyddol ffi'r drwydded ac maent yn seiliedig ar ad-daliadau cyfartalog hanesyddol a dirymiadau wedi eu haddasu ar gyfer twf mewn nifer a phrisiau gwerthiannau.

Mae'r ddarpariaeth ailstrwythuro yn cynnwys tâl net a godir am y flwyddyn o £29.9miliwn (2008: £99.8miliwn) ar gyfer costau diswyddo eithriadol yn ymwneud â rhaglenni newid yn y BBC a chostau diswyddo aneithriadol o £10.4miliwn (2008: £11.9miliwn) fel Nodyn 4c. Mae'r rhaglen Gwelliant Parhaus yn rhaglen pum mlynedd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd blynyddol a fydd yn dod i ben yn 2012/13.

Mae darpariaethau ymgyfreitha ac yswiriant yn ymwneud â hunanyswiriant ac yswiriant sy'n gysylltiedig â chynhyrchu yn seiliedig ar brofiad blaenorol yn ogystal â hawliadau cyfreithiol posibl. Disgwylir i ddarpariaethau yswiriant gael eu defnyddio yn 2009/10 a 2010/11.

Mae darpariaethau eiddo yn ymwneud â chost dychwelyd eiddo ar brydles i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y brydles. Mae gan y brydles hiraf 122 o flynyddoedd yn weddill ac wyth mlynedd yn weddill sydd gan y brydles gyffredin.

Ar 20 Mawrth 2007 daeth y Bwrdd Gweithredol, yn dilyn penderfyniad gan Ymddiriedolaeth y BBC, â BBC jam i ben, sef gwasanaeth dysgu rhyngweithiol ar-lein y BBC i blant 5 i 16 mlwydd oed. Dilynodd penderfyniad yr Ymddiriedolaeth drafodaethau helaeth â'r Llywodraeth a'r Comisiwn Ewropeaidd ar sut i fynd i'r afael â honiadau gan rai yn y diwydiant bod BBC jam yn gwneud niwed i'w buddiannau. Erys darpariaeth o £0.3miliwn (2008: £1.5miliwn) ar gyfer costau diswyddo a therfynu contractau gyda chyflenwyr cynnwys ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys nifer o falansau sy'n codi ar draws y BBC wrth gyflawni busnes yn arferol.

Mae cyfran o rwymedigaethau net cyd-fentrau yn cynrychioli'r swm a ddelir mewn darpariaethau sy'n ymwneud â chyfran y grŵp o gyd-fentrau gyda rhwymedigaethau net (gweler Nodyn 13a).

Mae treth ohiriedig bellach yn ased ac nis dangosir mwyach mewn darpariaethau.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 17 DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU parhad

| UK Public Service Broadcasting | Nodyn | Ar 1 Ebrill 2008 £m | Tâl a godwyd am y flwyddyn £m | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £m | Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn £m | Dad-ddirwyn disgownt £m | **Ar 31 Mawrth 2009 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffi'r drwydded | | 20.6 | 21.2 | (20.5) | (0.1) | – | **21.2** |
| Ailstrwythuro | | 112.7 | 17.4 | (57.7) | (3.1) | 2.7 | **72.0** |
| Ymgyfreitha ac yswiriant | | 12.2 | 1.6 | (1.5) | (1.0) | – | **11.3** |
| Eiddo | | 12.0 | 2.8 | (0.1) | – | – | **14.7** |
| Dod â BBC jam i ben | 5 | 1.5 | 0.1 | (0.9) | (0.4) | – | **0.3** |
| Arall | | 1.0 | 1.4 | (0.1) | (0.3) | – | **2.0** |
| **Cyfanswm** | | 160.0 | 44.5 | (80.8) | (4.9) | 2.7 | **121.5** |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 18 CRONFEYDD WRTH GEFN

| **Grŵp** | Nodyn | Cronfa weithredu wrth gefn ac eithrio cronfa bensiwn wrth gefn £m | Cronfa bensiwn wrth gefn £m | **Cyfanswm y gronfa weithredu wrth gefn £m** | Cronfa gyfalaf wrth gefn £m | Cronfa wrth gefn arall* £m | Cronfa ailbrisio wrth gefn £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2008 | | 206.3 | 523.3 | **729.6** | 812.3 | (31.0) | 1.6 | **1,512.5** |
| Gwahaniaethau cyfnewid | | 22.9 | | **22.9** | – | – | – | **22.9** |
| Gwarged am y flwyddyn ariannol | | 253.7 | – | **253.7** | – | – | – | **253.7** |
| Colled actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig | | – | (784.2) | **(784.2)** | – | – | – | **(784.2)** |
| Trosglwyddiad cronfa ailbrisio wrth gefn | | 0.8 | – | **0.8** | – | – | (0.8) | **–** |
| Trosglwyddiad cronfa bensiwn wrth gefn | | (117.6) | 117.6 | **–** | – | – | – | **–** |
| Cydnabuwyd wrth gaffael UK.TV ** | | (1.3) | – | **(1.3)** | – | – | – | **(1.3)** |
| Cyfran o rwymedigaethau cyd-fentrau wedi ei chydnabod | 13d | (19.4) | – | **(19.4)** | – | – | – | **(19.4)** |
| Symudiad cyfnewid tramor | | 1.3 | – | **1.3** | – | (1.3) | – | **–** |
| Trosglwyddiad cronfa gyfalaf wrth gefn | | 9.8 | – | **9.8** | (9.8) | – | – | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | | 356.5 | (143.3) | **213.2** | 802.5 | (32.3) | 0.8 | **984.2** |
| **Cynrychiolir gan:** | | | | | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol y grŵp | | 350.8 | (143.3) | **207.5** | 638.1 | (32.3) | – | **813.3** |
| Cronfeydd wrth gefn BBC World Service a BBC Monitoring | | 5.7 | – | **5.7** | 164.4 | – | 0.8 | **170.9** |
| **Cyfanswm** | | 356.5 | (143.3) | **213.2** | 802.5 | (32.3) | 0.8 | **984.2** |

* Mae cronfeydd wrth gefn eraill yn cynnwys opsiwn gwerthu o hyd at 25% o gyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd Lonely Plant, sy'n arferadwy gan y cyfranddalwyr lleiafrifol am gyfnod o hyd at 25 mis o'r dyddiad caffael sef 1 Hydref 2007.

** Cydnabuwyd addasiad o £1.3miliwn yn y Cysoniadau o symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn y BBC, sef yr enillion cronnol a gydnabuwyd gan y grŵp mewn perthynas ag UK.TV am y cyfnod pan oedd yn bartneriaeth gyswllt. Mae'r addasiad hwn yn ofynnol i adlewyrchu'r cynnydd yn y gyfran yn unol ag UK GAAP.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 18 CRONFEYDD WRTH GEFN parhad

| UK Public Service Broadcasting | Cronfa weithredu wrth gefn £m | Cronfa gyfalaf wrth gefn £m | Cronfa ailbrisio wrth gefn £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2008 | 215.3 | 812.3 | 1.6 | **1,029.2** |
| Gwarged am y flwyddyn ariannol | 219.0 | – | – | **219.0** |
| Trosglwyddiad cronfa ailbrisio wrth gefn | 0.8 | – | (0.8) | **–** |
| Trosglwyddiad cronfa gyfalaf wrth gefn | 9.8 | (9.8) | – | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2009** | **444.9** | **802.5** | **0.8** | **1,248.2** |
| **Cynrychiolir gan:** | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn UK Public Service Broadcasting | 439.2 | 638.1 | – | **1,077.3** |
| Cronfeydd wrth gefn BBC World Service a BBC Monitoring | 5.7 | 164.4 | 0.8 | **170.9** |
| **Cyfanswm** | **444.9** | **802.5** | **0.8** | **1,248.2** |

O dan FRS 10 'Goodwill and Intangible Assets' rhaid i unrhyw ewyllys da sydd newydd godi gael ei gyfalafu a'i amorteiddio dros ei fywyd defnyddiol. Fel y caniateir yn ôl y safon, mae ewyllys da sy'n codi mewn cyfnodau cyn 1999 o £6.8miliwn (2008: £6.8miliwn) yn parhau i gael ei wrthbwyso yn erbyn y gronfa weithredu wrth gefn.

Y gwahaniaethau cyfnewid cronnol ar 31 Mawrth 2009 oedd colled o £21.1miliwn (2008: ennill o £1.8miliwn) y cododd ennill o £22.9miliwn yn ystod y flwyddyn (2008: ennill o £1.0miliwn). Yn unol ag FRS 23 'The Effects of Changes in Foreign Exchange Rates', nid yw unrhyw wahaniaethau sy'n ymwneud â blynyddoedd cyn 2006 wedi eu gwahanu ac maent yn parhau o fewn y gronfa weithredu wrth gefn.

**Ariennir** UK Public Service Broadcasting, BBC World Service a BBC Monitoring o **ffynonellau gwahanol**. Yn hyn o beth, cedwir y cronfeydd wrth gefn sy'n berthnasol i BBC World Service a BBC Monitoring ar wahân i weddill y grŵp a chyfyngir eu defnydd i weithgareddau BBC World Service neu BBC Monitoring yn unig.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 19 CAFFAEL BUSNESAU

### 19a Caffael UK.TV

Ar 1 Gorffennaf 2008 caffaelodd y grŵp yr 80% sy'n weddill o gyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd UK.TV, a gofrestrwyd yn Awstralia ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth arian parod o AU$31.2miliwn (£15.1miliwn). Roedd gan y grŵp fuddiant o 20% yn flaenorol yn UK.TV.

Cyfanswm yr addasiadau a oedd yn ofynnol i werthoedd llyfr asedau a rhwymedigaethau UK.TV er mwyn cyflwyno asedau net y cwmnïau hynny ar werth teg ac yn unol â pholisïau cyfrifyddu UK GAAP y grŵp oedd £0.6miliwn. Mae'r rhain wedi eu nodi isod:

| | Gwerth llyfr* £m | Aliniadau gwerth teg a pholisi cyfrifyddu £m | **Gwerth teg £m** |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 0.1 | – | **0.1** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Stoc | 5.6 | – | **5.6** |
| Dyledwyr | 1.9 | – | **1.9** |
| Arian parod | 1.9 | – | **1.9** |
| Asedau cyfredol eraill | 0.1 | – | **0.1** |
| **Cyfanswm yr asedau** | 9.6 | – | **9.6** |
| **Rhwymedigaethau** | | | |
| Trethiant | | | |
| – Cyfredol | (0.1) | – | **(0.1)** |
| – Gohiriedig | (1.3) | – | **(1.3)** |
| Credydwyr | (3.1) | (0.6) | **(3.7)** |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau** | (4.5) | (0.6) | **(5.1)** |
| **Asedau net a gaffaelwyd** | 5.1 | (0.6) | **4.5** |
| Ewyllys da | | | **10.6** |
| **Cydnabyddiaeth bwrcasu a chostau caffael** | | | **15.1** |

* Cymerwyd gwerthoedd llyfr yr asedau a'r rhwymedigaethau o gyfrifon rheoli UK.TV ar 1 Gorffennaf 2008 (y dyddiad caffael) ar y cyfraddau cyfnewid gwirioneddol a ddefnyddiwyd i setlo'r gydnabyddiaeth ar y dyddiad hwnnw.

** Mae'r addasiadau rhwng gwerth llyfr a gwerth teg yn adlewyrchu ailddatgan asedau a rhwymedigaethau o bolisïau cyfrifyddu UK.TV i bolisïau cyfrifyddu'r grŵp.

Amorteiddir ewyllys da dros ei fywyd economaidd defnyddiol amcangyfrifedig o 20 mlynedd.

Yn ei flwyddyn ariannol olaf hyd at 30 Mehefin 2008, gwnaeth UK.TV elw ar ôl treth o AU$6.6miliwn. Cofnodwyd addasiad o £1.3miliwn yn y cysoniad o symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn y BBC, sef yr enillion cronnol a gofnodwyd gan y grŵp mewn perthynas ag UK.TV am y cyfnod pan oedd yn bartneriaeth gyswllt. Mae'r addasiad hwn yn ofynnol i adlewyrchu'r cynnydd yn y gyfran yn unol ag UK GAAP.

### 19b Caffaeliadau eraill

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009, caffaelodd y grŵp gyfranddaliadau lleiafrifol hefyd mewn sawl cwmni cynhyrchu, y rhoddwyd cyfrif amdanynt fel partneriaethau cyswllt neu gyd-fentrau, y mae eu hasedau net cyfunol yn gwneud cyfanswm o £0.4miliwn. Cyfanswm y gydnabyddiaeth bwrcasu a'r costau caffael oedd £10.4miliwn y mae £0.9miliwn ohono yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod. Cydnabuwyd ewyllys da o £10.0miliwn, y mae £9.9miliwn yn ymwneud â phartneriaethau cyswllt a £0.1miliwn yn ymwneud â chyd-fentrau.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 20 CYSONI DIFFYG GWEITHREDU'R GR ŴP I LIF ARIAN PAROD NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) gweithredu'r Grŵp | **114.0** | (62.2) |
| Dibrisiant, amorteiddio a lleihad mewn gwerth | **238.7** | 216.7 |
| Gwahaniaeth rhwng tâl pensiwn a godir a chyfraniad arian parod | **(0.3)** | 1.9 |
| Elw o waredu asedau sefydlog diriaethol | **(0.5)** | – |
| Colled o waredu asedau sefydlog diriaethol | **10.4** | – |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn stociau | **13.8** | (8.7) |
| Cynnydd mewn dyledwyr | **(103.0)** | (72.7) |
| (Lleihad)/cynnydd mewn credydwyr | **(34.2)** | 26.4 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau | **(23.7)** | 57.3 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **215.2** | 158.7 |

## 21 SYMUDIAD MEWN DYLED NET

### 21a Cysoni llif arian parod net i symudiad mewn dyled net

| | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y flwyddyn | **43.8** | (66.7) |
| Mewnlif arian parod net o ariannu | **(66.5)** | (93.0) |
| Newid mewn dyled net yn deillio o lifau arian parod | **(22.7)** | (159.7) |
| Gwahaniaethau cyfnewid | **4.3** | (6.7) |
| Cynnydd anariannol mewn deilliadau sy'n gysylltiedig â benthyciadau | **(4.9)** | – |
| Cynnydd anariannol mewn nodiadau benthyca | **–** | (4.3) |
| Cynnydd anariannol mewn prydlesau cyllid | **(3.2)** | (6.9) |
| **Newid mewn dyled net** | **(26.5)** | (177.6) |
| (Dyled)/cronfeydd net ar ddechrau'r flwyddyn | **(149.5)** | 28.1 |
| **Dyled net ar ddiwedd y flwyddyn** | **(176.0)** | (149.5) |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 21b Dadansoddiad o newidiadau mewn dyled net

| | Ar 1 Ebrill 2008 £m | Llifau arian parod £m | Newidiadau anariannol £m | Cyfnewid £m | **Ar 31 Mawrth 2009 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Arian parod net** | | | | | |
| Gorddrafftiau banc | – | (2.5) | – | – | **(2.5)** |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 78.0 | 42.0 | – | 4.3 | **124.3** |
| **Cronfeydd gros** | 78.0 | 39.5 | – | 4.3 | **121.8** |
| **Dyled** | | | | | |
| Benthyciadau gan drydydd partïon | (198.7) | (73.6) | – | 4.3 | **(268.0)** |
| Deilliadau sy'n gysylltiedig â benthyciadau | – | – | (4.9) | – | **(4.9)** |
| Nodiadau benthyca nas gwarantwyd | (0.7) | (2.6) | – | – | **(3.3)** |
| Prydlesau cyllid | (28.1) | 9.7 | (3.2) | – | **(21.6)** |
| **(Dyled)/cronfeydd net** | (149.5) | (27.0) | (8.1) | 8.6 | **(176.0)** |
| **Yn cynnwys:** | | | | | |
| Gwasanaeth Cyhoeddus (yn cynnwys BBC World Service a BBC Monitoring) | 16.7 | 32.9 | (3.2) | – | **46.4** |
| Busnesau Masnachol | (149.9) | (62.6) | (4.9) | 8.6 | **(208.8)** |
| Centre House Productions Limited | (16.3) | 2.7 | – | – | **(13.6)** |
| **(Dyled)/cronfeydd net** | (149.5) | (27.0) | (8.1) | 8.6 | **(176.0)** |

Caiff y ddyled a'r ad-daliadau ar brydlesau cyllid a ddelir gan Centre House Productions Limited eu gwrthbwyso'n uniongyrchol gan arian parod a ddelir ar adneuon cyfatebol, a'r incwm ohonynt, fel na fydd unrhyw effaith o ran arian parod yn yr hirdymor.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 22 CYSONI DYLED NET Â THERFYNAU BENTHYCA'R ADRAN DROS DDIWYLLIANT, Y CYFRYNGAU A CHWARAEON (DCMS)

| | | Gwasanaethau Cyhoeddus | | Busnesau Masnachol |
|---|---|---|---|---|
| | | | Newid i ddigidol | |
| **2009** | Nodyn | Gwariant cyfalaf neu gyfredol £m | Gwariant cyfredol ar y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol* £m | £m |
| Cronfeydd/(dyled) net | 21b | 46.4 | – | (208.8) |
| **Terfyn benthyca** | | (200.0) | (25.0) | (350.0) |
| 2008 | | | | |
| Cronfeydd/(dyled) net | 21b | 16.7 | – | (149.9) |
| **Terfyn benthyca** | | (200.0) | (25.0) | (350.0) |

* Dim ond mewn perthynas â benthyca i ariannu gwariant cyfredol ar gyflawni'r cyfrifoldebau a osodir ar y BBC gan unrhyw gynllun y cytunwyd arno o dan gymal 39 o'r Cytundeb Fframwaith (cynlluniau cymorth wedi ei dargedu), gan gynnwys costau y mae'r BBC yn mynd iddynt ar gyfer gorbenion a chostau ariannu'r cynllun y gellir defnyddio'r £25miliwn.

Mae **Gwasanaethau Cyhoeddus** yn y cyd-destun hwn yn cynrychioli Grŵp UK Public Service Broadcasting (ac eithrio Centre House Productions Limited – gweler Nodyn 23b), BBC World Service a BBC Monitoring.

Pennir terfyn benthyca'r Gwasanaeth Cyhoeddus o £200miliwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â'r Cytundeb Fframwaith rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ar 31 Mawrth 2009, 31 Mawrth 2008 a thrwy gydol y ddwy flwyddyn ariannol, roedd y BBC yn cydymffurfio â'r terfynau benthyca.

Pan roddodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon derfyn benthyca o £350miliwn ar gyfer BBC Commercial Holdings Limited ym mis Gorffennaf 2002, diffiniwyd tri chyfamod ariannol y mae'n ofynnol iddynt gael eu bodloni ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Ar 31 Mawrth 2009 a 31 Mawrth 2008 roedd BBC Commercial Holdings Limited yn cydymffurfio â phob un o'r cyfamodau hyn.

## 23 OFFERYNNAU ARIANNOL

### 23a Rheoli risg ariannol

Rheolir gweithrediadau rheoli risg ariannol y grŵp gan swyddogaeth Trysorlys y Grŵp o fewn paramedrau a ddiffinnir yn ffurfiol o fewn y llawlyfr polisïau a gweithdrefnau y cytunir arno gan y Bwrdd Gweithredol. Cyflwynir adroddiad ar weithgaredd Trysorlys y Grŵp yn rheolaidd ac mae'n destun arolwg gan archwilwyr mewnol ac allanol.

Mae Trysorlys y Grŵp yn defnyddio offerynnau ariannol i godi cyllid ac i reoli risg ariannol sy'n codi o weithrediadau'r BBC yn unol â'i amcanion sef:

- sicrhau bod busnes y BBC, Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol, yn cael ei ariannu yn y dull mwyaf effeithlon a'i fod yn parhau i gydymffurfio â therfynau benthyca
- diogelu gwerth asedau, rhwymedigaethau a llifau arian parod y BBC rhag effeithiau cyfraddau llog anffafriol ac amrywiadau o ran cyfraddau cyfnewid tramor
- cael yr adenillion mwyaf posibl ar gronfeydd gwarged, tra'n sicrhau y cedwir digon o arian i fodloni gofynion hylifedd rhagweladwy.

Mae offerynnau ariannol y grŵp, heblaw'r rhai a ddefnyddir at ddibenion rheoli risg y trysorlys, yn cynnwys arian parod ac adnoddau hylifol, benthyciadau ac eitemau amrywiol megis dyledwyr a chredydwyr masnach sy'n deillio'n uniongyrchol o'i weithrediadau. Mae'r grŵp yn ariannu ei weithrediadau o'r offerynnau ariannol hyn.

Nid yw'r grŵp yn cynnal trafodion hapfasnachol y trysorlys.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 23a Rheoli risg ariannol parhad

**Y risg o ran y farchnad**

Mae **risg y farchnad** yn cynnwys risg o ran arian cyfred, risg o ran cyfradd llog a risgiau eraill o ran prisiau.

**Y risg o ran arian cyfred:** Sefydliad domestig yw'r grŵp yn bennaf gyda'r rhan fwyaf o'r trafodion, asedau a rhwymedigaethau yn cael eu gwneud yn y DU ac yn rhai sterling. Fodd bynnag, mae gan y grŵp weithrediadau ledled y byd y gall ei incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau fod mewn arian cyfred heblaw sterling. Oherwydd symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid dros amser, gall y swm y mae'r grŵp yn disgwyl ei gael neu ei dalu pan fydd yn ymrwymo i drafodyn mewn arian cyfred heblaw sterling fod yn wahanol i'r swm y mae'n ei gael neu'n ei dalu mewn gwirionedd pan fydd yn setlo'r trafodyn.

Contract yw **blaengontract arian cyfred** i brynu neu werthu arian cyfred tramor yn gyfnewid am sterling ar gyfradd benodol ar ddyddiad penodol. Drwy ymrwymo i gyfradd gyfnewid benodol, caiff y risg o ran arian cyfred a all fod yn gysylltiedig â phryniant neu werthiant yn y dyfodol ei dileu.

Gall rhai contractau gynnwys cymalau hefyd lle mae newidiadau mewn cyfraddau arian cyfred y tu allan i ystod gytûn yn effeithio ar bris y contract; yn y rhan fwyaf o achosion mae gwerth y contractau unigol a nodweddion eraill o fewn y contract yn cyfyngu'r amlygiad i risg o ran arian cyfred i lefel nad yw'n sylweddol i'r grŵp. Mae gwerth teg deilliad sefydlog o'r fath wedi ei gydnabod ar 31 Mawrth 2009 ar gyfer un contract y cytunwyd arno yn ystod y flwyddyn.

Yr amlygiad i risg o ran arian cyfred mwyaf sylweddol yn ôl cyfanswm gwerth trafodion yw doleri'r UD, fodd bynnag, oherwydd maint cymharol yr amlygiad hwn o gymharu â busnes y grŵp sy'n delio â sterling yn bennaf, nid yw'r BBC o'r farn bod y risg hon yn sylweddol i'r grŵp. Fodd bynnag, mae'r grŵp yn gyffredinol yn llunio blaengontractau arian cyfred i reoli, neu ragfantoli, y risg arian cyfred hon, sy'n caniatáu iddo setlo trafodion ar gyfraddau cyfnewid hysbys, gan leihau unrhyw ansicrwydd ymhellach.

Felly mae'r incwm neu'r gwariant cyffredinol i'w gydnabod mewn perthynas â chontractau mewn arian cyfred tramor (a'r rhagfantoli cysylltiedig) yn sefydlog, fodd bynnag, lle mae'r contractau hyn yn rhychwantu blynyddoedd ariannol, mae cydnabod gwerth teg y blaengontractau arian cyfred yn arwain at enillion/colledion amseru ym mhob blwyddyn ariannol. Felly mae'r enillion/colledion amseru hyn yn codi o amodau'r farchnad yn hytrach nag amrywiannau yng ngwerth sylfaenol y contract. O ganlyniad i sicrwydd y llifau arian parod hyn mae'r grŵp wedi lleddfu ei sensitifrwydd sylfaenol i amrywiadau mewn arian cyfred i'r fath raddau fel nad oes angen cyflwyno dadansoddiad o ran sensitifrwydd.

**Risg o ran cyfradd llog:** Mae prif amlygiad y grŵp i amrywiadau yn y gyfradd llog yn codi ar fenthyciadau allanol. Ers mis Mawrth 2003 mae'r grŵp wedi benthyca ar gyfraddau llog cyfnewidiol ac yna wedi defnyddio cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog i reoli amlygiad y grŵp i amrywiadau yn y gyfradd llog a rhoi mwy o sicrwydd o lifau arian parod. Llunnir cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog yn seiliedig ar ofynion benthyca rhagamcanol, felly bydd gwahaniaethau yn digwydd rhwng swm tybiannol y cyfnewidiadau, capiau a choleri a'r gofynion benthyca gwirioneddol. O ganlyniad i'r farchnad anwadal a welwyd drwy gydol y flwyddyn ariannol, mae'r newidiadau ym mesur gwerth teg y cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog wedi bod yn fwy nag mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, effaith llunio'r cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog yw nad oes gan y grŵp, yn y tymor hwy, unrhyw sensitifrwydd sylfaenol sylweddol i amrywiadau yn y gyfradd llog ac felly ni chyflwynwyd dadansoddiad o ran sensitifrwydd.

Contract yw **cyfnewidiad cyfradd llog** rhwng dau barti i newid eu sail talu neu dderbyn o ran cyfradd llog naill ai o gyfraddau sefydlog i gyfraddau cyfnewidiol neu fel arall. Drwy bennu cyfradd llog gyfnewidiol gellir bod yn sicr ynghylch lefel taliadau llog yn y dyfodol.

**Risg arall o ran pris asedau ariannol:** Mae'r grŵp yn buddsoddi arian parod gweddilliol mewn cronfeydd marchnad arian ac adneuon marchnad arian, felly nid yw'n agored i risgiau eraill o ran pris, megis risg o ran pris y farchnad.

**Risg arall o ran pris** yw unrhyw newid mewn pris heblaw'r hyn sy'n codi o newidiadau mewn cyfraddau arian cyfred neu gyfraddau llog.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 23a Rheoli risg ariannol parhad

### Y risg o ran credyd

**Risg o ran credyd** yw'r risg o golled ariannol i'r grŵp os bydd cwsmer neu wrthbarti i offeryn ariannol yn methu â bodloni ei rwymedigaeth gytundebol.

**Symiau masnach derbyniadwy:** Mae'r rhan fwyaf o asedau ariannol y grŵp yn symiau masnach derbyniadwy, £526.1miliwn (2008: £507.1miliwn). Yr elfen fwyaf yw dyledwr ffi'r drwydded, £384.6miliwn (2008: £368.4miliwn) a dderbynnir yn uniongyrchol o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (nid yn uniongyrchol o dalwr ffi'r drwydded). Mae swm yr incwm y mae'r BBC yn ei gael gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn uniongyrchol gysylltiedig â swm ffi'r drwydded a gesglir o aelwydydd yn y DU.

O'r £141.5miliwn o symiau masnach derbyniadwy sy'n weddill (2008: £138.7miliwn), mae £40.8miliwn (2008: £34.1miliwn) yn ddyledus ac nid yw wedi lleihau mewn gwerth. Darparwyd ar gyfer £9.2miliwn (2008: £5.2miliwn) yn ystod y flwyddyn yn erbyn y £10.3miliwn (2008: £7.8miliwn) o symiau masnach derbyniadwy yr ystyrir eu bod wedi lleihau mewn gwerth.

**Buddsoddiadau:** Mae'r grŵp yn cyfyngu ei amlygiad i risg o ran credyd drwy ond buddsoddi mewn gwarannau hylifol a dim ond gyda gwrthbartïon sydd â gradd credyd ofynnol o A-, gyda gradd uwch hyd at AA- yn ofynnol yn dibynnu ar yr hyd a'r swm.

**Gwarantau:** Er mwyn helpu cyflogeion i adleoli fel rhan o gam a orfodir o fewn y DU, mae'r BBC yn gweithredu 'Cynllun Cymorth Gwarantedig i Berchenogion Cartrefi'. Ar ôl prisiadau proffesiynol, trosglwyddir buddiant buddiannol eiddo'r cyflogeion i drydydd parti er mwyn iddo ef ei werthu, gan ganiatáu i'r cyflogai ddod o hyd i eiddo newydd di-gadwyn o fewn eu hardal adleoli. Mae'r BBC yn cynnig gwarant i'r trydydd parti ar gyfer rhan o werth yr eiddo ar y farchnad ac felly caiff ei amlygu i amrywiadau yn y farchnad eiddo rhwng yr adeg y caiff yr eiddo ei brisio a'i werthu. Dim ond un cyflogai a ymrwymodd i'r cynllun hwn yn ystod 2008/09 (2007/08 dim un) ac felly nid yw gwerth teg y warant hon yn sylweddol.

Heblaw'r cynllun hwn, mae'r grŵp yn ymrwymo i warantau ariannol at ddibenion mewnol y grŵp yn unig.

### Y risg o ran hylifedd

**Y risg o ran hylifedd** yw'r risg na fydd y grŵp yn gallu bodloni ei rwymedigaethau ariannol wrth iddynt godi.

Mae terfynau ar fenthyciadau'r BBC a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â'r Cytundeb rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (gweler Nodyn 22). Er mwyn cydymffurfio â'r terfynau hyn ynghyd â thelerau unrhyw offerynnau dyled unigol, mae Trysorlys Grŵp y BBC yn rheoli benthyciadau'r grŵp drwy fonitro rhagolygon llif arian parod y grŵp yn barhaus. Deil y BBC ei hylifedd gwarged ar ffurf offerynnau ariannol y gellir eu trosi'n hawdd gyda sefydliadau ariannol uchel eu parch.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 23b Gwerthoedd teg offerynnau ariannol

Mae'r tabl canlynol yn nodi gwerth teg a gwerth cario offerynnau ariannol y grŵp, mewn categorïau yn dibynnu ar sut y mesurir yr offeryn ariannol. Mae hefyd yn dangos y proffil aeddfedrwydd ar gyfer pob categori o ased a rhwymedigaeth ariannol.

| | Symiau sy'n ddyledus mewn llai na blwyddyn £m | Symiau sy'n ddyledus rhwng dwy a phum mlynedd £m | Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|
| **2009 – Gwerth cario a gwerth teg** | | | | |
| **Asedau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | 10.9 | 12.2 | – | **23.1** |
| **Benthyciadau a symiau derbyniadwy** | | | | |
| Dyledwyr masnach | 526.1 | – | – | **526.1** |
| Dyledwyr eraill | 0.1 | – | – | **0.1** |
| **Arian parod yn y banc ac mewn llaw** | 124.3 | – | – | **124.3** |
| **Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu** | | | | |
| Buddsoddiadau eraill (nad ydynt yn gyfredol) | – | – | – | **–** |
| **Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | (22.5) | (21.8) | – | **(44.3)** |
| **Rhwymedigaethau ariannol wedi eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio** | | | | |
| Benthyciadau a gorddrafftiau | (5.8) | (268.0) | – | **(273.8)** |
| Credydwyr masnach | (327.4) | – | – | **(327.4)** |
| Credydwyr eraill | (32.3) | – | – | **(32.3)** |
| Caffaeliadau rhaglenni | (49.8) | – | – | **(49.8)** |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid | (4.7) | (1.9) | (15.0) | **(21.6)** |
| **2008 – Gwerth cario a gwerth teg** | | | | |
| **Asedau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | 2.6 | 2.6 | – | **5.2** |
| **Benthyciadau a symiau derbyniadwy** | | | | |
| Dyledwyr masnach | 504.6 | – | – | **504.6** |
| Dyledwyr eraill | 0.3 | – | – | **0.3** |
| **Arian parod yn y banc ac mewn llaw** | 78.0 | – | – | **78.0** |
| **Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu** | | | | |
| Buddsoddiadau eraill (nad ydynt yn gyfredol) | – | – | 2.7 | **2.7** |
| **Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | (2.3) | (0.5) | (0.1) | **(2.9)** |
| **Rhwymedigaethau ariannol wedi eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio** | | | | |
| Benthyciadau | (59.3) | (140.1) | – | **(199.4)** |
| Credydwyr masnach | (327.6) | – | – | **(327.6)** |
| Credydwyr eraill | (31.0) | – | – | **(31.0)** |
| Caffaeliadau rhaglenni | (47.3) | – | – | **(47.3)** |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid | (5.8) | (3.0) | (19.3) | **(28.1)** |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 23b Gwerthoedd teg offerynnau ariannol parhad

Ar 31 Mawrth 2009 nid oes unrhyw wahaniaethau (2008: dim gwahaniaethau) rhwng gwerth teg a gwerth cario unrhyw un o offerynnau ariannol y grŵp. Seilir gwerth teg blaengontractau arian cyfred, cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog a deilliadau sefydlog ar brisiau'r farchnad a chyfraddau cyfnewid ar ddyddiad y fantolen. Fe'u cofnodir yn y datganiad o incwm a gwariant (gweler Nodiadau 3 a 7). Caiff yr offerynnau ariannol sy'n weddill eu cario ar gost neu gost wedi'i hamorteiddio yn unol ag FRS 26 'Financial Instruments: Recognition and Measurement', sy'n brasamcanu yn unol â gwerth teg.

Mae'r prydlesau cyllid yn cynnwys £15.0miliwn (2008: £18.0miliwn) sy'n ymwneud â Centre House Productions Limited. Mae Centre House Productions Limited yn ymrwymo i brydlesau cyllid fel ffordd o ariannu cynyrchiadau drama sy'n arwain at gostau cynhyrchu is i'r BBC. Cyfatebir y prydlesau cyllid hyn gan adneuon dirymu y gellir ond eu defnyddio i setlo'r rhwymedigaethau prydlesau cyllid ac felly nid ydynt yn cynrychioli asedau a rhwymedigaethau ar wahân. O ganlyniad, cânt eu clirio o gyfrif y credydwr prydlesau cyllid i ddangos y rhwymedigaeth net na ellir ei chyfateb ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff yr adneuon dirymu hyn, £199.8miliwn ar 31 Mawrth 2009 (2008: £219.0miliwn), eu strwythuro fel y bydd y prifswm ar adnau a'r llog a enillir yn ddigon i dalu'r rhwymedigaethau rhentu ar y prydlesau cyllid tan ddiwedd y brydles. Yn unol â hynny, ni chaiff ei gynnwys fel benthyciad at ddibenion cydymffurfio â therfynau benthyca'r BBC.

Mae BBC Worldwide Limited wedi gwarantu benthyciadau banc mewn perthynas â'i gyd-fenter, Worldwide Media Limited, sef 155miliwn rwpi (£2.1miliwn) ar 31 Mawrth 2009 (2008: 155miliwn rwpi, £2.0miliwn). Aseswyd y gwerth teg fel swm nad yw'n sylweddol.

**Adneuon dirymu**
yw symiau a adneuir gyda banciau sy'n ennill yr union swm o log sydd ei angen i dalu ad-daliad cyfalaf ac elfen llog pob un o'r prydlesau cyllid. Caiff yr adneuon dirymu eu neilltuo ac felly ni ellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw drafodion heblaw am y taliadau cyfalaf a llog cytûn.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 23c Offerynnau ariannol deilliadol

| | Asedau £m | Rhwymedigaethau £m |
|---|---|---|
| **2009** | | |
| **Mwy na blwyddyn** | | |
| Blaengontractau arian cyfred tramor | 11.8 | (10.4) |
| Cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog | 0.3 | (5.1) |
| Deilliadau sefydlog | 0.1 | (6.3) |
| **Cyfanswm** | 12.2 | (21.8) |
| **Llai na blwyddyn** | | |
| Blaengontractau arian cyfred tramor | 10.9 | (20.3) |
| Deilliadau sefydlog | – | (2.2) |
| **Cyfanswm** | 10.9 | (22.5) |
| **2008** | | |
| **Mwy na blwyddyn** | | |
| Blaengontractau arian cyfred tramor | 2.2 | (0.2) |
| Cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog | 0.3 | (0.1) |
| Deilliadau sefydlog | 0.1 | (0.3) |
| **Cyfanswm** | 2.6 | (0.6) |
| **Llai na blwyddyn** | | |
| Blaengontractau arian cyfred tramor | 2.6 | (2.2) |
| Deilliadau sefydlog | – | (0.1) |
| **Cyfanswm** | 2.6 | (2.3) |

Ar 31 Mawrth 2009, roedd y grŵp wedi gwneud ymrwymiad net i brynu arian cyfred tramor gwerth £135.6miliwn (2008: £17.9miliwn) sy'n aeddfeddu yn y cyfnod hyd at 2013 er mwyn pennu cost sterling ymrwymiadau drwy gydol y cyfnod hwn (Ewros a doleri'r UD yn bennaf). Ar ôl ystyried effeithiau'r blaengontractau cyfnewid arian cyfred tramor hyn, nid oedd gan y grŵp unrhyw amlygiad sylweddol i arian cyfred.

Rheolir risg o ran cyfradd llog drwy ddefnyddio cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog. Cyflawnir benthyciadau cyfradd sefydlog sterling drwy lunio trafodion cyfnewidiadau cyfradd llog; mae pob cyfnewidiad sy'n weddill yn aeddfedu erbyn mis Ebrill 2014. Gall effaith newid mewn cyfraddau llog gael ei chyfyngu hefyd drwy lunio trafodion capiau a choleri cyfradd llog.; mae pob cap a choler sy'n weddill yn aeddfedu erbyn mis Ebrill 2013. At ei gilydd, ymrwymwyd i £213.4miliwn (2008: £80.0miliwn) o gyfnewidiadau a £209.6miliwn (2008: £128.2miliwn) o gapiau a choleri. O'r rhain dim ond £108.4miliwn (2008 £80.0miliwn) o gyfnewidiadau a £129.6miliwn (2008 £128.2miliwn) o gapiau oedd yn weithredol ar 31 Mawrth 2009 gan fod cytundebau newydd yn cael eu trefnu i sicrhau bod benthyciadau wedi'u cwmpasu mewn modd addas yn y dyfodol agos. Mae hyn £29.9miliwn yn is (2008: £8.8miliwn yn uwch) na'r lefel gyfredol o fenthyciadau o £267.9miliwn (2008: £199.4miliwn).

Yn unol ag FRS 26, mae'r grŵp wedi adolygu contractau ar gyfer deilliadau sefydlog y mae angen rhoi cyfrif amdanynt ar wahân os nad ydynt yn bodloni gofynion penodol a nodir yn y safon. Mae unrhyw ddeilliadau sefydlog o'r fath wedi'u cydnabod ar werth teg.

## 23ch Rhagfantoli buddsoddiadau net mewn gweithrediadau tramor

Mae gan y grŵp fenthyciadau mewn doleri Awstralia (AUS$) y mae wedi eu dynodi yn eitem rhagfantoli buddsoddiad net mewn gweithrediadau tramor (Lonely Planet), er mwyn rhagfantoli rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid rhwng sterling a'r AUS$. Gwerth teg benthyciadau AUS$ ar 31 Mawrth 2008 oedd £90.3miliwn a gwerth teg y buddsoddiad ar 31 Mawrth 2008 oedd £93.7miliwn. Rhoddwyd y gorau i'r rhagfantoli buddsoddiad net o fis Medi 2008 yn dilyn setlo'r benthyciadau arian cyfred tramor cysylltiedig.

Yn dibynnu ar y symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid a chyfraddau llog rhwng yr adeg y mae'r grŵp yn ymrwymo i'r trafodyn a diwedd y flwyddyn, gall y deilliadau hyn naill ai fod yn broffidiol ('yn gwneud arian') neu gallant fod yn colli arian ynddynt hwy eu hunain. Fodd bynnag, y rhesymeg wrth lunio'r deilliadau hyn yw peidio ag elwa ar farchnadoedd arian cyfred nac amrywiadau yn y gyfradd llog ond darparu sefydlogrwydd i lifau arian parod y BBC. Cymerir y symudiadau sy'n ymwneud â'r deilliadau hyn (h.y. lle maint yn gwneud elw neu'n gwneud colled) i ddatganiad o incwm a gwariant y grŵp am y flwyddyn.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 23d Cyfleusterau benthyca

| Cyfleuster | Cyfradd llog | Cyfanswm cyfleuster 31 Mawrth 2009 £m | Swm a hawliwyd ar 31 Mawrth 2009 £m | Cyfanswm cyfleuster 31 Mawrth 2008 £m | Swm a hawliwyd ar 31 Mawrth 2008 £m | Dyddiad dod i ben neu adolygu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **UK Public Service Broadcasting** | | | | | | |
| Benthyciad yn seiliedig ar LIBOR neu orddrafft | Benthyciad – gorswm o 0.175% Gorddrafft – cyfraddau sylfaenol y banc plws 1% | **–** | **–** | 50 | – | Daeth i ben Mehefin 2008 |
| Cytundeb cyfleuster credyd cylchol sterling | Benthyciad – gorswm o 0.45% | **200** | **–** | – | – | Mehefin 2013 |
| Llinellau marchnad arian heb ei neilltuo (benthyciadau byrdymor) | Gorswm o rhwng 0.125% a 0.3% dros LIBOR | **25** | **–** | 24 | – | |
| **BBC Commercial Holdings Limited** | | | | | | |
| Cytundeb cyfleuster credyd cylchol aml-arian cyfred ar gyfer benthyciadau a llythyrau credyd | LIBOR* plws 0.275% yn codi i LIBOR* plws 0.325% pan ddefnyddir mwy na 50% o'r cyfleuster. Mae llythyr ffi credyd yr un peth â gorswm benthyca'r banc, ond nid yw'n cynnwys LIBOR. | **350**** | **218** | 350** | 145 | Mehefin 2012 |
| Llinellau gorddrafft neu farchnad arian | Llinell marchnad arian – gorswm o 0.45% Gorddrafft – cyfraddau sylfaenol banc plws 1% | **20** | **–** | 20 | 4 | Ionawr 2010 |
| **BBC Worldwide Limited** | | | | | | |
| Benthyciad gyda Banc Buddsoddi Ewrop (50% wedi ei warantu drwy lythyrau credyd)** | Cost gyllido Banc Buddsoddi Ewrop ei hun plws gorswm o 0.09% ar fenthyciadau nas gwarantwyd | **50** | **50** | 50 | 50 | £20m Rhagfyr 2011 a £30m Mai 2012 |

* Bydd y gyfradd sylfaenol a ddefnyddir yn amrywio yn ôl yr arian cyfred a hawlir. Ar 31 Mawrth 2009 roedd £47.8miliwn (2008 £90.3miliwn) wedi ei hawlio mewn AUS$ ac wedi ei gysylltu wedyn â BBSW yn hytrach na LIBOR. Hawlir pob swm arall mewn sterling ac fe'i cysylltir wedyn â LIBOR.

** O'r cyfanswm hwn, mae hyd at £100miliwn ar gael ar ffurf llythyrau credyd i'w rhoi o blaid Banc Buddsoddi Ewrop i ategu ei fenthyciadau o dan gyfleusterau i'r grŵp. Ar 31 Mawrth 2009, y cyfanswm a hawliwyd ar y cyfleuster hwn oedd £243.5miliwn a oedd yn cynnwys hawliadau arian parod o £217.8miliwn (2008: £145miliwn) a £25.6miliwn (2008: £25.6miliwn) a ddefnyddiwyd drwy gyfrwng llythyrau credyd.

Ni fu unrhyw achosion o ddiffygdalu na thorri cyfamodau mewn perthynas â'r cyfleusterau uchod yn ystod y flwyddyn (2008: dim).

Yn ogystal â'r cyfleusterau uchod, mae gan y grŵp gyfleusterau llai eraill gyda chyfanswm y symiau cyfunol a hawliwyd sef £3.3miliwn (2008: £0.7miliwn) wedi ei ddefnyddio i reoli cyfalaf gweithio.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 24 YMRWYMIADAU

### 24a Contractau a osodwyd ar gyfer gwariant yn y dyfodol

| | Grŵp 2009 £m | Grŵp 2008 £m | UK Public Service Broadcasting 2009 £m | UK Public Service Broadcasting 2008 £m |
|---|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau asedau sefydlog | **51.8** | 65.2 | **45.4** | 44.0 |
| Caffaeliadau rhaglenni a hawliau chwaraeon | **1,302.3** | 1,333.7 | **1,260.4** | 1,272.8 |
| Rhaglenni annibynnol | **112.1** | 112.3 | **98.0** | 97.8 |
| | **1,466.2** | 1,511.2 | **1,403.8** | 1,414.6 |

### 24b Prydlesau gweithredu

Ymrwymiadau prydlesau gweithredu sy'n daladwy yn y flwyddyn ganlynol, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod pan ddaw'r brydles i ben:

| | Tir ac adeiladau 2009 £m | Tir ac adeiladau 2008 £m | Arall 2009 £m | Arall 2008 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Grŵp** | | | | |
| O fewn blwyddyn | **2.8** | 2.1 | **2.8** | 1.2 |
| Ymhen dwy i bum mlynedd | **19.3** | 21.4 | **15.0** | 9.0 |
| Ar ôl pum mlynedd | **86.2** | 92.2 | **1.4** | 7.8 |
| | **108.3** | 115.7 | **19.2** | 18.0 |
| **UK Public Service Broadcasting** | | | | |
| O fewn blwyddyn | **1.2** | 1.6 | **0.4** | 0.4 |
| Ymhen dwy i bum mlynedd | **14.9** | 11.9 | **9.9** | 3.3 |
| Ar ôl pum mlynedd | **85.7** | 91.3 | **1.4** | 7.8 |
| | **101.8** | 104.8 | **11.7** | 11.5 |

Prydles lle nad yw'r prydlesai wedi ymrwymo i'r risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased yw **prydles weithredu.** Mae'r prydlesai (y BBC) yn llogi yn hytrach na phrynu ased.

### 24c Ymrwymiadau ariannol eraill

Wrth gynnal ei fusnes fel arfer mae'r BBC yn llunio nifer fawr o gontractau ag artistiaid ac awduron a chyda darparwyr gwasanaethau eraill gan gynnwys y rhai sy'n casglu ffi'r drwydded, cynnal a chadw a chymorth TG a dosbarthu sianelau.

## 25 ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

Ar 31 Mawrth 2009, roedd gan y grŵp rwymedigaethau amodol yr amcangyfrifwyd eu bod yn werth tua £1.0miliwn (2008: £1.3miliwn) mewn perthynas â gwarantau ac indemniadau.

Mae gan y grŵp nifer o rwymedigaethau amodol sy'n deillio o ymgyfreitha. Gwna'r BBC ddarpariaeth benodol (gweler Nodyn 17) ar gyfer ei amcangyfrif gorau o unrhyw iawndal a chostau y gellir eu dyfarnu. Dim ond i'r graddau y mae'r grŵp yn ystyried ei bod yn debygol y bydd all-lif o fuddiannau economaidd ac y gellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy y gwneir darpariaeth.

## 26 DIGWYDDIADAU ÔL-FANTOLEN

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau o bwys i'w datgelu ar ôl dyddiad y fantolen.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 27 TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Cyflwynwyd trafodion partïon cysylltiedig y grŵp yn unol ag FRS 8 'Related party disclosures', lle nad oes angen datgelu trafodion rhwng endidau grŵp a ddilëwyd wrth gyfuno.

Ym mhob un o'r trafodion, negodwyd y telerau masnachu ar sail hyd braich.

### 27a Trafodion â chyd-fentrau ac ymgymeriadau cyswllt

| **Incwm o gyd-fentrau ac ymgymeriadau cyswllt** | **Natur y gwasanaethau a ddarperir** | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| UK Channel Management Limited | Gwerthiant rhaglenni | **12.5** | 12.8 |
| UK Gold Holdings Limited | Gwerthiant rhaglenni a ffioedd rheoli | **30.1** | 25.7 |
| JV Programmes LLC | Gwerthiant rhaglenni | **29.0** | 31.9 |
| 2entertain Limited | Trwyddedu rhaglenni a chomisiynau eraill | **27.6** | 17.9 |
| Daunus Limited | Ad-dalu costau datblygu Broadcasting House | **2.0** | 5.1 |
| Arall | Amrywiol | **9.0** | 9.0 |

| **Difidendau o gyd-fentrau ac ymgymeriadau cyswllt** | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|
| UK Channel Management Limited | **16.7** | 0.5 |
| UK Gold Holdings Limited | **7.6** | 6.2 |
| 2entertain Limited | **9.0** | 42.3 |
| Arall | **3.7** | 0.2 |

| **Taliadau a godir sy'n daladwy i gyd-fentrau ac ymgymeriadau cyswllt** | **Natur y gwasanaethau a dderbynnir** | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Daunus Limited | Rhent | **33.1** | 17.3 |
| Frontline Limited | Dosbarthiad cylchgronau BBC Worldwide | **2.1** | 2.2 |
| JV Programmes LLC | Gwasanaethau marchnata | **0.7** | 1.4 |
| 2entertain Limited | Comisiynau wrth ddosbarthu DVDs plant | **2.2** | 1.1 |
| DTV Services Limited | Gwasanaethau marchnata | **1.2** | 1.4 |
| Freesat UK Limited | Symiau a ddilëwyd mewn perthynas â chyfraniad cyllido | **3.3** | 3.4 |
| Arall | Amrywiol | **15.8** | 4.7 |

Caiff symiau sy'n ddyledus gan/i gyd-fentrau ac ymgymeriadau cyswllt ar ddiwedd y flwyddyn eu datgelu yn Nodiadau 15 ac 16.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 27b Trafodion eraill

Mae partïon cysylltiedig y BBC, fel y'u diffinnir gan FRS 8, natur y berthynas a graddau'r trafodion â hwy wedi eu crynhoi isod. Wrth gynnal ei fusnes fel arfer, mae'r BBC yn cynnal trafodion gyda phartïon eraill sy'n gysylltiedig ag ef gan fod ei uwch gyflogeion yn briod â chyflogai neu'n perthyn yn agos i gyflogai yn y BBC neu unigolion sy'n berchen ar neu a gyflogir gan gwmnïau eraill sy'n ymwneud â'r cyfryngau, cynhyrchu a darlledu. Mae gan y BBC weithdrefnau penodol ar gyfer delio â sefyllfaoedd o'r fath er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Pan fo trafodion wedi codi rhwng partïon cysylltiedig, ni fydd Llywodraethwr y BBC na chyflogai'r BBC yn rhan o'r broses gymeradwyo.

Mae **partïon cysylltiedig** yn cynnwys yr Ymddiriedolwyr, aelodau o'r Bwrdd Gweithredol ac uwch reolwyr eraill, eu teuluoedd agos ac endidau allanol a reolir ganddynt.

Eglurir y trafodion rhwng y BBC a'r partïon cysylltiedig hynny yn y nodyn hwn.

**27b i Ymddiriedolwyr**

Yn ystod y flwyddyn, roedd gan Diane Coyle a Richard Tait aelodau agos o'r teulu a oedd yn gyflogedig gan y BBC. Seiliwyd eu cydnabyddiaeth ar delerau ac amodau safonol y BBC sy'n gymwys i aelodau eraill o staff a gyflogir mewn swyddi o'r fath.

**27b ii Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol ac uwch reolwyr eraill**

Menna Richards yw Rheolwr BBC Cymru. Mae gan ei chwaer fuddiant rheoli yn Torpedo Limited. Gwnaeth y BBC daliadau ar gontractau gwerth £147,372 (2008: £320,774) gyda Torpedo Limited i ddarparu rhaglenni radio a theledu annibynnol yn ystod y flwyddyn. Roedd y symiau hyn wedi'u talu'n llawn erbyn 31 Mawrth 2009 (2008: talwyd yn llawn). Hefyd lluniodd y BBC gontractau artistiaid gwerth £49,143 (2008: £53,263) gyda'i gŵr Patrick Hannan, a oedd wedi'u talu'n llawn erbyn 31 Mawrth 2009 (2008: £1,032 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2008).

Peter Salmon yw Cyfarwyddwr BBC North. Lluniodd y BBC gontractau artistiaid gwerth £185,000 (2008: ddim yn sylweddol) gyda'i wraig Sarah Lancashire, a oedd wedi'u talu'n llawn erbyn 31 Mawrth 2009 (2008: ddim yn sylweddol).

Mae Juniper Communications Limited yn eiddo ar y cyd i gyfarwyddwr anweithredol y BBC Samir Shah (70%), ei wraig Belkis Shah (20%) a gŵr Jana Bennett (Cyfarwyddwr, BBC Vision), Richard Clemmow (10%). Yn ystod y flwyddyn, cafodd y BBC wasanaethau gan Juniper Communications Limited gwerth £715,261 (2008: £946,693). Roedd y symiau hyn wedi'u talu'n llawn erbyn 31 Mawrth 2009 (2008: talwyd yn llawn). Yn ogystal â hyn, cafodd Juniper Communications Limited wasanaethau gan y BBC gwerth £108,520 (2008: dim), gyda £10,684 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2009 (2008: dim).

Andy Parfitt yw Rheolwr Radio 1, 1Xtra, Asian Network a Switch. Mae ei wraig yn berchen ar White Pebble Media sy'n cynhyrchu rhaglenni annibynnol ar gyfer radio'r BBC. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y BBC wasanaethau gan White Pebble Media gwerth £72,924 (2008: ddim yn sylweddol), gyda £3,551 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2009 (2008: ddim yn sylweddol),

Yn ystod y flwyddyn, roedd gan Jenny Abramsky (Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth tan fis Medi 2008), David Moody (Rheolwr Gyfarwyddwr Worldwide, Digital), Samir Shah (cyfarwyddwr anweithredol) a Janice Hadlow (Rheolwr BBC 4 tan fis Tachwedd 2008 ac yna Rheolwr BBC 2) aelodau agos o'r teulu a oedd yn gyflogedig gan y BBC. Seiliwyd eu cydnabyddiaeth ar delerau ac amodau safonol y BBC sy'n gymwys i aelodau eraill o staff a gyflogir mewn swyddi o'r fath.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 28 GWARIANT GRŴP UK PUBLIC SERVICE BROADCASTING YN ÔL GWASANAETH

Defnyddir trwyddedau gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth y BBC er mwyn rheoleiddio gwasanaethau'r BBC a sicrhau bod pob gwasanaeth yn darparu gwerth cyhoeddus ac yn cyfrannu at gyflawni pwrpasau cyhoeddus y BBC. Mae'r asesiad blynyddol o berfformiad yn cymharu costau gwirioneddol ar gyfer cynnwys yn erbyn cyllideb sylfaenol gytûn ac awdurdodedig. Gall y costau hyn amrywio hyd at 10% o'r gyllideb sylfaenol i ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd rheolwyr yn eu penderfyniadau comisiynu. Yn ystod y flwyddyn roedd 28 o drwyddedau gwasanaeth ar waith, yn cynnwys trwydded BBC ALBA a lansiwyd ym mis Medi 2008.

Dengys trwyddedau gwasanaeth y gost i dalwr ffi'r drwydded o ddarparu'r gwasanaeth perthnasol ac felly maent yn eithrio unrhyw gostau a ariennir gan gyd-gynhyrchydd trydydd parti. Darlledir nifer o raglenni teledu ar fwy nag un sianel ac yn gyffredinol cydnabyddir cost lawn y rhaglen fel cost y sianel pan ddarlledir y rhaglen y tro cyntaf. Lle y comisiynir rhaglen gan ddwy sianel cydnabyddir cost y rhaglen fel cost y brif sianel waeth pa un sy'n darlledu'r rhaglen gyntaf. Yn unol â hynny, nid yw costau trwyddedau gwasanaeth unigol o reidrwydd yn cyfateb i'r costau yr eid iddynt gan wasanaeth o'r fath ar sail unigol.

Ar gyfer BBC HD, BBC Ar-lein a BBC Red Button, mae'r drwydded ond yn adlewyrchu costau ychwanegol rhoi cynnwys ar yr awyr oni chomisiynir y cynnwys yn benodol ar gyfer un o'r tri gwasanaeth hyn. Dyrennir cost y cynnwys gwreiddiol i'r gwasanaeth y'i darlledir arno gyntaf.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 28 GWARIANT GRŴP UK PUBLIC SERVICE BROADCASTING YN ÔL GWASANAETH parhad

| Gwasanaeth 2009 | Nodyn | Cynnwys (i) £m | Dosbarthu (ii) £m | Seilwaith/ cymorth £m | Eitemau eraill £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | | 1,142.0 | 47.9 | 202.9 | – | **1,392.8** |
| BBC Two | | 450.6 | 34.1 | 85.0 | – | **569.7** |
| BBC Three | | 87.3 | 4.2 | 23.1 | – | **114.6** |
| BBC Four | | 54.8 | 3.0 | 13.6 | – | **71.4** |
| CBBC | | 35.8 | 3.4 | 10.8 | – | **50.0** |
| CBeebies | | 16.3 | 3.5 | 5.7 | – | **25.5** |
| BBC HD | iv | 2.1 | 2.7 | 1.9 | – | **6.7** |
| BBC ALBA | v | 3.0 | 0.8 | 0.6 | – | **4.4** |
| Sianel BBC News | vi | 47.9 | 6.6 | 6.5 | – | **61.0** |
| BBC Parliament | | 2.8 | 5.1 | 1.7 | – | **9.6** |
| BBC Red Button | | 13.5 | 12.3 | 4.3 | – | **30.1** |
| **Teledu** | | **1,856.1** | **123.6** | **356.1** | **–** | **2,335.8** |
| BBC Radio 1 | | 33.1 | 3.5 | 6.4 | – | **43.0** |
| BBC Radio 2 | | 40.1 | 3.8 | 6.8 | – | **50.7** |
| BBC Radio 3 | | 40.0 | 4.1 | 7.0 | – | **51.1** |
| BBC Radio 4 | | 85.9 | 8.3 | 14.4 | – | **108.6** |
| BBC Radio Five Live | | 56.5 | 5.7 | 10.0 | – | **72.2** |
| BBC Radio Five Live Sports Extra | | 2.6 | 0.3 | 0.8 | – | **3.7** |
| 1Xtra | | 6.8 | 0.5 | 2.3 | – | **9.6** |
| BBC 6 Music | | 6.5 | 0.4 | 2.1 | – | **9.0** |
| BBC 7 | | 5.2 | 0.4 | 1.3 | – | **6.9** |
| BBC Asian Network | | 9.2 | 0.5 | 2.4 | – | **12.1** |
| Radio Lleol y BBC | vii | 108.6 | 6.3 | 18.1 | – | **133.0** |
| BBC Radio Scotland | | 25.0 | 2.4 | 4.9 | – | **32.3** |
| BBC Radio nan Gàidheal | | 4.0 | 0.9 | 0.8 | – | **5.7** |
| BBC Radio Wales | | 12.9 | 1.0 | 2.3 | – | **16.2** |
| BBC Radio Cymru | | 12.0 | 1.3 | 2.1 | – | **15.4** |
| BBC Radio Ulster/BBC Radio Foyle | | 14.5 | 1.1 | 2.8 | – | **18.4** |
| **Radio** | | **462.9** | **40.5** | **84.5** | **–** | **587.9** |
| BBC Ar-lein | | 112.2 | 18.5 | 46.5 | – | **177.2** |
| **Ar-lein** | | **112.2** | **18.5** | **46.5** | **–** | **177.2** |
| **Gwariant wedi ei reoleiddio gan y gwasanaeth** | | **2,431.2** | **182.6** | **487.1** | **–** | **3,100.9** |
| Costau casglu ffi'r drwydded | | – | – | – | 122.8 | **122.8** |
| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio | | 21.5 | – | 3.6 | – | **25.1** |
| S4C | viii | 27.6 | – | 4.9 | – | **32.5** |
| Gwariant datblygu | ix | 30.9 | – | 5.2 | – | **36.1** |
| Radio digidol DAB | | – | 10.3 | – | – | **10.3** |
| Testun digidol | | – | 6.9 | – | – | **6.9** |
| **Arall** | | **80.0** | **17.2** | **13.7** | **122.8** | **233.7** |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | x | – | – | – | 11.0 | **11.0** |
| **Cyfanswm gwariant gwasanaethau cyhoeddus y DU** | | **2,511.2** | **199.8** | **500.8** | **133.8** | **3,345.6** |
| Gwariant Digital UK Limited wedi ei neilltuo | xi | – | – | – | 26.0 | **26.0** |
| Gwariant newid i ddigidol wedi ei neilltuo | xi | – | – | – | 24.4 | **24.4** |
| **Cyfanswm gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting** | | **2,511.2** | **199.8** | **500.8** | **184.2** | **3,396.0** |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 28 GWARIANT GRŴP UK PUBLIC SERVICE BROADCASTING YN ÔL GWASANAETH parhad

| Gwasanaeth 2008 | Cynnwys £m | Dosbarthu £m | Seilwaith/ cymorth £m | Eitemau eraill £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | 1,126.2 | 45.4 | 246.6 | – | 1,418.2 |
| BBC Two | 439.7 | 29.5 | 98.7 | – | 567.9 |
| BBC Three | 96.5 | 3.1 | 25.6 | – | 125.2 |
| BBC Four | 47.7 | 2.0 | 15.1 | – | 64.8 |
| CBBC | 36.0 | 2.4 | 10.3 | – | 48.7 |
| CBeebies | 16.3 | 2.3 | 4.7 | – | 23.3 |
| BBC HD | 3.4 | 2.6 | 0.7 | – | 6.7 |
| Sianel BBC News | 45.7 | 4.4 | 7.9 | – | 58.0 |
| BBC Parliament | 2.4 | 2.9 | 0.5 | – | 5.8 |
| BBC Red Button | 20.4 | 10.2 | 6.1 | – | 36.7 |
| **Teledu** | 1,834.3 | 104.8 | 416.2 | – | 2,355.3 |
| BBC Radio 1 | 31.5 | 4.2 | 7.4 | – | 43.1 |
| BBC Radio 2 | 39.5 | 4.5 | 7.3 | – | 51.3 |
| BBC Radio 3 | 37.4 | 4.7 | 7.3 | – | 49.4 |
| BBC Radio 4 | 81.2 | 10.0 | 14.3 | – | 105.5 |
| BBC Radio Five Live | 55.2 | 6.6 | 10.5 | – | 72.3 |
| BBC Radio Five Live Sports Extra | 2.5 | 0.3 | 0.5 | – | 3.3 |
| BBC 1Xtra | 6.7 | 0.6 | 2.0 | – | 9.3 |
| BBC 6 Music | 5.6 | 0.5 | 1.4 | – | 7.5 |
| BBC 7 | 5.5 | 0.4 | 1.4 | – | 7.3 |
| BBC Asian Network | 10.1 | 0.8 | 2.1 | – | 13.0 |
| Radio Lleol y BBC | 109.0 | 6.0 | 21.5 | – | 136.5 |
| BBC Radio Scotland | 29.5 | 2.9 | 6.1 | – | 38.5 |
| BBC Radio nan Gàidheal | 4.7 | 1.2 | 1.0 | – | 6.9 |
| BBC Radio Wales | 13.6 | 1.3 | 2.6 | – | 17.5 |
| BBC Radio Cymru | 12.7 | 1.7 | 2.4 | – | 16.8 |
| BBC Radio Ulster/BBC Radio Foyle | 15.2 | 1.5 | 3.5 | – | 20.2 |
| **Radio** | 459.9 | 47.2 | 91.3 | – | 598.4 |
| BBC Ar-lein | 113.9 | 15.4 | 52.7 | – | 182.0 |
| **Ar-lein** | 113.9 | 15.4 | 52.7 | – | 182.0 |
| **Gwariant wedi ei reoleiddio gan drwydded gwasanaeth** | 2,408.1 | 167.4 | 560.2 | – | 3,135.7 |
| Costau casglu ffi'r drwydded | – | – | – | 123.2 | 123.2 |
| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio | 16.2 | – | 3.1 | – | 19.3 |
| S4C | 27.5 | – | 5.2 | – | 32.7 |
| BBC jam | 2.5 | – | 0.5 | – | 3.0 |
| Gwariant datblygu | 31.3 | – | 6.0 | – | 37.3 |
| Radio digidol DAB | – | 9.6 | – | – | 9.6 |
| Testun digidol | – | 8.7 | – | – | 8.7 |
| **Arall** | 77.5 | 18.3 | 14.8 | 123.2 | 233.8 |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | – | – | – | 117.6 | 117.6 |
| **Cyfanswm gwariant gwasanaethau cyhoeddus y DU** | 2,485.6 | 185.7 | 575.0 | 240.8 | 3,487.1 |
| Gwariant Digital UK Limited | – | – | – | 21.2 | 21.2 |
| Gwariant newid i ddigidol wedi ei neilltuo | – | – | – | 5.9 | 5.9 |
| **Cyfanswm gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting** | 2,485.6 | 185.7 | 575.0 | 267.9 | 3,514.2 |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 28 GWARIANT GR ŴP UKPUBLIC SERVICE BROADCASTING YN ÔL GWASANAETH parhad

| Costau seilwaith/cymorth | Nodyn | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Marchnata, y wasg a chyhoeddusrwydd | | **42.9** | 41.6 |
| Pytiau rhagflas ar yr awyr | | **22.9** | 22.1 |
| Ymchwil i'r farchnad a gwasanaethau defnyddwyr | | **16.1** | 14.6 |
| Llyfrgelloedd, cymorth dysgu a digwyddiadau cymunedol | | **49.9** | 55.5 |
| (Lleihad mewn taliad pensiwn)/taliad pensiwn ychwanegol | xii | **(19.5)** | 20.0 |
| Gorbenion (ac eithrio ailstrwythuro) | iii | **388.5** | 421.2 |
| | iii | **500.8** | 575.0 |

(i) Mae costau cynnwys yn cynnwys costau penodol rhaglenni/gwasanaethau uniongyrchol a dosraniad o gostau eraill sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a reolir yn ganolog gan gynnwys, er enghraifft, costau casglu newyddion a hawlfraint. O gyfanswm y costau cynnwys o £2,431.2miliwn (2008: £2,408.1miliwn) y costau uniongyrchol oedd £2,259.0miliwn (2008 £2,229.5 miliwn) a'r costau a ddyrannwyd yn ganolog oedd £172.2miliwn (2008: £178.6miliwn).

(ii) Mae'r gost ddosbarthu yn cynrychioli darlledu a chludo gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU (teledu, radio a rhyngweithiol) ar lwyfannau darlledu digidol ac analog – mae hyn yn cynnwys teledu analog, Teledu Daearol Digidol (DTT), lloeren, cebl, band eang, radio analog a radio digidol DAB. O'r costau dosbarthu, mae £77.0miliwn yn ymwneud â gwasanaethau analog (2008: £81.8miliwn) a £122.8miliwn â gwasanaethau digidol (2008: £103.9miliwn).

(iii) Mae gorbenion yn cynrychioli gwariant ar swyddogaethau canolog y BBC, er enghraifft swyddfa'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, BBC People, adrannau Cyllid, Polisi a Chyfreithiol y BBC. Mae gwariant yn ymgorffori costau llety a staff sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny. Mae cyfran y costau hyn y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r gwaith o wneud rhaglenni wedi ei chynnwys o fewn cyfanswm y gwariant ar gynnwys, ac mae costau gwasanaethau a ddarperir ar draws y BBC i gyd neu a reolir ar lefel gorfforaethol (er enghraifft, marchnata, y wasg a pholisi) wedi eu dangos fel gwariant ar seilwaith a chymorth.

(iv) Roedd costau cynnwys BBC HD fwy na'r goddefiant o 10% o dan y gyllideb sylfaenol oherwydd yr arbedion sylweddol mewn costau cytundebol.

(v) Roedd costau cynnwys BBC ALBA fwy na'r goddefiant o 10% o dan y gyllideb sylfaenol gan mai dim ond am chwe mis o'r flwyddyn yr oedd y gwasanaeth yn weithredol ond roedd y gyllideb sylfaenol wedi ei phennu ar sail flynyddol.

(vi) Yn gynwysedig o fewn costau cynnwys sianel BBC News mae costau cynhyrchu o £29.8miliwn, costau casglu newyddion o £17.6miliwn a chostau eraill o £0.5miliwn (2008: costau cynhyrchu o £25.7miliwn, costau casglu newyddion o £19.5miliwn a chostau eraill o £0.5miliwn).

(vii) Mae'r drwydded gwasanaeth ar gyfer Radio Lleol y BBC yn cwmpasu pob un o'r gorsafoedd unigol yn Lloegr.

(viii) Mae'n ofynnol i'r BBC ddarparu rhaglenni iaith Gymraeg i S4C fel rhan o'r Cytundeb Partneriaeth Strategol rhwng Llywodraethwyr y BBC ac Awdurdod S4C.

(ix) Ni chaiff gwariant datblygu ei reoleiddio gan drwydded gwasanaeth ac, yn hyn o beth, caiff ei nodi ar wahân. Mae ffigur 2009 yn cynnwys costau ar ddatblygu cymwysiadau technoleg ar alw newydd a buddsoddi mewn technoleg cyfryngau digidol.

(x) Mae costau ailstrwythuro eithriadol yn ymwneud â'r rhaglenni Gwerth am Arian a Gwelliant Parhaus sy'n mynd rhagddynt yn UK Public Service Broadcasting (gweler Nodyn 4c).

(xi) O dan delerau setliad cyfredol ffi'r drwydded, caiff cyfran o incwm ffi'r drwydded ei neilltuo er mwyn helpu i dalu am gostau'r diwydiant ehangach sy'n gysylltiedig â newid i ddigidol. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch farchnata ac ymwybyddiaeth a redir gan Digital UK Limited a'r Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol a weinyddir gan DSHS Limited. Gweler Nodiadau 2b a 2ch i gael manylion am y gwariant hwn.

(xii) Gweler Nodyn 8 am esboniad llawn o gostau pensiwn.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 29 BUDDIANNAU MEWN CYD-FENTRAU, PARTNERIAETHAU CYSWLLT AC IS-GWMNÏAU

Mae'r grŵp yn dal buddiannau (uniongyrchol ac anuniongyrchol) yn y cyd-fentrau, partneriaethau cyswllt ac is-gwmnïau sylweddol a restrir isod sydd, heblaw lle y nodir fel arall, wedi eu hymgorffori ym Mhrydain Fawr ac wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr. Mae rhestr lawn o gyd-fentrau, partneriaethau cyswllt ac is-gwmnïau ar gael ar gais o'r cyfeiriad canlynol: The General Counsel and Secretary, BBC, Media Centre, 201 Wood Lane, London W12 7TQ.

### 29a Cyd-fentrau sylweddol a'u gweithgareddau

Mae gan y grŵp fuddiant ecwiti o 50% yn y cyd-fentrau canlynol sydd oll wedi eu hymgorffori ym Mhrydain Fawr ac wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr, oni nodir fel arall:

| Enw'r endid | Gweithgaredd | Dyddiad cyfrifyddu |
|---|---|---|
| **Cyd-fentrau masnachol:** | | |
| 2entertain Limited* | Adloniant cartref | 31 Mawrth 2009 |
| UK Gold Holdings Limited | Sianelau | 31 Mawrth 2009 |
| UK Channel Management Limited | Sianelau | 31 Mawrth 2009 |
| UK VoD LLP** | Datblygu | 31 Rhagfyr 2008 |
| JV Programmes LLC (yn gorfforedig yn UDA) | Gwerthiannau a dosbarthu | 31 Mawrth 2009 |
| Ragdoll Worldwide Holdings Limited | Cylchgronau a phlant | 31 Mawrth 2009 |
| **Cyd-fentrau UK Public Service Broadcasting** | | |
| DTV Services Limited*** | Marchnata | 31 Awst 2008 |
| Freesat (UK) Limited | Darparu gwasanaeth teledu lloeren a ddarlledir am ddim | 31 Mawrth 2009 |

* 60% o fuddiant ecwiti.
** 33% o fuddiant ecwiti. Rhagfyr yw diwedd blwyddyn UK VoD LLP gan iddo gael ei sefydlu ym mis Chwefror 2008, rhoddwyd cyfrif o ran ecwiti ar gyfer canlyniadau ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2008.
*** 20% o ddaliant ecwiti.

**Cyd-fentrau** yw busnesau y mae'r BBC yn eu rheoli ar y cyd â phartïon eraill.

### 29b Partneriaethau cyswllt sylweddol a'u gweithgareddau

| | Dal cyfranddaliadau cyffredin a ddyroddwyd % | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| **Partneriaethau cyswllt masnachol:** | | |
| Frontline Limited | 23 | Cylchgronau a phlant |
| OPL Holdings Limited | 39 | Cylchgronau a phlant |
| 3sixtymedia Limited | 10 | Cynhyrchu |
| The Animal Planet (Europe) Partnership | 50 | Sianelau |
| **Partneriaethau cyswllt UK Public Service Broadcasting** | | |
| Parliamentary Broadcasting Unit Limited | 44 | Darparwr cynnwys |
| Broadcasters Audience Research Board Limited (BARB) | * | Ymchwil cynulleidfa |
| The Commonwealth Broadcasting Association | * | Fforwm darlledu |
| Radio Joint Audience Research Limited (RAJAR) | 50 | Ymchwil cynulleidfa |

* Mae Broadcasters Audience Research Board Limited a The Commonwealth Broadcasting Association yn gwmnïau cyfyngedig drwy warant, ac mae'r BBC yn gyd-aelod ohonynt ynghyd â darlledwyr eraill.

Busnesau yw **partneriaethau cyswllt** y mae gan y BBC gryn ddylanwad drostynt ond nid rheolaeth lwyr.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
PARHAD

## 29c Ymgymeriadau is-gwmnïau

Mae **ymgymeriadau is-gwmnïau** yn fusnesau a reolir gan y BBC.

| Enw'r endid | | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| **Is-gwmnïau Masnachol:** | | |
| BBC Commercial Holdings Limited | * | Cwmni daliannol |
| BBC Worldwide Limited | ** | Cyhoeddi, sianelau a dosbarthu rhaglenni |
| BBC World News Limited | ^ ** | Sianelau |
| BBC Ventures Group Limited | ** | Cwmni daliannol |
| BBC Studios and Post Production Limited | ^^ ** | Cyfleusterau a gwasanaethau gwneud rhaglenni |
| Lonely Planet Pty Limited (yn gorfforedig yn Awstralia) | ** | Cyhoeddwr Llyfrau Teithio |
| BBC Worldwide Australia Pty Limited (yn gorfforedig yn Awstralia) | ** | Cwmni buddsoddi |
| BBC Magazines Limited | ** | Cwmni buddsoddi |
| BBC Magazines Rights Limited | ** | Cwmni buddsoddi |
| BBC Worldwide Americas Inc. (yn gorfforedig yn UDA) | ** | Cwmni buddsoddi |
| BBC World Distribution Limited | ** | Dosbarthu rhaglenni |
| **Is-gwmnïau a ymgorfforir i weithredu ar ran UK Public Service Broadcasting:** | | |
| BBC Property Limited | * | Eiddo |
| Centre House Productions Limited | * | Ariannu cynyrchiadau |
| Digital UK Limited*** | * | Newid i ddigidol |
| DSHS Limited | * | Newid i ddigidol |

* Yn berchen arno'n uniongyrchol.
** Yn berchen arno'n anuniongyrchol.
*** Mae'r BBC yn rheoli 56% o hawliau pleidleisio Digital UK Limited. Mae ei ganlyniadau wedi'u cyfuno yng nghyfrifon y grŵp. Mae Digital UK Limited yn gwmni sy'n gyfyngedig drwy warant y mae'r BBC yn gyd-aelod ohono. Yr aelodau eraill a'u hawliau pleidleisio yn Digital UK Limited yw: ITV plc 11%, Channel Four Television Corporation 11%, Channel Five Broadcasting Limited 8.75%, National Grid Wireless 6.25%, SON Limited 3.5%, S4C 2.25% a Teletext Limited 1.25%.
^ Newidiodd BBC World Limited ei enw i BBC World News Limited ar 1 Awst 2008.
^^ Newidiodd BBC Resources Limited ei enw i BBC Studios and Post Production Limited ar 1 Ebrill 2009.

# FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y BBC/

## MAE'R BWRDD GWEITHREDOL WEDI CYDYMFFURFIO Â GOFYNION Y SIARTER, GAN GREU TREFNIADAU LLYWODRAETHU PRIODOL AC EFFEITHIOL AR GYFER Y BBC.

Diffinnir fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC yn y Siarter Frenhinol (y Siarter).

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn asesu perfformiad rheolwyr y BBC a'i wasanaethau. Mae ei harolwg a'i hasesiad ar gyfer 2008/09 ar gael yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cyfrifon, ac ar-lein yn www.bbc.co.uk/annualreport

Mae'r Siarter hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol.

Felly, er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, mae wedi dewis dilyn darpariaethau perthnasol Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a Chod Cyfunol 2006 y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar Lywodraethu Corfforaethol (Cod FRC 2006), er mwyn bod yn gyson â chwmnïau a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cydymffurfio â gofynion y Siarter, gan greu trefniadau llywodraethu priodol ac effeithiol ar gyfer y BBC. Mae hyn hefyd wedi sicrhau cydymffurfiaeth sylweddol â Chod FRC 2006 er nad yw Cod FRC 2006 yn briodol i amgylchiadau'r BBC mewn nifer o feysydd. Mae cydymffurfio â'r Siarter wedi arwain at nifer fechan o feysydd lle na chydymffurfiwyd â Chod FRC 2006, er bod y Bwrdd yn credu nad yw hyn yn peryglu ansawdd y trefniadau llywodraethu sydd ar waith, fel y dangosir yma:

Tabl 1/ **Fframwaith llywodraethu'r BBC**

| Egwyddor Cod FRC 2006 | Sefyllfa'r BBC | Esboniad |
|---|---|---|
| A.2 – Dylai fod rhaniad clir o ran cyfrifoldebau ar lefel uchaf y cwmni rhwng y gwaith o redeg y bwrdd a'r cyfrifoldeb gweithredol am gynnal busnes y cwmni. Ni ddylai fod gan un unigolyn bwerau dilyffethair i wneud penderfyniadau. | Cadeirydd y Bwrdd yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, prif swyddog gweithredol y BBC. | Mae'r Siarter yn nodi y gall y Cyfarwyddwr Cyffredinol weithredu fel Cadeirydd Gweithredol y Bwrdd. Hefyd, mae goruchwyliaeth strategol gan Ymddiriedolaeth y BBC yn sicrhau nad oes gan un unigolyn bwerau dilyffethair. |
| A.3 – Dylai'r Bwrdd gynnwys cydbwysedd o Gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol (ac yn arbennig Gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol) fel na all un unigolyn na grŵp bach o unigolion reoli gwaith y Bwrdd o wneud penderfyniadau. | Mae'r Bwrdd yn cynnwys 16 o gyfarwyddwyr, gyda deg ohonynt yn gyfarwyddwyr gweithredol a chwech yn Gyfarwyddwyr anweithredol. O ganlyniad, nid yw'r Bwrdd yn cydymffurfio â'r ddarpariaeth (A.3.2) y dylai o leiaf hanner y Bwrdd, ac eithrio'r Cadeirydd, fod yn annibynnol.<br>Ystyrir bod pob Cyfarwyddwr anweithredol yn annibynnol at ddibenion Cod FRC 2006, ar ôl cydnabod yr angen am gyfranogiad gan sector y cyfryngau yn y DU. | Mae'r Siarter yn nodi na all nifer y Cyfarwyddwyr anweithredol fod yn llai na thraean ac na all fod yn hafal i neu'n fwy na hanner aelodau'r Bwrdd.<br>Mae'r Bwrdd yn cynnwys cydbwysedd o Gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol ac ni all unigolyn na grŵp bach o unigolion reoli'r gwaith o wneud penderfyniadau. |

Nid yw rhai o ddarpariaethau Cod FRC 2006 yn briodol i amgylchiadau'r BBC fel corff cyhoeddus nad yw'n gweithredu er elw ac nad oes ganddo gyfranddeiliaid. Yn benodol, nid yw darpariaethau sy'n ymwneud â rhyngweithio â chyfranddeiliaid yn amlwg yn gymwys i'r BBC, er ei bod, o dan rai amgylchiadau, yn bosibl ystyried, drwy gyfatebiaeth, y ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwneud â thalwyr ffi'r drwydded. Nodir hyn yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Mae un o ddarpariaethau eraill Cod FRC 2006 sy'n gysylltiedig â chyfranddeiliaid yn ymwneud ag alinio cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol â gwella gwerth cyfranddeiliaid ac felly roi rhai elfennau o gydnabyddiaeth ar sail perfformiad (darpariaeth B.1.1). Mae strategaeth y BBC ar gyfer cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol, a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth a Phwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, yn cydymffurfio ag egwyddor B.1 Cod FRC 2006 sy'n nodi y dylai lefelau cydnabyddiaeth fod yn ddigonol i ddenu, cadw a chymell cyfarwyddwyr o'r ansawdd sydd ei angen i redeg y BBC yn llwyddiannus. Fodd bynnag, o ystyried pwrpasau cyhoeddus y BBC, mae swm y gydnabyddiaeth amrywiol (neu'r gydnabyddiaeth sy'n ymwneud â pherfformiad) y gellir ei ennill yn gyfyngedig. Yn ystod 2008/09, penderfynodd y Bwrdd atal y trefniadau bonws yn ôl disgresiwn ar gyfer pob aelod o staff (ar wahân i staff a gyflogir mewn rhai busnesau masnachol); talwyd unrhyw daliadau bonws a oedd yn ymrwymiadau cytundebol.

## BWRDD GWEITHREDOL

### Rôl y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am reoli pob un o weithrediadau'r BBC, heblaw Uned Ymddiriedolaeth y BBC. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- darparu gwasanaethau'r BBC yn unol â chylchoedd gwaith pwrpas, trwyddedau gwasanaeth a strategaethau busnes eraill.
- cyfeirio allbwn golygyddol a chreadigol.
- sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol (gan gynnwys cam cychwynnol ymdrin â chwynion am y BBC), heblaw lle mae'r meysydd hyn yn ymwneud yn benodol ag Ymddiriedolaeth y BBC neu Uned Ymddiriedolaeth y BBC.
- penodi timau rheoli'r BBC a'i is-gwmnïau a'u dwyn i gyfrif.
- cynnal materion ariannol y BBC er mwyn sicrhau gwerth am arian.
- bod yn atebol i Ymddiriedolaeth y BBC am ei berfformiad ei hun, yn ogystal â pherfformiad y BBC a'i is-gwmnïau, a chydymffurfio ag unrhyw benderfyniadau gan Ymddiriedolaeth y BBC.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob mis (heblaw am fis Awst); mae cofnodion cryno o'r cyfarfodydd ar gael ar-lein yn www.bbc.co.uk/info/running/executive/minutes.shtml

Yn ymarferol, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i grwpiau rheoli eraill. Nodir unrhyw ddirprwyaeth o'r Bwrdd yn rheolau sefydlog perthnasol pob grŵp a phennir fframwaith ar gyfer adrodd ac adolygu.

Dechreuwyd ar werthusiad o effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau eleni. Mae'r gwerthusiad yn cael ei hwyluso gan ymgynghorwyr allanol ac mae'n cynnwys cyfres o gyfweliadau a holiaduron. Caiff y canlyniadau eu hystyried gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'u trafod gan y Bwrdd cyfan.

Yn unol â gofynion a darpariaethau'r Siarter parhaodd y Pwyllgorau canlynol i weithredu y llynedd:

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Masnachu Teg
- Pwyllgor Enwebiadau
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth

### Tabl 2/ Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol a Phwyllgorau

| | Bwrdd Gweithredol | | Pwyllgor Archwilio | | Pwyllgor Masnachu Teg | Pwyllgor Enwebiadau[1] | | Pwyllgor Cydnabyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyffredin | Eithriadol | Aelod | Yn bresennol | | Aelod | Yn bresennol | Aelod | Yn bresennol |
| **Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod** | 11 | 4 | 4 | | 4 | 1 | | 7 | |
| Mark Thompson | 11 | 4 | | 4 | | 1 | | | 7 |
| Mark Byford | 9 | 3 | | | | 1 | | | |
| Jenny Abramsky[2] | 4/4 | 2/2 | | | | | | | |
| Jana Bennett | 10 | 4 | | | | | | | |
| Tim Davie[3] | 11 | 4 | | | | | | | |
| Ashley Highfield[4] | 3/3 | 0/2 | | | | | | | |
| Erik Huggers[4] | 7/7 | 2/2 | | | | | | | |
| Stephen Kelly[5] | 7/10 | 2/4 | | | | | 1 | | 6/7 |
| Zarin Patel[6] | 8/9 | 2/3 | | 3/3 | 3/4 | | | | |
| John Smith | 11 | 4 | | | | | | | |
| Caroline Thomson | 11 | 4 | | | 4 | | | | |
| Marcus Agius<br>Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth | 9 | 3 | | | 2 | 1 | | 6 | |
| Val Gooding | 9 | 3 | | | | | | | |
| Dr Mike Lynch | 10 | 4 | 4 | | 1 | | | 7 | |
| David Robbie<br>Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio | 11 | 3 | 4 | | | | | | |
| Dr Samir Shah | 8 | 4 | 4 | | | | | | 1 |
| Robert Webb<br>Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg | 10 | 4 | | | 4 | | | 6 | |

Ar gyfer y cyfarwyddwyr hynny a wasanaethodd ar gyfer rhan o'r flwyddyn yn unig, nodir cyfanswm nifer y cyfarfodydd y gallent fod wedi mynd iddynt ochr yn ochr â'r nifer yr oeddent yn bresennol ynddynt (nifer a fynychwyd/cyfanswm posibl).

[1] I Mae aelodaeth o'r Pwyllgor yn amrywio yn dibynnu ar y penodiad (anweithredol neu weithredol) a wneir. Mae Marcus Agius, Mark Thompson a Dr Mike Lynch yn aelodau ar gyfer pob penodiad. Mae Mark Byford yn aelod ar gyfer penodiadau gweithredol ac yn mynychu cyfarfodydd ar gyfer penodiadau anweithredol yn rheolaidd. Mark Thompson yw'r Cadeirydd ar gyfer penodiadau gweithredol a Marcus Agius yw'r cadeirydd ar gyfer penodiadau anweithredol.

[2] Ymddiswyddodd Jenny Abramsky o'i swydd fel Cyfarwyddwr, Sain a Cherddoriaeth ym mis Medi 2008.

[3] Ymddiswyddodd Tim Davie o'i swydd fel Cyfarwyddwr, Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd ym mis Awst 2008 a chafodd ei benodi yn Gyfarwyddwr, Sain a Cherddoriaeth ym mis Medi 2008.

[4] Ymddiswyddodd Ashley Highfield o'i swydd fel Cyfarwyddwr, Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol ym mis Mehefin 2008 a phenodwyd Erik Huggers yn Gyfarwyddwr, Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol ym mis Awst 2008.

[5] Ymddiswyddodd Stephen Kelly o'i swydd fel Cyfarwyddwr, BBC People ym mis Chwefror 2009. Roedd y Cyfarwyddwr Dros Dro, BBC People, yn bresennol mewn un cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol.

[6] Cafodd Zarin Patel dri mis o seibiant astudio yn Harvard rhwng mis Awst a mis Hydref 2008 ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd y Prif Swyddog Ariannol Dros Dro yn bresennol mewn tri chyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol ac un cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio.

## SEFYDLU, PERFFORMIAD A DATBLYGIAD

Pan fyddant yn ymuno â'r BBC, bydd pob cyfarwyddwr newydd yn cael rhaglen sefydlu ac ystod eang o wybodaeth am y BBC. Bydd cynnwys y rhaglen sefydlu yn amrywio yn dibynnu ar p'un a yw'r penodiad yn un gweithredol neu anweithredol ac a oedd y cyfarwyddwr newydd yn ymgeisydd allanol ai peidio. Mae'r wybodaeth bob amser yn cynnwys manylion am weithdrefnau'r Bwrdd a chyfrifoldebau cyfarwyddwyr. Gall pob cyfarwyddwr gael cyngor annibynnol allanol os bydd yn dymuno hynny.

Asesir perfformiad y Bwrdd wrth ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau'r BBC gan yr Ymddiriedolaeth, yn unol â'r Siarter. Mae hyn yn cynnwys adolygu cynnydd yn barhaus a diwrnod perfformiad blynyddol, a fynychir gan y Bwrdd ac Ymddiriedolaeth y BBC. Mae Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC hefyd yn cyfarfod ar wahân â'r Cyfarwyddwyr anweithredol bob blwyddyn.

Mae prosesau adolygu perfformiad Pwyllgorau'r Bwrdd yn parhau i ddatblygu ac mae pob un yn adolygu ei berfformiad a'i effeithiolrwydd ei hun. Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys.

Mae gan bob cyfarwyddwr gweithredol ei amcanion personol ac adrannol ei hun, a chaiff ei berfformiad yn eu herbyn ei adolygu gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol bob blwyddyn, a chan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

## PWYLLGOR ENWEBIADAU

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn goruchwylio'r broses o gynnig, penodi ac – os bydd angen – diswyddo aelodau o'r Bwrdd. Yr unig eithriad yw'r Cadeirydd, a benodir gan Ymddiriedolaeth y BBC. Mae aelodaeth o'r Pwyllgor Enwebiadau yn ddibynnol ar ba un a yw'n delio â phenodiadau gweithredol neu anweithredol.


### Penodiadau gweithredol

Gwnaed pedwar penodiad gweithredol eleni. Dechreuodd dau o'r cyfarwyddwyr hyn yn eu swydd cyn diwedd y flwyddyn – Erik Huggers, Cyfarwyddwr, Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol, a Tim Davie, Cyfarwyddwr, Sain a Cherddoriaeth – a dau ar ôl diwedd y flwyddyn – Sharon Baylay, Cyfarwyddwr, Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd, a Lucy Adams, Cyfarwyddwr, BBC People. Yn ôl yr arfer, cynghorwyd y Pwyllgor Enwebiadau gan BBC People wrth wneud pob un o'r penodiadau hyn; gwnaed pob un ohonynt ar sail teilyngdod ac yn erbyn meini prawf gwrthrychol.

Penodwyd ein Cyfarwyddwr newydd, BBC North eleni hefyd, ac ymunodd â'r Bwrdd ym mis Ebrill 2010.

### Penodiadau anweithredol

Roedd disgwyl i bedwar Cyfarwyddwr anweithredol roi'r gorau i'w swydd ar 31 Rhagfyr 2008. Ar ôl cynnal arolwg trylwyr o gyfansoddiad ac anghenion y Bwrdd, yn ogystal â sgiliau, profiad a gwybodaeth y cyfarwyddwyr unigol, argymhellodd y Pwyllgor Enwebiadau i'r Bwrdd Gweithredol a'r Ymddiriedolaeth y dylai Dr Mike Lynch, David Robbie, Dr Samir Shah a Robert Webb gael eu hailbenodi am ddwy flynedd arall.



**Adroddiad yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol**

Blwyddyn ariannol 2008/09 yw'r ail flwyddyn y bu'r Bwrdd yn gweithredu â Chyfarwyddwyr anweithredol ac, fel y rhagwelwyd yn fy Adroddiad yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y llynedd, crëwyd cydberthnasau gwaith effeithiol ymhlith aelodau'r Bwrdd yn seiliedig ar ethos cydweithredol cryf. Bu agenda lawn o fusnes rheolaidd yn ogystal ag achlysurol, a llawer i brofi gallu'r cyfarwyddwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu ar y sail bod y cyfarwyddwyr gweithredol yn cydnabod ac yn deall bod gan y Cyfarwyddwyr anweithredol hawl - yn wir ddyletswydd – i'w herio drwy wneud ymholiadau a'u holi a bod hyn yn gymwys i faterion ar yr agenda a materion o ddiddordeb perthnasol. Ar yr un pryd, mae'r Cyfarwyddwyr anweithredol yn cydnabod yn eu tro fod yn rhaid iddynt helpu'r cyfarwyddwyr gweithredol i wneud y penderfyniadau gorau posibl ar ôl dadansoddi a thrafod, a'u cynorthwyo wedyn i gymryd camau gweithredol.

O'r nifer fawr o faterion a drafodwyd gan y Bwrdd, y disgrifir y rhan fwyaf ohonynt rywle arall yn yr Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cyfrifon, byddwn yn dewis y canlynol (heb fod mewn unrhyw drefn arbennig) fel rhai sy'n cynrychioli pynciau lle y teimlwyd fwyaf o bosibl fod budd cael amrywiaeth eang o safbwyntiau a phrofiad:

- arolwg Ofcom o Ddarlledu Cyhoeddus
- datblygiad parhaus BBC iPlayer
- atal y cynllun bonws yn ôl disgresiwn ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol
- arolwg o opsiynau ar gyfer BBC Worldwide
- ymdopi ag effaith y dirwasgiad ar gyllid y BBC

Ym mhob achos, roedd y materion dan sylw yn rhai cymhleth a sensitif ac roedd y canlyniadau o ran enw da yn bellgyrhaeddol. Gallaf gadarnhau i'r eitemau hyn – fel y rhai eraill – gael eu trafod mewn ffordd agored a thryloyw a bod y drafodaeth wedi'i chynnal gyda'r amcan sylfaenol o wasanaethu pwrpasau cyhoeddus y BBC.

**Marcus Agius**
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
18 Mehefin 2009

## ATEBOLRWYDD A RHEOLAETH FEWNOL

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod proses ar gyfer rheoli risgiau mawr i'r BBC, ac ar gyfer cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol ac adolygu ei heffeithiolrwydd.

### Nodi a rheoli risgiau a pherchenogaeth ohonynt

Yn ein barn ni, y ffordd fwyaf effeithiol o reoli risg yn gyffredinol yn y BBC, sy'n rhan annatod o'r broses o gyflawni amcanion busnes, yw drwy gynnwys y Bwrdd cyfan ac felly ni ddirprwyir y gwaith o reoli risg i is-bwyllgor. Mae proses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso, rheoli, monitro ac adrodd am risgiau mawr i'r BBC, sy'n unol â chanllawiau Turnbull (Rheolaeth Fewnol: Canllawiau Diwygiedig i Gyfarwyddwyr ar y Cod Cyfunol), wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 a hyd at ddyddiad cymeradwyo

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC eleni. Mae elfennau allweddol y broses yn cynnwys:

- mae gan gyfarwyddwr pob un o'r grwpiau busnes gyfrifoldeb am nodi a rheoli'r risgiau sy'n wynebu ei fusnes, a chadw cofrestr o risgiau busnes allweddol a nodwyd a all gael effaith ar gyflawni ei amcanion strategol neu ei ddibenion busnes craidd, ynghyd â dulliau lliniaru. Mae cofrestrau risg yn cael eu hadolygu a'u hasesu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, ac yn cyfrannu at y gwaith o ystyried amlygiad i risg yn lleol ac ar lefel y Bwrdd.
- mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd a'r newyddion diweddaraf ar amlygiad risg y BBC, gan ganolbwyntio ar y rhai y tybiwn eu bod yn hollbwysig i lwyddiant y BBC, yn cynnwys sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli.
- cyflwynir adroddiad blynyddol ar y broses gyffredinol o reoli risg i'r Pwyllgor Archwilio.
- mae swyddogaethau arbenigol yn cadw golwg ar y ffordd y caiff rhai meysydd risg sylweddol eu rheoli, gan sicrhau bod fframweithiau a threfniadau priodol ar waith i'w rheoli'n gyson ar draws y busnes, a sicrhau perchenogaeth effeithiol ar lefel uwch.
- cymerir y cyfrifoldeb am leihau'r risg o dwyll yn ddifrifol iawn. Mae ein polisi twyll yn sefydlu fframwaith clir o reolaethau i leihau'r risg o weithgarwch twyllodrus, ac yn pennu cyfrifoldeb am eu rheoli. Ymchwilir i bob digwyddiad honedig o dwyll.

## Rheolaeth fewnol

Mae'r Bwrdd, wedi ei gefnogi gan uwch dimau rheoli, yn gyfrifol am sefydlu, cynnal ac adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y BBC ac am sicrhau y cymerir y camau angenrheidiol i wella diffygion neu wendidau sylweddol a nodir. Cynllunnir ein system rheolaeth i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes. Er na all unrhyw system rheolaeth fewnol ddarparu sicrwydd llwyr yn erbyn camddatganiad perthnasol neu golled, cynllunnir rheolaethau'r BBC i roi sicrwydd rhesymol bod asedau'n cael eu diogelu, bod trafodion yn cael eu hawdurdodi'n briodol a bod gwallau perthnasol neu unrhyw achosion o afreoleidd-dra yn cael eu hatal neu eu canfod yn amserol. Mae elfennau allweddol ein system rheolaeth fewnol yn cynnwys:

- prosesau ariannol misol, chwarterol a blynyddol cynhwysfawr a phrosesau adrodd eraill, o fewn grwpiau busnes a hyd at y Bwrdd.
- prosesau awdurdodi ffurfiol sy'n cwmpasu pob trafodyn ariannol. Mae meini prawf wedi eu diffinio'n glir pan fydd angen cymeradwyaeth y Bwrdd.
- prosesau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfau a rheoliadau cymwys, yn cynnwys gofynion Ofcom.
- prosesau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhoi gwasanaethau busnes allweddol ar gontract (megis casglu ffi'r drwydded a systemau technoleg a chymorth) a sicrhau parhad ein gweithrediadau busnes o ddydd i ddydd.
- polisïau a gweithdrefnau ffurfiol yn ymwneud â phob proses fusnes berthnasol, i sicrhau bod llif gwybodaeth amserol, perthnasol a dibynadwy ar gael ym mhob rhan o'r busnes.
- prosesau i sicrhau bod ein staff yn broffesiynol ac yn gymwys, megis polisïau recriwtio, arfarniadau o berfformiad a rhaglenni hyfforddiant.

Mae'r Bwrdd, gan ddibynnu ar waith manwl y Pwyllgor Archwilio a thrwy adolygu a thrafod adroddiadau chwarterol ar risg a chydymffurfio, yn cadarnhau ei fod wedi ystyried effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol sydd wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn ariannol a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Cododd nifer o faterion yn ymwneud â safonau golygyddol yn ystod y flwyddyn. Roedd yr amlycaf o'r rhain yn ymwneud â sylwadau a wnaed ar The Russell Brand Show. Cododd y rhaglen faterion pwysig yn ymwneud â safonau golygyddol ac effeithiolrwydd cydymffurfiaeth rhaglenni. Mae cyfres o fesurau wedi'u cymryd i sicrhau y glynir wrth brosesau'n ymwneud â chydymffurfiaeth rhaglenni yn llym ac na chaiff rhaglenni a recordiwyd ymlaen llaw nad ydynt wedi cwblhau'r broses gydymffurfiaeth eu darlledu. Ar yr un pryd, mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi gofyn i reolwyr ailedrych ar ffiniau chwaeth a safonau ac i fwydo unrhyw gasgliadau perthnasol i mewn i'r broses o ddiwygio Canllawiau Golygyddol y BBC.

## Archwiliad mewnol

Mae ein Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Rheoli Risg ac Ymchwilio yn cyfuno i ffurfio ein swyddogaeth Sicrwydd Busnes, a arweinir gan y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd. Caiff awdurdod ac annibyniaeth Archwiliad Mewnol eu sicrhau gan gysylltiad annibynnol ac uniongyrchol y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Archwilio. Mae Archwiliad Mewnol yn profi ein systemau rheolaeth a'n prosesau busnes craidd yn rheolaidd, gan werthuso eu digonolrwydd a sicrhau y cânt eu cymhwyso'n gyson ym mhob rhan o'r BBC. Cytunir ar y cynllun gwaith, sy'n seiliedig ar asesiad parhaus o'r risgiau allweddol, yn flynyddol gyda'r Pwyllgor Archwilio ac mae'n cwmpasu rheolaethau ariannol, gweithredol a chydymffurfio, yn cynnwys arfer hawl y BBC i gynnal archwiliad o bartïon allanol, megis cwmnïau cynhyrchu annibynnol a chyflenwyr gwasanaethau busnes allweddol ar gontract allanol. Hysbysir y lefelau rheoli priodol o unrhyw fethiannau neu wendidau o bwys ym maes rheolaeth a nodir. Hysbysir y Pwyllgor Archwilio o statws camau adferol a gymerir i fynd i'r afael â hwy.

## Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol

Aelodau'r Pwyllgor Archwilio, y penodwyd pob un ohonynt ym mis Ionawr 2007, yw'r Cyfarwyddwyr anweithredol David Robbie (Cadeirydd), Dr Mike Lynch a Dr Samir Shah. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod gan David Robbie brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. Mae'r pwyllgor yn ychwanegu at yr ystod eang o sgiliau sydd gan ei dri aelod, a gafodd eu meithrin o ganlyniad i gryn brofiad mewn uwch swyddi gyda sefydliadau eraill, gyda chyngor fel y bo angen gan unigolion proffesiynol mewnol ac allanol, ar faterion perthnasol yn cynnwys datblygiadau ym maes adroddiadau ariannol a chyfraith cwmnïau.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu ei Gylch Gorchwyl ac wedi cymeradwyo ei gymhwysiad parhaus, gan dybio ei fod yn briodol i sicrhau effeithiolrwydd parhaus y pwyllgor.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Prif Swyddog Ariannol (ar gyfer tri chyfarfod, gyda'r Prif Swyddog Ariannol Dros Dro yn bresennol mewn un cyfarfod) ac, o fis Mehefin 2008 ymlaen, y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd newydd, yn bresennol yn y cyfarfodydd. Roedd cynrychiolwyr Archwiliad Mewnol, Rheoli Risg a'r archwilwyr allanol yn bresennol hefyd. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod â'r archwilwyr allanol heb unrhyw reolwyr yn bresennol o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd, ar ei ben ei hun neu gyda'r archwilwyr allanol, heb reolwyr yn bresennol, ac yn cyfarfod yn breifat hefyd gyda'r partner arweiniol archwilio allanol.

Mae cofnodion pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, pan gânt eu cymeradwyo, ar gael i'r Bwrdd Gweithredol ac i Ymddiriedolaeth y BBC. Adroddir yn ôl i'r Bwrdd ar argymhellion y pwyllgor ar unrhyw faes o fewn ei gylch gwaith lle mae angen cymryd camau neu wneud gwelliannau drwy ba lwybr bynnag y tybir sydd fwyaf priodol i natur ac amgylchiadau'r mater. Mae Cadeirydd y pwyllgor yn cyflwyno adroddiad yn ffurfiol i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn ar bob mater o fewn dyletswyddau a chyfrifoldebau'r pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer y flwyddyn; mae wedi:

- adolygu effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol. Wrth wneud hynny, mae wedi ystyried canfyddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol ac wedi ceisio sicrwydd gan reolwyr yr ymdrinnir ag unrhyw faterion rheoli y tynnir sylw atynt. Mae hefyd wedi ystyried adroddiadau gan reolwyr ar brosesau i reoli risgiau sylweddol.
- adolygu datganiadau ariannol grŵp y BBC, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu, cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoliadol a chanfyddiadau'r archwilwyr allanol.
- goruchwylio perthynas y BBC â'r archwilwyr allanol, gan gynnwys eu penodiad, cwmpas eu gwaith a sut maent yn cyflawni eu gwaith, eu ffioedd, eu perfformiad a'u hannibyniaeth, gan gynnwys cymeradwyo a chydymffurfio â'r polisi ar waith nad yw'n waith archwilio.
- cymeradwyo cynllun gwaith Archwiliad Mewnol.
- adolygu'r prosesau sydd ar waith ar gyfer canfod twyll a threfniadau chwythu'r chwiban.

## Annibyniaeth archwilwyr allanol

Rydym yn cydymffurfio â'r canllawiau ar gynnal cydberthynas briodol ag archwilwyr allanol fel y nodir yng Nghod FRC 2006. Yr archwilwyr allanol a benodir gan y BBC yw KPMG LLP, sydd â chamau diogelwch ar waith er mwyn osgoi'r posibilrwydd o beryglu gwrthrychedd ac annibyniaeth eu gwaith archwilio. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu gwrthrychedd ac annibyniaeth archwilio ei archwilwyr allanol hefyd, ac mae'n rhaid cael ei gymeradwyaeth ymlaen llaw cyn recriwtio o KPMG LLP i unrhyw swydd uwch reolwr yn y BBC.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi pennu polisi clir sy'n diffinio'r trothwy y mae'n rhaid i unrhyw waith arfaethedig nad yw'n waith archwilio a wneir gan KPMG LLP sydd y tu hwnt i'r trothwy hwn gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y pwyllgor, ac mae'r polisi hefyd yn diffinio pryd y mae'n rhaid iddo gael ei gyflwyno i dendr cystadleuol. Ym mhob achos, nid ystyrir KPMG LLP ar gyfer gwaith a allai effeithio'n andwyol ar eu gallu i fynegi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC.

## Chwythu'r chwiban

Mae gennym bolisi 'chwythu'r chwiban' (datgeliad wedi ei ddiogelu), i hwyluso'r gwaith o roi gwybod yn gyfrinachol drwy nifer o ffyrdd am unrhyw ddigwyddiad lle mae amheuaeth fod codau'r BBC wedi cael eu torri. Mae'r BBC yn meithrin amgylchedd lle y dylai pob aelod o staff deimlo ei fod yn gallu rhoi gwybod am bryderon ac amheuon i reolwyr llinell. Fodd bynnag, gallai digwyddiadau gwirioneddol neu

### Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol



Prif ffocws y Pwyllgor Archwilio yw adolygu a goruchwylio gwaith llywodraethu corfforaethol yn y BBC, yn enwedig adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Yn ein cyfarfodydd, rydym yn adolygu'r materion a godwyd gan Archwiliad Mewnol a chynnydd y rheolwyr o ran mynd i'r afael â'r rhain yn rheolaidd. Rydym yn herio rheolwyr i wneud y newidiadau angenrheidiol gyda chyn lleied o oedi â phosibl, gan ddefnyddio ein gwybodaeth gyfunol a'n profiad amrywiol gyda sefydliadau eraill. Rydym hefyd yn cael y newyddion diweddaraf yn rheolaidd gan ein harchwilwyr allanol; mae'r rhain yn amlinellu eu dull archwilio ac unrhyw faterion y dymunant eu dwyn i'n sylw i'w trafod.

Er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o'r risgiau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r BBC a gwerthfawrogiad llawnach o'r gwaith sy'n mynd rhagddo a gwaith arfaethedig i liniaru'r risgiau hynny, rydym hefyd yn gofyn am bapurau a chyflwyniadau gan reolwyr ar risgiau mawr sy'n uchel ar agenda'r BBC ac ar broffiliau risg ar draws y BBC a ddewisir ar sail cylchdro. Mae ein diddordeb yn seiliedig ar briodoldeb a digonolrwydd y camau gweithredu a gymerir i reoli'r risg a heriwn reolwyr os teimlwn y gellir gwneud gwelliannau. Eleni, yn benodol, rydym wedi ystyried methiannau mewn rheolaethau golygyddol a'r cynlluniau manwl i atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd eto, y dirwasgiad byd-eang a'i effaith ar y BBC a'i randdeiliaid niferus, a materion diogelu data yn sgîl pryder cyffredinol y cyhoedd.

Mae cwmpas y pwyllgor hwn yn cwmpasu pob rhan o grŵp y BBC; felly rydym hefyd yn cael ac yn trafod diweddariadau gan y Pwyllgorau Archwilio eraill sy'n goruchwylio ein busnesau masnachol.

**David Robbie**
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
18 Mehefin 2009

ddigwyddiadau a amheuir fod yn sensitif eu natur ac felly rydym yn darparu llinell gymorth 'chwythu'r chwiban', a weinyddir gan gwmni allanol annibynnol er mwyn sicrhau anhysbysrwydd. Ymchwilir i unrhyw ddigwyddiadau neu amheuon y rhoddir gwybod amdanynt mewn ffordd gyfrinachol, rhoddir ateb a chymerir y camau gweithredu priodol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau yr ymchwilir i faterion a gofnodir yn gymesur ac yn annibynnol ac y cymerir camau dilynol priodol.

## ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH Y BWRDD GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd. Fe'i paratowyd ar y sail bod gofynion Rheoliadau Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr 2002 a rhai'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn gymwys i'r BBC lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol. Caiff yr adrannau ar bensiynau a chydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd eu harchwilio gan KPMG LLP.

### Pwyllgorau Cydnabyddiaeth: cyfansoddiad a gweithrediad

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol am bennu'r strategaeth cydnabyddiaeth ar gyfer y Bwrdd ac mae'n gyfrifol am bob agwedd ar gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr anweithredol. Am ragor o wybodaeth am y Pwyllgor, gweler arolwg ac asesiad yr Ymddiriedolaeth yn Rhan Un o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2008/09.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer pob un o aelodau gweithredol y Bwrdd, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae aelodau'r Pwyllgor yn Gyfarwyddwyr anweithredol, sef Marcus Agius (Cadeirydd), Dr Mike Lynch a Robert Webb.

Mynychir cyfarfodydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chyfarwyddwr BBC People hefyd, drwy wahoddiad, i gynghori ar faterion yn ymwneud ag aelodau eraill o'r Bwrdd a pherfformiad cyffredinol y BBC. Nid yw Cyfarwyddwr BBC People yn bresennol pan ystyrir materion ynghylch ei gydnabyddiaeth ei hunan. Gall Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol fanteisio ar arbenigedd mewnol drwy Gyfarwyddwr Gwobrwyo'r BBC, sydd hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, drwy gydymffurfio â Chod Cyfunol FRC 2006 ar Lywodraethu Corfforaethol, yn derbyn cyngor arbenigol gan ymgynghorwyr proffesiynol allanol. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan Hewitts hyd at fis Medi 2008 a chan PricewaterhouseCoopers wedi hynny.

### Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr anweithredol

Pennir ffioedd Cyfarwyddwyr anweithredol gan yr Ymddiriedolaeth. Ceir gwybodaeth am sut y pennir lefel y ffioedd yn arolwg yr Ymddiriedolaeth yn Rhan Un.

### Cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol

Bwriad y strategaeth, a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth, yw rhoi cydnabyddiaeth sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r bobl allweddol sydd eu hangen i arwain y gorfforaeth, tra'n cydnabod statws y BBC fel corfforaeth a ariennir gan y cyhoedd y mae'n rhaid iddi sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Cyflawnir hyn drwy alinio cyflog sylfaenol â chyflog canolig y farchnad ar gyfer y sefydliadau masnachol y mae'r BBC yn cystadlu â hwy am dalent, er na cheisir cynnig tâl amrywiol sy'n cyfateb i'r lefelau tâl amrywiol a gynigir gan y sefydliadau hynny.

Bob blwyddyn, mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn adolygu data ar daliadau'r farchnad a ddarperir yn annibynnol i ategu ei benderfyniadau ar gydnabyddiaeth, a sicrhau bod lefelau tâl yn gyson â'r strategaeth y cytunwyd arni. Dangosodd data o arolwg cyflogau blynyddol 2008 fod cyflog sylfaenol wedi'i alinio i raddau helaeth â lefel ganolig y farchnad ond bod cyfanswm yr iawndal uniongyrchol (cyflog sylfaenol ynghyd â thâl amrywiol) yn amrywio rhwng 40% a 66% o'r lefel a delir gan ein cystadleuwyr yn y sector masnachol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn codi oherwydd y symiau ychwanegol sylweddol o dâl amrywiol (yn cynnwys dyfarniadau ar sail cyfranddaliadau) a ddarperir yn y sector masnachol.

Rhoddir manylion pellach ar bob elfen ar gydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol yn y paragraffau canlynol.

#### Cyflog sylfaenol

Wrth bennu cyflog sylfaenol mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn ystyried cyflog sylfaenol prif gystadleuwyr y BBC a'r sefydliadau eraill y mae'n cystadlu â hwy am dalent; fforddiadwyedd y BBC i wobrwyo ei aelodau gweithredol; a pherfformiad yr aelodau gweithredol. Caiff cyflog sylfaenol ei alinio â lefel ganolig y farchnad er mwyn sicrhau nad yw'r BBC yn arwain y farchnad o ran cyflogau aelodau gweithredol yn sector y cyfryngau.

#### Tâl amrywiol

Darperir elfen gyfyngedig o dâl amrywiol, sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion allweddol a chyfraniad cyffredinol at berfformiad y BBC. Mae'r cyfarwyddwyr gweithredol (ac eithrio Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide) yn gymwys i gael bonws blynyddol yn ôl disgresiwn o hyd at 10% o'r cyflog sylfaenol, y mae hyd at 6% ohono am gyflawni targedau gwerth am arian is-adrannol, a hyd at 4% am gyflawni amcanion trawsffurfiol is-adrannol. Ni fydd unrhyw daliadau bonws yn ôl disgresiwn yn cael eu talu yn 2009.

O ran Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide, mae strategaeth cydnabyddiaeth y BBC yn cydnabod, fel busnes a ariennir yn fasnachol, ei bod yn briodol bod y Prif Swyddog Gweithredol yn cyfranogi yng nghynlluniau bonws blynyddol a chymelldaliadau hirdymor BBC Worldwide. Cymeradwyir y cynlluniau bonws blynyddol a chymelldaliadau hirdymor gan yr Ymddiriedolaeth. Darperir manylion y cynlluniau o dan adran Busnesau Masnachol y BBC.

**Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol**

Mae rheoli gwobrau swyddogion gweithredol yn y BBC yn creu heriau sy'n unigryw yn y DU. Mae'r BBC yn gorfod cydbwyso ei gyfrifoldebau gwerth am arian fel corfforaeth yn y sector cyhoeddus â'i hangen i recriwtio, cadw a chymell y dalent sydd ei hangen i ddarparu darlledu cyhoeddus rhagorol mewn cystadleuaeth â chwmnïau'r cyfryngau a thechnoleg yn y sector preifat.


Mae'r BBC yn gweithredu strategaeth cydnabyddiaeth ar gyfer y Bwrdd, wedi ei chymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth, a gynlluniwyd fel y gellir recriwtio a chadw staff yn y marchnadoedd y mae'n gweithredu ynddynt, fel darlledwr cyhoeddus a busnes masnachol. Mae'r strategaeth hon yn alinio cyflog sylfaenol y BBC â lefelau canolig y sector masnachol, ond ni cheisir cynnig tâl amrywiol sy'n cyfateb i'r lefelau tâl amrywiol a delir gan ein cystadleuwyr yn y sector masnachol. Mae ein strategaeth yn ystyried y cyfle o gael gweithio i'r BBC, ynghyd â'r lefel uwch o ddiogelwch mewn swydd nag a geir fel arfer o ganlyniad i'r ffaith bod ein refeniw yn fwy rhagweladwy. Mae'r strategaeth cydnabyddiaeth ar gyfer y Bwrdd yn cael ei rhaeadru i lawr drwy weddill y sefydliad lle y caiff dull tebyg ei weithredu. Bob blwyddyn, rydym yn adolygu data ar daliadau'r farchnad ac mae hyn yn dangos, er bod cyflog sylfaenol wedi'i alinio i raddau helaeth â lefelau canolig yn y sector masnachol, fod cyfanswm y gydnabydiaeth a dderbynnir gan bob un o'r cyfarwyddwyr gweithredol yn sylweddol is na'r lefelau a delir gan ein cystadleuwyr yn y sector masnachol. Mae hyn yn cynnwys Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide sy'n cyfranogi yng nghynlluniau bonws blynyddol a chymelldaliadau hirdymor BBC Worldwide, ein busnes masnachol.

Un o'r ffactorau sylweddol wrth wahaniaethu rhwng cyflogau swyddogion gweithredol yn y BBC yw'r angen i gydnabod gwahanol ddynameg y farchnad rhwng staff creadigol a staff cymorth proffesiynol ac rydym yn cydnabod bod y staff cymorth proffesiynol, yn gyffredinol, yn debygol o aros yn y BBC am lai o amser ac yn debygol o allu cael eu gwobrwyo'n well yn y sector masnachol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ymateb i'r newid mewn amgylchiadau economaidd, gan gydnabod bod y bwlch rhwng cyflogau'r BBC a'i gystadleuwyr yn y sector masnachol yn debygol o leihau wrth i lefelau taliadau amrywiol yn sector y cyfryngau a thechnoleg leihau. Felly, gwnaethom gyfyngu ar godiadau yng nghyflogau sylfaenol y rhan fwyaf o'r cyfarwyddwyr gweithredol i 2% ym mis Awst 2008 ac rydym wedi penderfynu na fydd codiad yng nghyflog sylfaenol unrhyw gyfarwyddwr gweithredol ym mis Awst 2009. At hynny, penderfynodd y Bwrdd atal trefniadau bonws yn ôl disgresiwn ar gyfer pob aelod o staff ac, o ganlyniad, ni thelir unrhyw fonysau yn ôl disgresiwn tan fis Awst 2010 ar y cynharaf (heblaw am Fusnesau Masnachol, lle y telir taliadau bonws cytundebol, gan gynnwys i Brif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide). Rydym hefyd wedi cydnabod bod angen sicrhau bod cydnabyddiaeth y BBC yn parhau i fod yn briodol ac yn berthnasol yn y dyfodol ac rydym wrthi'n cynnal arolwg ffurfiol o'n strategaeth cydnabyddiaeth. Bydd yr arolwg hwn yn ystyried a yw alinio cyflog sylfaenol â'r sector masnachol yn briodol o hyd ac yn dod i gasgliad ynglŷn â'r ymagwedd orau tuag at dâl amrywiol ar gyfer y BBC wrth iddo symud ymlaen. Rydym yn bwriadu cwblhau'r arolwg a chytuno ar unrhyw newidiadau i'r strategaeth cydnabyddiaeth gyda'r Ymddiriedolaeth erbyn mis Hydref 2009. Bydd hyn yn rhoi fframwaith sy'n gryfach na'r fframwaith presennol ac yn sicrhau bod y polisi yn dal i fod yn gadarn yn wyneb yr heriau sy'n wynebu'r BBC yn awr ac yn y tymor hwy.

Er ein bod yn wynebu rhai problemau cymhleth a heriol, rwyf i a'm cydweithwyr o'r farn ein bod wedi parhau i gymhwyso strategaeth cydnabyddiaeth sydd o fudd i dalwyr ffi'r drwydded, sy'n sensitif i'r amgylchiadau economaidd cyfredol, ac sydd wedi ein galluogi i recriwtio, cadw a chymell y swyddogion gweithredol talentog sydd eu hangen ar y BBC.

**Marcus Agius**
Cadeirydd
Pwyllgor Cydnabyddiaeth
18 Mehefin 2009



## Buddiannau

Yn ogystal â phensiynau, y prif fuddiannau cytundebol eraill a ddarperir yw car a lwfans tanwydd, yswiriant iechyd preifat ac aswiriant bywyd. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol yn gymwys i gael car â gyrrwr o dan drefniadau cynharach. Nid oes gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i gar personol na lwfans tanwydd.

## Pensiwn

Mae aelodau gweithredol y Bwrdd yn gymwys i gymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y BBC, sy'n darparu ar gyfer buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig.

Ar gyfer cyflogai a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn cyn 1 Tachwedd 2006, y gyfradd gronni yw 1/60ain o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth a'r cyflog pensiynadwy yw'r cyflog sylfaenol, yn cynnwys Pwysoliad Llundain, ond nid yw'n cynnwys unrhyw daliadau bonws na thaliadau eraill. Ar gyfer cyflogeion yn y grŵp hwn yr oedran pensiynadwy arferol yw 60. Ar gyfer cyflogai a ymunodd ar neu ar ôl 1 Tachwedd 2006, y gyfradd gronni yw 1.67% o'u cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth, wedi ei haddasu yn unol â chwyddiant hyd at ymddeoliad. Ar gyfer cyflogeion yn y grŵp hwn yr oedran pensiynadwy arferol yw 65.

Mae gan bob cyfarwyddwr gweithredol presennol (ac eithrio Erik Huggers) oedran pensiynadwy arferol o 60 ond gallant barhau yn y swydd nes eu bod yn cyrraedd 65 oed. Yr oedran ymddeol arferol ar gyfer Erik Huggers yw 65 oed gan ei fod wedi ymuno â'r Cynllun Pensiwn ar ôl 1 Tachwedd 2006. Ar gyfer y rhai a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn ar ôl 31 Mai 1989 mae enillion yn agored i uchafswm terfyn blynyddol (£117,600 y flwyddyn ar gyfer 2008/09). Ni chymhwysir unrhyw uchafswm terfyn blynyddol i'r rhai a ymunodd ar neu cyn 31 Mai 1989. Mae'r Cynllun Pensiwn yn darparu ar gyfer ymddeoliad cynnar ar sail feddygol ac aswiriant bywyd o bedair gwaith y cyflog pensiynadwy hyd at derfyn a ragnodir.

Rhoddwyd amrywiaeth o drefniadau ar waith, ar gyfer aelodau o'r Bwrdd a ymunodd ar ôl 31 Mai 1989, lle mae eu cyflog pensiynadwy yn uwch na'r uchafswm terfyn blynyddol, yn cynnwys trefniadau wedi eu hariannu a heb eu hariannu y tu allan i'r Cynllun Pensiwn. Ers 1 Ebrill 2006, disodlwyd y trefniadau hyn gan dâl ychwanegol arian parod a delir i bob cyfarwyddwr ar gyflog pensiynadwy sy'n uwch na'r uchafswm terfyn blynyddol.

Gall unrhyw gyflogai sy'n rhan o'r cynllun sy'n cyrraedd neu'n mynd y tu hwnt i'r Lwfans Gydol Oes (£1.65miliwn ar gyfer 2008/09) ddewis eithrio o'r Cynllun Pensiwn a chael tâl arian parod ychwanegol yn lle hynny.

### Busnesau masnachol y BBC

Mae Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide yn rhan o gynllun bonws blynyddol a chynllun cymelldaliadau hirdymor BBC Worldwide a sefydlwyd gan Fwrdd BBC Commercial Holdings ac a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth. Nid ariennir y cynlluniau hyn gan ffi'r drwydded ac mae costau llawn cyflog sylfaenol, bonws blynyddol a'r cynllun cymelldaliadau hirdymor wedi eu hunanariannu gan refeniw masnachol BBC Worldwide.

Mae Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide yn gymwys i gael uchafswm dyfarniad blynyddol o 50% o gyflog sylfaenol o dan y cynllun bonws blynyddol; pennir 75% o'r bonws yn ôl perfformiad BBC Worldwide yn erbyn targedau elw a rhoddir 25% yn ôl disgresiwn y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn seiliedig ar gyflawni amcanion allweddol sy'n ymwneud â llwyddiant cyffredinol y BBC. Yn unol â phenderfyniad a wnaed ynghylch y cyfarwyddwyr gweithredol eraill, ni fydd y bonws olaf hwn o 25% a roddir yn ôl disgresiwn yn daladwy yn 2009. Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol yr hawl i ohirio hyd at 75% o fonws blynyddol y flwyddyn flaenorol i mewn i'r cynllun cymelldaliadau hirdymor.

Mae'r cynllun cymelldaliadau hirdymor yn gynllun cymelldaliadau arian parod a gynlluniwyd i gysoni cydnabyddiaeth y Prif Swyddog Gweithredol â strategaeth y busnes. Yr uchafswm a delir allan o dan y cynllun cymelldaliadau hirdymor yw 20% o gyflog sylfaenol, a swm cyfatebol posibl ychwanegol o 100% o'r bonws blynyddol gohiriedig. Caiff dau fesur perfformiad eu defnyddio wrth benderfynu ar y ddwy elfen: mesurir Twf Elw (pwysoliad o 75%) a thwf Adenillion ar Werthiannau (pwysoliad o 25%) dros gyfnod o dair blynedd a'u cymharu â grŵp cymharol o 15 o leiaf o gwmnïau cyfryngau rhyngwladol eraill. Caiff y cwmnïau eu graddio yn unol â'u perfformiad. Dewiswyd y mesurau hyn gan mai hwy sy'n ategu amcanion BBC Worldwide yn fwyaf uniongyrchol a'r mesurau hyn yw prif ysgogwyr llwyddiant.

## Tabl 3/ Cydnabyddiaeth a dderbyniwyd

Dangosir cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd a'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn isod:

| | Ffi/ cyflog sylfaenol[6] £000 | Bonws blynyddol £000 | Buddiannau trethadwy £000 | Cydnabyddiaeth arall[7] £000 | **Cyfanswm cydnabyddiaeth 2008/09 £000** | Cyfanswm cydnabyddiaeth 2007/08 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | | |
| Jenny Abramsky[1] | 212 | – | 5 | 31 | 248 | 419 |
| Jana Bennett | 412 | – | 15 | 88 | 515 | 536 |
| Mark Byford | 471 | – | 14 | – | 485 | 513 |
| Tim Davie | 325 | – | 16 | 62 | 403 | 413 |
| Ashley Highfield[2] | 104 | – | 3 | 17 | 124 | 466 |
| Erik Huggers[3] | 223 | – | 9 | 42 | 274 | – |
| Stephen Kelly[4] | 327 | – | 11 | 58 | 396 | 431 |
| Zarin Patel | 346 | – | 14 | 69 | 429 | 440 |
| John Smith[5] | 397 | 69 | 14 | – | 480 | 486 |
| Mark Thompson | 664 | – | 6 | 164 | 834 | 816 |
| Caroline Thomson | 333 | – | 15 | 65 | 413 | 440 |
| **Cyfanswm cyfarwyddwyr gweithredol** | **3,814** | **69** | **122** | **596** | **4,601** | **4,960** |
| **Cyfarwyddwyr anweithredol** | | | | | | |
| Marcus Agius | 50 | – | – | – | 50 | 50 |
| Val Gooding | 35 | – | – | – | 35 | 9 |
| Mike Lynch | 35 | – | – | – | 35 | 35 |
| David Robbie | 40 | – | – | – | 40 | 40 |
| Samir Shah | 35 | – | – | – | 35 | 35 |
| Robert Webb | 40 | – | – | – | 40 | 40 |
| **Cyfanswm Cyfarwyddwyr anweithredol** | **235** | **–** | **–** | **–** | **235** | **209** |
| **Cyfanswm y Bwrdd Gweithredol** | **4,049** | **69** | **122** | **596** | **4,836** | **5,169** |
| **Cyfanswm yr Ymddiriedolwyr** | | | | | **677** | **642** |
| **Cyfanswm** | | | | | **5,513** | **5,811** |

[1] Ymddeolodd Jenny Abramsky ar 30/09/08, mae'r cyflog sylfaenol yn cynnwys tâl am wyliau cytundebol o £46,414.

[2] Gadawodd Ashley Highfield ar 30/06/08, mae'r cyflog sylfaenol yn cynnwys tâl am wyliau cytundebol o £16,515.

[3] Penodwyd Erik Huggers yn Gyfarwyddwr ar 01/08/08.

[4] Gadawodd Stephen Kelly ar 28/02/09, mae'r cyflog sylfaenol yn cynnwys tâl am wyliau cytundebol o £25,143.

[5] Mae cyflog sylfaenol, taliadau bonws a buddiannau John Smith wedi cael eu hariannu'n llawn gan Fusnesau Masnachol y BBC ers 1 Medi 2006. Yn ogystal â'r bonws blynyddol, mae swm cyfwerth wedi'i fuddsoddi yn y Cynllun Cymelldaliadau Hirdymor ar gyfer BBC Worldwide a all gael ei dalu ym mis Mawrth 2012.

[6] Cyflwynodd y BBC drefniant aberthu cyflog ar 1 Mehefin 2008 ar gyfer aelodau a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn cyn 1 Tachwedd 2006, a chymerodd y Cyfarwyddwyr hynny a nodir yn y tabl uchod ran yn y trefniant. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, newidiwyd telerau ac amodau cyflogaeth y cyflogeion hynny a ddewisodd y trefniant aberthu cyflog ac o ganlyniad mae cyfraniadau pensiwn cyflogeion a wnaed drwy'r trefniant aberthu cyflog wedi'u trin fel cyfraniadau'r cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith yr aberth cyflog er mwyn gallu eu cymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Cyfanswm y cyflog a aberthwyd gan gyfarwyddwyr gweithredol oedd £84,704.

[7] Mae cydnabyddiaeth arall yn ymwneud â threfniadau pensiwn ac yn cynnwys y canlynol:
a. taliadau pensiwn arian parod ychwanegol a ddisodlodd drefniadau FURBS.
b. arian parod ychwanegol ar gyfer Jenny Abramsky gan nad oedd yn cronni buddiannau o dan y Cynllun Pensiwn mwyach.

## Tabl 4/ Cynlluniau buddiannau diffiniedig

Dangosir manylion hawliadau buddiannau diffiniedig isod:

| | Oedran ar 31 Mawrth 2009 | Cynnydd mewn pensiwn cronnus dros y flwyddyn £000 | Cyfanswm pensiwn cronnus ar 31 Mawrth 2009 £000 | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronnus ar 31 Mawrth 2009[4] £000 | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronnus ar 31 Mawrth 2008[4] £000 | Cyfraniadau'r Cyfarwyddwr (ac eithrio cyfraniadau a dalwyd drwy'r trefniant aberthu cyflog) £000 | Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo llai cyfraniadau'r cyfarwyddwr £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | | | |
| Jana Bennett | 53 | 2 | 14 | 212 | 164 | 1 | 47 |
| Mark Byford | 50 | 13 | 206 | 3,406 | 2,763 | 5 | 638 |
| Tim Davie | 41 | 2 | 8 | 57 | 37 | 1 | 19 |
| Ashley Highfield[1] | 43 | 1 | 15 | 116 | 99 | 1 | 16 |
| Erik Huggers[2] | 36 | 2 | 2 | 7 | – | – | 7 |
| Stephen Kelly[3] | 43 | 2 | 5 | 37 | 20 | 1 | 16 |
| Zarin Patel | 48 | 3 | 21 | 220 | 170 | 1 | 49 |
| John Smith | 51 | 15 | 209 | 3,673 | 3,167 | 4 | 502 |
| Mark Thompson | 51 | 2 | 9 | 130 | 91 | 1 | 38 |
| Caroline Thomson | 54 | 5 | 67 | 1,475 | 1,308 | 1 | 166 |

[1] Ymddiswyddodd Ashley Highfield fel cyfarwyddwr a gadawodd y Cynllun Pensiwn ar 30 Mehefin 2008. Prisiwyd y pensiwn cronnus wrth adael y Cynllun Pensiwn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2009.

[2] Penodwyd Erik Huggers yn gyfarwyddwr ar 1 Awst 2008, er iddo ymuno â'r Cynllun Pensiwn ar 1 Ebrill 2008. Mae'r ffigurau a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn iddo gael ei benodi'n gyfarwyddwr. Mae'n aelod sydd â llai na dwy flynedd o wasanaeth, ac felly nid oes ganddo hawl i bensiwn gohiriedig ar 31 Mawrth 2009. Fodd bynnag, er cysondeb, mae ei bensiwn gohiriedig cronnus wedi'i gyfrifo a'i brisio.

[3] Ymddiswyddodd Stephen Kelly fel cyfarwyddwr a gadawodd y Cynllun Pensiwn ar 28 Chwefror 2009. Prisiwyd y pensiwn cronnus wrth adael y Cynllun Pensiwn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2009.

[4] Mae gwerth trosglwyddo'r buddiannau cronnus yn cynrychioli amcangyfrif o gost ariannu'r buddiannau a gronnwyd hyd yn hyn i'r Cynllun Pensiwn. Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar y gwerth, yn cynnwys oedran, cyflog pensiynadwy, gwasanaeth pensiynadwy, yr adran o'r Cynllun Pensiwn ac amodau'r farchnad fuddsoddi ar ddyddiad y cyfrifiad. Nid yw'n swm a delir nac yn swm sy'n ddyledus i'r unigolyn ac felly ni ellir ei ychwanegu'n ystyrlon at y gydnabyddiaeth.

Ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â therfynu contract ac ni thalwyd unrhyw iawndal am golli swydd i aelodau o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn ac nid oedd unrhyw daliadau o'r fath yn dderbyniadwy ganddynt.

## Tabl 5/ Rhestr o daliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor ar gyfer BBC Worldwide

| Gradd perfformiad BBC Worldwide | Taliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor |
|---|---|
| Chwartel uchaf neu uwch | 20% o gyflog sylfaenol, a swm cyfatebol o 100% o'r bonws gohiriedig |
| Canolrif | 10% o gyflog sylfaenol, a swm cyfatebol o 50% o'r bonws gohiriedig |
| Islaw'r canolrif | Dim byd yn daladwy |

Nodiadau:

1. Mae dosbarthu llinell syth yn gymwys rhwng y canolrif a'r chwartel uchaf.
2. Fforffedir 50% o swm unrhyw fonws blynyddol gohiriedig hefyd os yw'r perfformiad yn is na'r chwartel isaf.

## Tabl 6/ Taliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide

| Dyfarniad y cynllun cymelldaliadau hirdymor | Bonws gohiriedig £000 | Diwedd y cyfnod perfformiad | Dyfarniad y cynllun cymelldaliadau hirdymor a dalwyd £000 | Dyfarniad a dalwyd sy'n cyfateb i'r bonws gohiriedig £000 | Cyfanswm a dalwyd £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | a | | b | c | a+b+c |
| Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2006 i 2009 | – | Mawrth 2009 | 80 | – | 80 |

## Tabl 7/ Taliadau posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor yn 2010 a 2011 ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide

| Dyfarniad y cynllun cymelldaliadau hirdymor | Bonws gohiriedig £000 | Diwedd y cyfnod perfformiad | Taliadau posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor (targed) £000 | Taliadau posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor (uchafswm) £000 | Dyfarniad posibl sy'n cyfateb i'r bonws gohiriedig (uchafswm) £000 | Cyfanswm posibl (targed) £000 | Cyfanswm posibl (uchafswm) £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | a | | b | c | d | e | a+b+d | a+c+e |
| Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2007 i 2010 | 80 | Mawrth 2010 | 40 | 80 | 40 | 80 | 160 | 240 |
| Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2008 i 2011 | 88 | Mawrth 2011 | 40 | 80 | 44 | 88 | 172 | 256 |

Nodiadau:

1. Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2007-2010 ar gyfer perfformiad sy'n is na'r chwartel isaf, fforffedir 100% o'r bonws gohiriedig.
2. Mae dyfarniad posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor yn seiliedig ar enillion cyfredol a chaiff ei dalgrynnu i'r 1,000 agosaf

Dewisir y grŵp cymharol am ei gymysgedd o fusnesau, diwydiant a chynrychiolaeth ddaearyddol ac mae'n cynnwys Aegis Group, British Sky Broadcasting Group, Emap, Informa, ITV, Pearson, Reuters Group, Taylor Nelson Sofres, WPP, Yell Group, Cablevision Systems Corp, Comcast A, Disney (Walt) Company, Eastman Kodak, Interpublic Group Cos, News Corp A, SBS Broadcasting, Time Warner, Pro-Sieben-Sat1, Axel Springer (R), Havas Advertising, JC Decaux, M6 Metropole Television, Publicis Groupe, TF1, Vivendi Universal, Arnoldo Mondadori, Mediaset, RCS Mediagroup, Jetix Europe, Dentsu Inc, Fuji Television Network, Nippon Television Network Corp, SKY Perfect Communications.

Mae'n rhaid i BBC Worldwide gael ei raddio o leiaf yng nghanol y grŵp cymharol cyn y bydd unrhyw ddyfarniad yn daladwy. Telir y swm uchaf os caiff ei raddio yn y chwartel uchaf neu'n uwch. Ceir graddfa taliadau llinell syth rhwng y ddau bwynt hyn.

### Contractau cyflogaeth

Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o 12 mis ar y mwyaf, a gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol. Ar 31 Mawrth 2009, roedd tymor heb ddarfod pob cyfarwyddwr gweithredol yn 12 mis ar y mwyaf. Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai bod hynny ar sail dileu swydd.

### Buddiannau allanol

Lle nad oes unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro buddiannau, a chyda chytundeb y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Enwebiadau ymlaen llaw, gall aelodau gweithredol y Bwrdd ddal un swydd cyfarwyddwr allanol â chydnabyddiaeth, a chaniateir hyd at 15 diwrnod y flwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Gall yr aelod gweithredol gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr. Nod y polisi yw annog cyfarwyddwyr gweithredol i ymgymryd â swyddi cyfarwyddwyr anweithredol allanol, er mwyn cynorthwyo datblygiad proffesiynol a dod â sgiliau busnes ehangach i'r BBC. Gall cyfarwyddwyr gweithredol ddal swyddi allanol na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy hefyd.

Yn ystod y flwyddyn, gwasanaethodd y Prif Swyddog Gweithredu fel cyfarwyddwr anweithredol Y Rheoleiddiwr Pensiynau hyd at 28 Chwefror 2009 a chadwodd y ffioedd ar gyfer y swydd cyfarwyddwr hon fel y nodir yn nhabl 8 isod. Gellir gweld cofrestr o fuddiannau aelodau'r Bwrdd yn www.bbc.co.uk/info/running/executive/register.shtml Cydnabyddir bod Cyfarwyddwyr anweithredol yn debygol o gael swyddi cyfarwyddwyr eraill ac nid yw'r cyfyngiadau sy'n gymwys i gyfarwyddwyr gweithredol yn gymwys iddynt hwy.

**Tabl 8/ Ffioedd swyddi cyfarwyddwyr allanol**

| | Sefydliad | Taliad a gafwyd £000 |
|---|---|---|
| Prif Swyddog Gweithredu | Y Rheoleiddiwr Pensiynau | 9 |

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEB Y BWRDD GWEITHREDOL

### Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU a'u harchwilio. Nodir manylion cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi arolwg gweithredu ac ariannol (mae hwn yn cynnwys arolwg o berfformiad y Bwrdd Gweithredol a'r trosolwg ariannol), datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau a rheoliadau cymwys a'r datganiad o gyfrifon. O ganlyniad, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi datganiad o gyfrifon (neu 'ddatganiadau ariannol') am bob blwyddyn sy'n rhoi darlun cywir a theg o faterion y BBC a'r incwm a'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

- ddethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson.
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth.
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys y DU, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol.
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni fydd yn amhriodol tybio y bydd y BBC yn parhau i weithredu. Os felly, dylid cyflwyno tybiaethau ategol neu amodau fel y bo'r angen.

At hyn, mae'r Bwrdd wedi dewis cydymffurfio â darpariaethau cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a, lle y bo'n briodol, Reolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, sy'n gymwys i gwmni a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE ac eithrio'r ffaith na fabwysiadwyd y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y BBC yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Siarter a darpariaethau datgeliad cymwys Deddf Cwmnïau 1985. Mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd dros gymryd camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r BBC ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y BBC ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd yn dal swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth:

- fod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU, yn rhoi darlun cywir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol a gwarged y BBC a'r ymgymeriadau a gynhwysir yn y cyfuno yn ei gyfanrwydd.
- bod yr arolwg gweithredu ac ariannol yn cynnwys arolwg teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa'r BBC a'r ymgymeriadau a gynhwysir yn y cyfuno yn ei gyfanrwydd, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebant.


### Datganiad ynglŷn â datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd yn dal swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; a bod pob aelod wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi eu cymryd fel aelod o'r Bwrdd er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

### Busnes gweithredol

Er nad yw'r BBC yn hollol ddiogel rhag effeithiau'r amgylchedd economaidd cyfredol, mae'r Bwrdd o'r farn bod y BBC mewn sefyllfa dda i reoli'r risgiau yn effeithiol, a bod ganddo adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. O ganlyniad, mae sail busnes gweithredol wedi'i mabwysiadu wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan y Bwrdd.



**Mark Thompson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
18 Mehefin 2009